Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026

# Adroddiad Monitro Blynyddolylunio

(Hydref 2020)







www.npt.gov.uk/ldp

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Crynodeb Gweithredol ..... 3

## RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir

1 Cyflwyniad ..... 9
2 Newid Cyd-destunol ..... 15
2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol ..... 15
2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol ..... 19
2.3 Y Cyd-destun Lleol ..... 20

## RHAN 2 - Monitro'r CDLl

3 Strategaeth ..... 23
3.1 Strategaeth ..... 23
4 Polisiau Trosfwaol ..... 27
4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd ..... 27
4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd ..... 34
4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy ..... 37
4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith ..... 39
5 Polisiau a Seiliwyd ar Ardaloedd ..... 43
5.1 Polisi Strategol 5 Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfodir ..... 43
5.2 Polisi Strategol 6 Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd ..... 63
6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy ..... 73
6.1 Polisi Strategol 7 Y Gofyn o ran Tai ..... 73
6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy ..... 77
6.3 Polisi Strategol 9 Sipsiwn a Theithwyr ..... 82
6.4 Polisi Strategol 10 Mannau Agored ..... 83
7 Hybu Economi Gynaliadwy ..... 87
7.1 Polisi Strategol 11 Twf Cyflogaeth ..... 87
7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu ..... 103
7.3 Polisi Strategol 13 Twristiaeth ..... 105

**8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd 107**

8.1 Polisi Strategol 14 Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu 107

8.2 Polisi Strategol 15 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth 109

8.3 Polisi Strategol 16 Diogelu'r Amgylchedd 110

8.4 Polisi Strategol 17 Mwynau 113

8.5 Polisi Strategol 18 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel 117

8.6 Polisi Strategol 19 Rheoli Gwastraff 120

**9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy 123**

9.1 Polisi Strategol 20 Rhwydwaith Trafnidiaeth 123

**10 Parchu Unigrywiaeth 129**

10.1 Polisi Strategol 21 Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol 129

10.2 Polisi Strategol 22 Yr Iaith Gymraeg 132

## RHAN 3 – Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd 137**

11.1 Pwnc 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd 137

11.2 Pwnc 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff 143

11.3 Pwnc 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth 148

11.4 Pwnc 4 yr AC: Y Tirlun, y Treflun a'r Cymeriad Hanesyddol 150

11.5 Pwnc 5 yr AC: Llygredd 151

11.6 Pwnc 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol 154

11.7 Pwnc 7 yr AC: Iechyd a Llesiant 160

11.8 Pwnc 8 yr AC: Economi 167

## RHAN 4 – Diweddglo ac Argymhellion

**12 Diweddglo ac Argymhellion 181**

**Atodiad A 1**

## Crynodeb Gweithredol

1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Castell-nedd Port Talbot ar 27 Ionawr 2016. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu, mae gofyn bod y Cyngor yn paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd yr AMB yn darparu sylfaen ar gyfer monitro cynnydd cyflawni'r CDLl, hygrededd y Cynllun o ran cynaliadwyedd, ac yn nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar ei weithrediad.

2 Dyma'r pedwerydd AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ac mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLl ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol. Mae'r AMB hwn, felly, yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020, ac mae gofyn ei fod yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2020.

3 Mae'r AMB yn cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion, ond bellach cesglir data ar 88 o ddangosyddion yn unig, oherwydd newidiadau yn y canllawiau(1). Defnyddir y dangosyddion hyn i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Ceir crynodeb byr o ganlyniad monitro eleni isod:

### Fframwaith Monitro'r CDLl

| Asesu | Gweithredu | Nifer y dangosyddion yn y categori |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau | 59 |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | 1 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol | Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau | 1 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | 27 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y CDLl yn destun proses adolygu | 0 |

4 Mae mwyafrif y dangosyddion yn dal i ddangos bod y polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus. Serch hynny, mae sawl targed dangosydd polisi allweddol a chanlyniad monitro, yn ymwneud yn bennaf â darparu tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth, sy'n dal heb eu cyflawni. Mae hynny'n dangos nad yw'r polisïau hyn yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac yn yr achosion hyn mae'r monitro wedi cadarnhau y bydd angen rhoi sylw i'r materion polisi hyn fel rhan o adolygiad y CDLl.

1 Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020) wedi newid sut mae data cwblhau tai yn cael ei goladu. O ganlyniad i'r newidiadau hyn nid yw Dangosydd 40, yng nghyswllt TAN 1, yn cael ei fonitro bellach, ac i osgoi newidiadau i'r rhifau dilynol, mae'r data tai newydd yn awr i'w weld o dan Ddangosydd 39.

**5** Lle mae dogfennau CCA yn dal heb eu cynhyrchu, bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u paratoi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

## Dangosyddion lle mae angen Gweithredu Pellach

**6** Y dangosydd canlynol, lle mae angen ystyried / paratoi CCA:

| Cyf | Dangosydd |
|---|---|
| 23 | CCA mewn perthynas â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot |

**7** Mae'r 27 dangosydd lle mae angen rhoi sylw i faterion polisi fel rhan o broses adolygu'r CDLl yn cynnwys:

| Cyf | Dangosydd |
|---|---|
| 1 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir |
| 12 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwr |
| 14 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir |
| 15, 16, 17 a 18 | Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Coed Darcy |
| 19 a 20 | Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr |
| 28 | Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan |
| 29 | Swm y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan |
| 31 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd |
| 32 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe |
| 36 | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd |
| 37 | Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd |
| 39 | Nifer yr anheddau fforddiadwy net ychwanegol a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl |
| 41 | Nifer yr anheddau fforddiadwy net ychwanegol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl |
| 42 | Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal sy'n rhan o'r farchnad |
| 43 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy |
| 49 | Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot; y newid yng nghyflogaeth y gweithle ar gyfer Cymru a'r Deyrnas Unedig; lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT; lefel a chyfradd cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig |
| 50 | Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth |
| 51 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth oddi mewn i Fae Baglan |
| 52 | Y newid net yn swm arwynebedd llawr a thir cyflogaeth |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirwedd arbennig a lletemau gwyrdd, yn groes i'r fframwaith polisi |

| Cyf | Dangosydd |
|---|---|
| 80 | Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy / Cyflawni'r Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) |
| 82 | Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman |
| 83 | Darparu cyfleuster Parcio a Rhannu wrth Gyffordd 38 (yr M4), Margam |

### Canfyddiadau Allweddol yr AMB

- Darparwyd 2,338 o gartrefi newydd ers dyddiad gwaelodlin CDLl 2011 (sy'n cyfateb i 55% o'r targed blynyddol cronnol hyd yma). Er bod digon o dir wedi'i ddyrannu yn y CDLl i ddiwallu'r gofynion a nodwyd o ran tai, am amrywiaeth o resymau nid yw safleoedd yn cael eu cynnig ac yn gwneud cynnydd fel y rhagwelwyd.

- Darparwyd 68 o gartrefi fforddiadwy trwy'r system gynllunio ers 2011 (sy'n cyfateb i 11.3% o'r targed blynyddol cronnol hyd yma). Mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

- Gwnaed cynnydd cyfyngedig o ran cyflawni'r ddwy 'Ardal Adfywio Strategol' a ddyrannwyd yng Nghoed Darcy (Castell-nedd) a Glannau'r Harbwr (Port Talbot). Yng Nghoed Darcy, darparwyd 291 o gartrefi newydd ers 2011 (sy'n cyfateb i 28.7% o'r targed blynyddol cronnol hyd yma) ac mae cyfradd isel cyflawni tai a seilwaith wedi golygu bod oedi hefyd yn elfen y cynllun sy'n ymwneud â chyflgoaeth. Yng Nglannau'r Harbwr, darparwyd 34 o gartrefi newydd ers 2011 (sy'n cyfateb i 32.4% o'r targed blynyddol cronnol hyd yma) ac 1.8 hectar o dir cyflogaeth, sydd hefyd yn dal heb gyrraedd y targed.

- Mae cyflogaeth yn y gweithle wedi cynyddu rhywfaint, o 49,400 o swyddi yn 2011 i 49,600 o swyddi yn 2018 (ond mae'r ffigur hwn yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn).

- Mae cyfradd gweithgaredd economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi codi o 69.7% yn 2011 i 76.9% yn 2020, ac ar hyn o bryd mae Castell-nedd Port Talbot 0.3% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

- Mae'r gyfradd ddiweithdra wedi gostwng o 9.9% yn 2011 i 4.8% erbyn mis Mawrth 2020. Er bod y ffigur hwn yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn, o'i gyfuno â'r cyfraddau gweithgaredd economaidd mae'n arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol i'r ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud at gyflawni amcanion y CDLl.

- Mae nifer o gynlluniau seilwaith pwysig wedi cael eu cwblhau ers 2011, gan gynnwys Ffordd yr Harbwr, Ffordd Amazon (Cam 2), gwelliannau cychwynnol graddedig i'r ffordd yng Nghyffordd 43 (yr M4), Pont Gyswllt Parc Ynni Baglan a'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig (Port Talbot).

- Mae estyniad i Safle Sipsiwn a Theithwyr Cae Garw wedi cael ei gwblhau.

- Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn y Bae wedi agor, ac mae gwaith pellach ar y safle wedi'i gwblhau a'i raglennu.

- Mae nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel wedi cael eu cymeradwyo, gan gynnwys ffermydd gwynt, solar, gwres a phŵer cyfunedig ac yn fwyaf diweddar micro-osodiad hydro-drydan. Mae'r cyfan yn cyfrannu at y capasiti a osodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, sydd bellach yn fwy na rhyw 400 MW, sef y capasiti uchaf a osodwyd mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.
- Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, mae cyfanswm o 12 dogfen CCA wedi cael eu cyhoeddi, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio; Tai Fforddiadwy; Mannau Agored a Mannau Gwyrdd; Fframwaith Datblygu Parc Ynni Baglan; Tirlun a Morlun; Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth; Llygredd; Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel; Safonau Parcio; Dylunio; Yr Amgylchedd Hanesyddol a Datblygiad a'r Iaith Gymraeg.

**Diweddglo**

**8** Mae'r cyfnod monitro hwn wedi dangos bod amcanion y CDLl, yn gyffredinol, yn parhau i gael eu cyflawni. Mae mwyafrif y dangosyddion yn parhau i ddangos gweithrediad polisi cadarnhaol, sydd felly'n dangos bod y CDLl yn cyflawni llawer o fanteision sylweddol i gymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot.

**9** Ar ben hynny, mae'r cyfraddau gweithgarwch economaidd a diweithdra wedi gwella ers dyddiad gwaelodlin y Cynllun, ac er bod y ffigurau hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae hynny'n arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol i'r ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y strategaeth ar sylfaen economaidd.

**10** Serch hynny, mae sawl targed dangosydd polisi allweddol a chanlyniad monitro, yn ymwneud yn bennaf â darparu tai a datblygiad cysylltiedig â chyflogaeth, sy'n dal heb eu cyflawni. Mae hynny'n arwydd nad yw'r polisïau hynny'n gweithredu'n unol â'r bwriad, ac o ganlyniad, mae hynny'n tanseilio gallu'r CDLl i gyflawni'r strategaeth uchelgeisiol yn llawn.

**Argymhelliad**

**11** Er mwyn sicrhau bod y CDLl yn cael ei ddiweddaru'n gyson, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun a fabwysiadwyd bob pedair blynedd o leiaf wedi'r mabwysiadu cychwynnol. Yn achos Castell-nedd Port Talbot, felly, mae'r CDLl yn awr yn destun cylch adolygu llawn o bedair blynedd.

**12** Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Adroddiad Adolygu ar y CDLl, y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2020, ac sy'n cadarnhau y bydd adolygiad llawn o'r CDLl, i gychwyn yn y cyfnod monitro nesaf.

# RHAN 1 – Cyflwyniad a Chefndir

# 1 Cyflwyniad

**1.0.1** Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd[2] yn darparu fframwaith defnydd tir y mae penderfyniadau ynghylch datbygiadau yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu seilio arno.

**1.0.2** Mae Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Hwn yw'r pedwerydd AMB ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

**1.0.3** Er mwyn sicrhau bod y CDLl yn cael ei ddiweddaru'n gyson, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun a fabwysiadwyd o leiaf bob pedair blynyddol ar ôl ei fabwysiadu'n gychwynnol.

**1.0.4** O ganlyniad, mae'r CDLl yn awr yn destun y cylch adolygu llawn statudol o bedair blynedd, ac o'r herwydd, bydd angen asesu pob agwedd ar y Cynllun i ystyried a ydynt yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben. Bydd hyn yn cynnwys y materion allweddol, y weledigaeth a'r amcanion, y strategaeth (h.y. lefel a dosbarthiad twf), polisïau, dyraniadau defnydd tir a dynodiadau. Yn arbennig, bydd angen rhoi sylw i'r materion polisi a amlygwyd gan y monitro a wnaed hyd yma.

**1.0.5** Cytunwyd ar Adroddiad Adolygu'r CDLl gan y Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2020, gan gadarnhau bod CDLl Amnewid (CDLlA) yn cael ei baratoi trwy broses adolygu lawn.

**1.0.6** Mae'r AMB yn dal i roi cyfle i fonitro cynnydd cyflawni'r CDLl a hygrededd y Cynllun o ran cynaliadwyedd, ac i nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar ei weithrediad. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i adolygiad parhaus y CDLl.

### Beth yw'r AMB?

**1.0.7** Prif nod yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLl yn effeithiol ac yn cyflawni ei nodau, ac a yw'r polisïau strategol yn gweithio'n ymarferol. Wrth werthuso'r materion hyn, bydd yr AMB (gan gynnwys monitro Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ar amcanion yr AC) yn ystyried effeithiolrwydd y Cynllun yn ei grynswth.

**1.0.8** Er bod y penderfyniad i adolygu'r CDLl presennol wedi cael ei wneud a bod paratoi'r CDLl Amnewid wedi cychwyn (paratoi'r sylfaen o dystiolaeth); bydd AMBau yn parhau i gael eu paratoi er mwyn dadansoddi gweithrediad y cynllun cyfredol a llywio'r broses adolygu.

### Dangosyddion

**1.0.9** Gwnaeth y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 (2020)(DPM) newidiadau i'r fframwaith monitro ar gyfer Cynlluniau newydd a rhai presennol oedd wedi'u mabwysiadu. Mae AMB eleni yn edrych ychydig yn wahanol o ganlyniad, gyda Thablau newydd yn rhoi gwybodaeth a hefyd yn nodi canlyniad AMBau blynyddoedd blaenorol.

2 Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Ionawr 2016).

**1.0.10** Mewn AMBau blaenorol roedd gofyniad i fanylu ar y Cyflenwad Tir ar gyfer Tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar y Cyd (JHLAS) / TAN 1 - dangosydd 40. Fodd bynnag, fel y nodir yn Adran 2.1, mae'r gofyniad i gynhyrchu astudiaeth JHLAS wedi cael ei ddiddymu ac o ganlyniad mae Dangosydd 40 wedi cael ei ddileu. Yn achos Castell-nedd Port Talbot, gan fod ganddo CDLl wedi'i fabwysiadu eisoes, mae monitro cyflenwi tai wedi cael ei ddisodli gan yr elfennau ychwanegol canlynol (a nodir isod), yr adroddir arnynt fel ei gilydd yn nangosydd 39.

**Tabl 1.0.1 Gofynion y Model Dichonoldeb Datblygu (DVM) – Newidiadau i Ddangosydd Allweddol 39**

| Elfennau newydd a ychwanegwyd at Ddangosydd Allweddol 39 | Esboniad y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (DPM) (ar gyfer Awdurdodau sydd â Chynlluniau a fabwysiadwyd eisoes) |
|---|---|
| Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi'i monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelwyd (AABR). | Bydd y niferoedd a gwblhawyd yn cael eu mesur yn erbyn y Gofynion Blynyddol Cyfartalog (AAR) a nodwyd yn y cynllun. Mae'n rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr AMB ar ffurf rifyddol a chanraddol (plws/minws x %).<br><br>Hefyd dylid monitro cydrannau cyflenwi tai, gan gynnwys dyrannu safleoedd, a safleoedd annisgwyl bach a mawr, ar wahân. |
| Cyfanswm cronnol y niferoedd a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronnol a ragwelwyd. | Bydd y niferoedd cronnol a gwblhawyd yn cael eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodwyd yn y cynllun. Rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr AMB ar ffurf rifyddol a chanraddol (plws/minws x %). |

**1.0.11** Mae'r DPM yn datgan... '*I osgoi amheuon, dylai'r ACLlau hynny a fabwysiadodd eu CDLl cyn cyhoeddi'r DPM (Argraffiad 3) ddefnyddio'r dull AAR yn brif ddangosydd ar gyfer mesur y tai a ddarparwyd, a defnyddio'r dull llwybr arfaethedig mewn AMBau wrth symud ymlaen*' (tudalen 193). Bydd fformat yr AMB yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r gofyniad newydd hwn.

**1.0.12** Mae fframwaith monitro'r CDLl yn awr yn cynnwys cyfanswm o 88 dangosydd, gan gynnwys y dangosyddion craidd diwygiedig, ynghyd ag ystod o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â chyd-destun Castell-nedd Port Talbot a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

**1.0.13** Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn, a bydd natur casglu'r data yn amrywio rhyngddynt. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a yw datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen a ragwelwyd?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

**1.0.14** Nododd yr AMBau blaenorol fod y 15 dangosydd a'r targedau cysylltiedig a restrir isod wedi cael eu cwblhau erbyn diwedd eu cyfnodau monitro perthnasol (h.y. erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn). O ganlyniad, mae'r dangosyddion hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad dim ond er mwyn sicrhau dilyniant di-fwlch yn rhifau'r dangosyddion.

**Tabl 1.0.2 Dangosyddion / Targedau Monitro'r CDLl a Gwblhawyd yn Flaenorol**

| Polisi | Dangosydd | AMB | Targed |
|---|---|---|---|
| SP2 | 9 | 2018 | Paratoi CCA yn ymwneud â Dylunio erbyn mis Ebrill 2017. |
| SP4 | 13 | 2017 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio. |
| SP5 | 22 | 2017 | Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY). |
| SP8 | 44 | 2017 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Thai Fforddiadwy. |
| SP10 | 48 | 2018 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Mannau Agored a Mannau Gwyrdd. |
| SP11 | 55 | 2017 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Bae Baglan. |
| SP13 | 61 | 2017 | Cwblhau Llwybr Arfordir Cymru erbyn 2012.<br>Cwblhau Llwybrau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013.<br>Cwblhau Llwybr Mawr y Ddraig (Great Dragon Ride) erbyn 2012. |
| SP14 | 63 | 2018 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Tirlun a'r Morlun. |
| SP15 | 65 | 2018 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth. |
| SP16 | 68 | 2017 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Llygredd. |
| SP18 | 76 | 2018 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel. |
| SP20 | 81 | 2018 | Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot |
| SP20 | 84 | 2017 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Safonau Parcio. |
| SP21 | 86 | 2019 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol. |
| SP22 | 89 | 2018 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg. |

## Targedau

**1.0.15** Nodwyd targedau realistig, cyflawnadwy ar gyfer pob polisi strategol. Mae modd grwpio'r targedau hyn yn fras i dri chategori:

- **Targedau Rhifyddol**, a allai gyfeirio at raddfa'r datblygiad a gynigir (e.e. lefel y tai y rhagwelir eu datblygu) ac y gellid eu mynegi ar ffurf nifer neu ganran. Mae rhai polisïau (e.e. darparu tai newydd) yn nodi cyfres o dargedau interim dros gyfnod y Cynllun, er mwyn sicrhau bod modd mesur cynnydd tuag at gyflawni'r targed cyffredinol ar ddiwedd cyfnod y Cynllun;

- **Targedau Canlyniad**, sy'n cyfeirio at ganlyniad penodol mae'r polisi neu'r polisïau dan sylw yn ceisio'i gyflawni neu ei atal rhag digwydd; a
- **Thargedau Penodol**, sy'n cyfeirio at gynigion datblygu penodol (e.e. cynllun arfaethedig i greu priffordd newydd), lle bydd y targed yn golygu cyflawni'r cynnig o fewn cyfnod penodol o amser.

### Pwyntiau Sbarduno

**1.0.16** Mae gan bob un o'r dangosyddion bwynt sbarduno penodol sy'n nodi ar ba adeg y gallai fod angen rhoi sylw pellach i weithredu'r polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod angen cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, bod y cynnydd yn is na'r gofyniad cronnol dros gyfnod penodol, neu bod datblygiad yn cael ei ganiatáu yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith mae pwynt sbarduno wedi'i gyrraedd, mae angen ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r diffyg (gweler isod).

### Camau Gweithredu

**1.0.17** Gallai gweithrediad llwyddiannus y CDLl gael ei beryglu os na chyflawnir targedau. Mae'r fframwaith monitro yn nodi ystod o gamau gweithredu mae modd eu cyflawni a allai ymdrin ag unrhyw ddiffyg rhifyddol neu ganlyniad oedd heb ei ragweld. Ni fyddai methiant i gyflawni targed penodedig o reidrwydd yn cael ei ystyried yn fethiant polisi oedd yn galw am newidiadau i'r polisi dan sylw (neu'r Cynllun cyfan), ond yng nghyd-destun yr adolygiad o'r CDLl sydd ar waith, bydd y canfyddiadau hyn yn bwydo'n ddefnyddiol i benderfyniadau ynghylch y CDLlA.

**1.0.18** Mae'r tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro, ac mae sawl opsiwn posibl ar gyfer helpu i roi sylw i ddangosyddion yr ymddengys nad ydynt yn cyflawni yn unol â'r disgwyl. I hwyluso'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

### Tabl 1.0.3 Fframwaith Monitro'r CDLl

| Asesiad | Gweithredu | Côd Lliw |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau | (gwyrdd) |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Gal fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | (porffor) |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | (glas) |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol | Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau | (melyn) |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | (oren) |

| Asesiad | Gweithredu | Côd Lliw |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y CDLl yn destun proses adolygu | |

### Strwythur a Chynnwys

1.0.19 Mae strwythur yr AMB yn cynnwys y pedair rhan ganlynol:

- **Rhan 1: Cyflwyniad a Chefndir** – mae'n darparu cyflwyniad ac amlinelliad o'r newid cyd-destunol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu;
- **Rhan 2: Monitro'r CDLl** – mae'n darparu manylion am ganfyddiadau monitro Dangosyddion y CDLl (yn nhrefn y Cynllun);
- **Rhan 3: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd** – mae'n manylu ar ganfyddiadau wyth Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd; a
- **Rhan 4: Casgliadau ac Argymhellion**

# 1 . Cyflwyniad

# 2 Newid Cyd-destunol

## 2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

### Polisi Cynllunio/Canllawiau a Deddfwriaeth Newydd neu wedi eu Diweddaru

**2.1.1** Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (2019/20), cyhoeddwyd nifer o ddogfennau polisi / canllawiau cynllunio newydd, wedi'u diweddaru a chyflwynwyd deddfwriaeth. Amlinellir y prif ddogfennau newydd a'r newidiadau isod.

**Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd (Tachwedd 2019)**

**2.1.2** Y ddogfen hon yw'r ail gynllun addasu i'r newid yn yr hinsawdd i Gymru. Mae'n cyflwyno gofynion cyfreithiol, risgiau'r newid yn yr hinsawdd, blaenoriaethau ymchwil ac yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd.

**2.1.3** Mae'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â'r canlynol, yn arbennig, yn werth eu nodi mewn perthynas â chynllunio:

- Amddiffyn pobl ac adeiladau rhag llifogydd;
- Amddiffyn cyflenwadau dŵr cyhoeddus;
- Risgiau i ecosystemau a busnesau amaeth;
- Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol; a'r
- Amgylchedd Hanesyddol.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2019)**

**2.1.4** Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2019, a'i fwriad yw cefnogi datblygu cynaliadwy yn y moroedd o amgylch Cymru, gan gwmpasu ardaloedd yn ymyl y lan ac oddi ar y lan yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd o adnoddau naturiol morol yn y dyfodol, a sut dylai amrywiol ddefnyddwyr y moroedd ryngweithio ac ystyried gweithgareddau ei gilydd a'u cynlluniau i'r dyfodol.

**2.1.5** Mae Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol (2009) yn gofyn bod awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi perthnasol yn unol â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae gofyn hefyd bod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi sylw i'r dogfennau polisi morol priodol wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag ymarfer unrhyw swyddogaeth a allai effeithio ar ran neu'r cyfan o unrhyw ardal forol yn y Deyrnas Unedig.

**Diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 (Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai ar y Cyd (Ionawr 2015)) a newidiadau cysylltiedig i Bolisi Cynllunio Cymru**

**2.1.6** Cynhaliodd Llywodraeth Cymru 'Adolygiad o Ddarparu Tai trwy'r System Gynllunio', oedd yn dangos bod llawer o'r CDLliau a fabwysiadwyd yn methu â darparu'r nifer gofynnol o gartrefi newydd, oherwydd nad oedd safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu cynnig ar gyfer datblygu neu oherwydd eu bod yn cael eu datblygu'n arafach na'r disgwyl. Daethpwyd i'r casgliad mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd y fframwaith polisi ar gyfer sicrhau bod tai yn cael eu darparu a'r mecanwaith monitro cysylltiedig yn cyd-fynd yn ddigonol â phroses y CDLl.

**2.1.7** O ganlyniad, mae'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai wedi cael ei ganslo, a bydd monitro mwy manwl ar ddarparu tai yn awr yn ofynnol fel rhan o AMBau.

**2.1.8** Gwnaed newidiadau yn unol â hynny i Bolisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (gweler isod) er mwyn sicrhau bod monitro'r tai a ddarperir, gan gynnwys yr ymateb i ddarpariaeth annigonol, yn rhan annatod o broses paratoi'r CDLl, ei fonitro a'i adolygu.

**Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (DPM) 3 (Mawrth 2020)**

**2.1.9** Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a ddiweddarwyd (Llawlyfr CDLliau gynt) yn rhoi arweiniad ynghylch paratoi, monitro a diwygio cynlluniau datblygu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn gyflawnadwy, ac yn cyfrannu at greu lleoedd.

**2.1.10** Diweddarwyd y ddogfen i gymryd i ystyried newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol a gyflwynwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn y dyfodol, Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS), a Chynlluniau Datblygu Lleol Ysgafnach (LDP Lites), wrth iddynt gael eu cyflwyno.

**2.1.11** Mewn perthynas â gweithdrefnau monitro, adolygu a diwygio CDLliau, mae'r Llawlyfr yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn o ran gofynion newydd monitro darparu tai, a hynny yn achos CDLliau presennol ac amnewid, gan amlinellu'r dull gweithredu newydd sydd i'w ddefnyddio, fel yr ymgorfforwyd yn yr AMB hwn (gweler Rhan 2 – Monitro'r CDLl).

**Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach (Awst 2020)**

**2.1.12** Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn cynnwys y mesurau canlynol, a fwriadwyd i roi sylw i faterion ansawdd aer ledled Cymru. Mae'n cyflwyno mesurau i wella ansawdd aer er mwyn amddiffyn iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; cynnal yr amgylchedd naturiol, ecosystemau a bioamrywiaeth; cefnogi Cymru lewyrchus a chefnogi lleoedd cynaliadwy. Mae'r mesurau arfaethedig yn cynnwys:

- gwella galluoedd o ran monitro ac asesu ansawdd aer;
- cynigion ar gyfer fframwaith rheoli ansawdd aer deddfwriaethol a rheoleiddiol, addas at y diben, i Gymru;
- cyfathrebu er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o lygredd aer a newid ymddygiad, i helpu pawb i wella ansawdd aer ac annog eraill i wneud yr un fath; a
- hyrwyddo'r newid o'r cerbyd modur preifat i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Ymgyngoriadau o Bwys

**2.1.13** Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf cafwyd nifer o ddogfennau ymgynghori o bwys ynghylch newidiadau arfaethedig i bolisi, deddfwriaeth a chanllawiau yn y dyfodol. Er bod yr ymgyngoriadau wedi digwydd, nid yw'r newidiadau hynny wedi dod i rym eto, ac fe'u hamlinellir isod:

**Ansawdd aer a'r sainlun: adolygiad o TAN 11 (Cafwyd galwad am dystiolaeth ym mis Chwefror 2020)**

**2.1.14** Mae Nodyn Cyngor Technegol 11 (Ansawdd Aer a'r Sainlun (sŵn)) yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cefnogi ffocws PCC ar greu lleoedd. Mae LIC wedi galw'n anffurfiol am dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o baratoi'r TAN newydd, wedi'i chyfyngu i ddarparu gwybodaeth, safbwyntiau a thystiolaeth i lywio'i ddatblygiad a gweithredu polisi cynllunio cyfredol yn PCC.

**Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol (Cyflwynwyd ym mis Mehefin 2019)**

**2.1.15** Mae ail Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar Reoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol i Gymru wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad, i ddisodli Strategaeth 2011. Mae'r strategaeth yn cyflwyno mesurau i reoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol ledled Cymru, gydag amcanion a mesurau i'r holl bartneriaid weithio tuag atynt yn ystod oes y ddogfen hon (8 mlynedd).

**2.1.16** Mae'r Strategaeth yn cyflwyno pum amcan:

A. Gwella ein dealltwriaeth o risg a'i chyfathrebu;
B. Bod yn barod a meithrin gwydnwch;
C. Blaenoriaethu buddsoddiad i'r cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf;
D. Atal rhagor o bobl rhag wynebu risg; a
E. Darparu ymateb effeithiol a gynhelir.

**2.1.17** Mae'r ymgynghoriad bellach wedi dod i ben, ac rydym yn disgwyl am y ddogfen derfynol.

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft (Cyflwynwyd ym mis Awst 2019)**

**2.1.18** Bwriad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yw datblygu cyfeiriad gofodol clir, hirdymor ar gyfer polisi, gweithredu a buddsoddi'r llywodraeth. Mae'r fframwaith drafft yn cyflwyno canlyniadau FfDC lefel uchel a dewisiadau strategol a gofodol ar ffurf Diagram Strategol, ac yna'n mynd ymlaen i roi mwy o fanylion ar gyfer y tri rhanbarth o Gymru a ddiffiniwyd.

**2.1.19** Mae polisïau strategol Cymru gyfan yn ymdrin ag ystod eang o faterion, gan gynnwys yn arbennig ynni adnewyddadwy, lle nodir meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwynt a solar, lle rhagdybir ffafriaeth i gynlluniau o'r fath. Mae'r gofyniad am Gynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol hefyd yn cael ei ffurfioli, gan gyflwyno ystod o faterion sy'n cynnwys strategaeth ofodol, hierarchaeth aneddiadau a darpariaeth a gofynion tai ar gyfer y rhanbarth.

**2.1.20** Mae CNPT yn rhan o Ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, y mae'r FfDC yn nodi Bae Abertawe a Llanelli (gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot) fel prif ffocws oddi mewn iddo ar gyfer twf a buddsoddiad ar raddfa ranbarthol. Mae hefyd yn nodi'r potensial ar gyfer datblygu Metro Bae Abertawe.

**2.1.21** Rydym ni'n dal i ddisgwyl am ganlyniad yr ymgynghoriad.

**Adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad, llifogydd ac erydiad arfordirol (Cyflwynwyd ym mis Hydref 2019)**

2.1.22 Mae TAN 15 yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i gynnwys canllawiau ar erydiad arfordirol (sydd hyn o bryd wedi'i nodi yn TAN 14) fydd yn golygu bod modd canslo TAN 14. Y bwriad yw:

- disodli'r map cyngor datblygu â map llifogydd newydd i Gymru;
- rhoi mwy o bwyslais ar y cynllun datblygu a gwerth asesiadau strategol canlyniadau llifogydd;
- integreiddio canllawiau ar erydiad arfordirol â materion risg llifogydd yn TAN 15; a
- darparu canllawiau ar gyfer mentrau adfywio sy'n effeithio ar gymunedau mewn ardaloedd risg llifogydd.

2.1.23 Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2020 a disgwylir y canlyniad.

## Newidiadau Eraill i'r Cyd-destun Cenedlaethol

### Brexit

2.1.24 Ym mis Mehefin 2016 pleidleisiodd etholwyr y Deyrnas Unedig o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), a gadawodd y Deyrnas Unedig yr UE yn ffurfiol ar ddiwedd 2019. Nawr mae cyfnod pontio hyd at ddiwedd 2020 tra bod y Deyrnas Unedig a'r UE yn cyd-drafod trefniadau ychwanegol. Mae'r rheolau cyfredol ynghylch masnach, teithio a busnes ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r UE yn dal i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod pontio.

2.1.25 Er bod Brexit yn debygol o gael effeithiau ar yr economi yn ystod y blynyddoedd sy'n dod, bydd natur yr effeithiau hyn yn dibynnu ar y telerau sy'n cael eu cytuno. Bydd yr effeithiau hyn yn dod yn gliriach dros amser, a bydd hynny'n dal i gael ei ystyried yng nghyswllt y CDLl ac unrhyw adolygiad dilynol.

### Pandemig Covid-19

2.1.26 Ers yr AMB diwethaf mae pandemig byd-eang Covid-19 wedi cael effaith fawr ar y wlad. Ni fydd effaith y pandemig ar yr economi yn gwbl hysbys am beth amser, wrth i fusnesau geisio addasu i amgylchedd wedi'r cyfnod clo, a fydd yn eitha gwahanol i fywyd yn flaenorol, gyda rhyw elfen o gadw pellter cymdeithasol yn debygol o fod yn angenrheidiol am gryn amser eto. Ar ben hynny, bydd effeithiau'r cyfnod clo ar lesiant corfforol a meddyliol, ynghyd ag effaith y salwch ar y rhai sydd wedi'i gael ac wedi adfer ar ôl hynny, a galar y rhai sydd wedi colli ffrindiau a theulu i'r salwch hwn, yn effeithio ar y gwasanaeth iechyd a'r gymuned am gyfnod i'r dyfodol. Bydd yr effeithiau ar Gastell-nedd Port Talbot a'i thrigolion a'i busnesau yn cael eu monitro'n fanwl i'r dyfodol rhagweladwy.

## 2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol

**Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru**

**2.2.1** Yng ngoleuni'r trefniadau cynllunio newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau), mae gwaith wedi parhau yng nghyswllt cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol. Yn rôl arweiniol/ysgrifenyddol y grŵp ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru, mae Swyddogion Polisi CNPT yn parhau i hwyluso trafodaethau parhaus a chynnydd yng nghyswllt mentrau ac astudiaethau cydweithio rhanbarthol.

**2.2.2** Gwnaed cynnydd ar ffurf 'Asesiad Marchnad Dai Leol ar y Cyd' (LHMA) ac 'Astudiaeth Dichonoldeb Rhanbarthol' (RVS). Bydd yr astudiaethau nid yn unig yn llywio adolygiadau o CDLliau unigol, ond hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith ar Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) yn y dyfodol.

**2.2.3** Mae'r astudiaeth LHMA ar y cyd wedi gwneud cynnydd da yn ystod y cyfnod monitro, ac Opinion Research Services oedd â gofal am yr astudiaeth. Mae disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.

**2.2.4** Mae'r RVS hefyd yn gwneud cynnydd da yn dilyn penodi 'Burrows-Hutchinson' i gynorthwyo'r broses. Casglwyd gwybodaeth gan ALlau i lywio'r 'Model Dichonolrwydd Safle-Benodol'. Mae cyfres o gyfarfodydd eisoes wedi cael eu cynnal, a chynhaliwyd cyfarfod rhanddeiliaid ym mis Mai i drafod y prosiect / rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd. Cyhoeddir y model/yr adroddiad terfynol yn fuan.

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

**2.2.5** Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD)[3] ar 20 Mawrth 2017. Mae'r Fargen Ddinesig yn rhaglen fuddsoddi gwerth £1.3bn sy'n cynnwys 11 prosiect strategol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, sef Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

**2.2.6** Mae'r Fargen Ddinesig yn cael ei hariannu, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes prosiectau, gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, a hefyd y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn ystod y 15 mlynedd nesaf, mae disgwyl i'r Fargen Ddinesig roi hwb o ryw £1.8bn i'r economi ranbarthol a chreu bron 10,000 o swyddi newydd o safon.

**2.2.7** Mae prosiectau'r Fargen Ddinesig wedi'u seilio ar themâu allweddol Cyflymu Economaidd, Gwyddor Bywyd a Llesiant, Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar. Bydd pob prosiect yn cael ei gefnogi gan seilwaith ddigidol o'r radd flaenaf a menter Sgiliau a Doniau a fydd yn llwybr i bobl leol gael mynediad i'r swyddi a greir.

**2.2.8** Fel y cofnodwyd mewn AMBau blaenorol, mae Castell-nedd Port Talbot yn arwain y tri phrosiect canlynol o blith yr 11:



3 https://www.swanseabaycitydeal.wales

- Cartrefi sy'n Bwerdai;
- Canolfan Ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf; a
- Gwyddor Dur.

## 2.3 Y Cyd-destun Lleol

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

**2.3.1** Mabwysiadwyd CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Ebrill 2019. Mae'r holl ddogfennau CCA ar gael ar wefan y Cyngor[4].

**2.3.2** Mae CCA yn rhoi arweiniad manwl ynghylch cymhwyso polisi'r CDLl ar gyfer eu meysydd pwnc, ac mae ganddynt statws ystyriaeth berthnasol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gwaith o'u cynhyrchu yn cael ei fonitro gan ddangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn yr AMBau a gyhoeddwyd.

**Strategaeth Dadgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) – Mai 2020**

**2.3.3** Mae'r Strategaeth DARE yn amlinellu gweledigaeth drosfwaol y Cyngor a'i amcanion, yn cyflwyno'r hyn mae'r Cyngor eisoes wedi'i gyflawni, ac yn nodi'r posibiliadau a allai fodoli i'r dyfodol. O ganlyniad, mae'r ddogfen yn rhan annatod o ymgyrch gynaliadwyedd gyffredinol y Cyngor, a bydd fframwaith y cynllun gweithredu cysylltiedig yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei ddyheadau o ran lleihau ei ôl troed carbon.

**2.3.4** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyfnod monitro 2019/20, a mabwysiadwyd y Strategaeth DARE ym mis Mai 2020, gan ddarparu strategaeth a chynllun gweithredu clir mewn perthynas â'r Agenda Dadgarboneiddio/Newid yn yr Hinsawdd.

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – ROWIP**

**2.3.5** Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn nodi, yn blaenoriaethu ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol a mynediad i gefn gwlad. Mae'r cynllun yn amlinellu nifer o amcanion, gan gynnwys cynnal a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy, hybu a chefnogi mynediad i Gefn Gwlad, a sicrhau bod y ddarpariaeth mynediad yn diwallu anghenion pob defnyddiwr.

**2.3.6** Cynhyrchwyd ROWIP Castell-nedd Port Talbot yn wreiddiol a'i gyhoeddi ar gyfer y cyfnod 2008-2018. Yn dilyn cyfnod helaeth o asesu ac ymgynghori, cyhoeddwyd cynllun wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cyfnod 2020-2030 ym mis Mawrth 2020.



4 https://www.npt.gov.uk/7315

# RHAN 2 – Monitro’r CDLl

# 3 Strategaeth

## 3.1 Strategaeth

**3.1.1** Seiliwyd y CDLl ar strategaeth twf a arweinir gan gyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynnydd yng nghyfraddau gweithgarwch economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir, fydd yn ei dro yn rhagfynegi nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol. Mae'r dull gweithredu yn sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth yn cyd-fynd â'i gilydd, a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad o lafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

**3.1.2** Yn y Cynllun nodir cyfanswm o 25 amcan wedi'u grwpio dan y themâu canlynol:

- Adeiladu cymunedau iach, cynaliadwy;
- Hybu economi gynaliadwy;
- Gosod gwerth ar ein hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu unigrywiaeth.

**3.1.3** Gan roi sylw i'r amcanion hyn, nod Strategaeth y CDLl yw:

**Hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda ffocws ar goridor yr arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r cymoedd**

**3.1.4** Trwy fonitro dangosyddion y CDLl, mae modd asesu i ba raddau mae polisïau'r Cynllun yn cyflawni'r strategaeth. Dylid nodi, fodd bynnag, yn ystod y cyfnod monitro hwn (1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020), fod yr Awdurdod wedi derbyn nifer cymharol isel o geisiadau, ac felly bod asesu'n llawn a yw'r strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol yn anodd, ac a yw gweledigaeth ac amcanion cyffredinol y Cynllun yn cael eu cyflawni.

**3.1.5** Ar sail Cyfrifiad 2011, poblogaeth Castell-nedd Port Talbot ar ddyddiad gwaelodlin y CDLl oedd 139,812, ac mae model twf y Cynllun, a seiliwyd ar yr economi, yn amcangyfrif y bydd y boblogaeth ar ddiwedd cyfnod y Cynllun (2026) yn 147,400. Y data diweddaraf a ryddhawyd ynghylch poblogaeth yw rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018; fe'u rhyddhawyd ym mis Awst 2020, ac maen nhw'n amcangyfrif bod poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yn 2020 wedi codi i 143,576, cynnydd o 3,764 o bobl ers dyddiad gwaelodlin y cynllun, sy'n dangos bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd targed poblogaeth y cynllun, a gyflwynwyd yn y model a seiliwyd ar yr economi.

**3.1.6** Mae'r senario a ddewiswyd, a seiliwyd ar yr economi, yn un uchelgeisiol ac yn ceisio mwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Er mwyn ymdrin â materion allweddol y CDLl, mae creu cyfoeth trwy dwf swyddi yn hanfodol i gyflawni'r weledigaeth. Mae'r dull gweithredu hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ragfynegi sut mae newidiadau economaidd yn ystod cyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaeth a nifer y cartrefi newydd sy'n angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm poblogaeth a ragwelir a'r cyflenwad gofynnol o lafur. Nod y strategaeth yw cynyddu cyfraddau gweithgarwch economaidd a lleihau lefelau diweithdra, yn unol â chyfartaledd Cymru.

**3.1.7** Cyfradd gweithgarwch economaidd Castell-nedd Port Talbot yn 2011 oedd 69.7%, sydd 3% yn is na chyfartaledd Cymru, sef 72.7%. Un o amcanion y CDLl yw cynyddu cyfradd y gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026, er mwyn cyfateb i gyfartaledd Cymru.

**3.1.8** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfradd gweithgarwch economaidd Castell-nedd Port Talbot wedi cynyddu 2.9%, yn codi o 74% yn 2019 to 76.9% in 2020. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru wedi dirywio rhyw ychydig, 0.1%, a gwelwyd cynnydd o 0.5% yng nghyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf, felly, yn dangos cynnydd cyffredinol o 7.2% dros ben ffigur dyddiad gwaelodlin y CDLl, ac mae'r bwlch rhwng cyfartaleddau Castell-nedd Port Talbot a Chymru wedi lleihau hefyd, ac mae Castell-nedd Port Talbot bellach 0.3% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

**3.1.9** Amcan pellach yn y CDLl yw lleihau cyfradd diweithdra yn unol â chyfartaledd hirdymor Cymru, sef 6.9%. Eleni mae cyfradd diweithdra Castell-nedd Port Talbot wedi codi 1.8%, o 3% yn 2019 i 4.8% yn 2020. Yn ystod yr un cyfnod roedd diweithdra wedi gostwng 0.8% yng Nghymru a 0.3% yn y Deyrnas Unedig. Er bod cynnydd cyffredinol wedi digwydd ers y dyddiad gwaelodlin, mae diweithdra wedi gostwng 6%, ac mae cyfradd gyfredol diweithdra eisoes yn is na chyfartaledd tymor hir Cymru. Bydd lefelau diweithdra yn cael eu monitro'n fanwl yn ystod y cyfnod monitro nesaf er mwyn dadansoddi effaith Covid-19 ar yr economi.

**3.1.10** O ran gweithredu, fodd bynnag, mae darparu tai ar draws Castell-nedd Port Talbot yn dal i fethu cyrraedd y targed. Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, cyfanswm o 2,338 o anheddau yw nifer y tai a gwblhawyd, ac o gymharu â'r targed cronnol blynyddol, mae hynny'n dangos mai 55% yn unig o'r targed a gyflawnwyd hyd yma.

**3.1.11** Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLl i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw safleoedd yn cael eu cynnig ac yn gwneud cynnydd fel y rhagwelwyd.

**3.1.12** Ymhellach, er gwaethaf yr ymdrechion i ddarparu llawer iawn o wybodaeth gefndir am y safleoedd tai yn Atodiad A o'r CDLl (gan gynnwys mesurau lliniaru/gwneud iawn angenrheidiol a'r gofynion posibl o ran A106/seilwaith), mae rhai ceisiadau, gwaetha'r modd, yn araf yn symud ymlaen. Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn ddiweddar ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd, gyda rhai safleoedd yn derbyn caniatâd cynllunio, neu'n destun ceisiadau am gyngor manwl cyn ymgeisio. Mae disgwyl, felly, y gallai'r gyfradd gyflawni godi wrth symud ymlaen. Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn y Bae wedi agor, ac mae rhagor o ddatblygu ar y safle wedi cael ei gwblhau a'i raglennu.

**3.1.13** Oddi mewn i 'Ardal Strategaeth y Cymoedd', mae'r dyraniad tai ar safle Fferm Bryn Brych, Rhos, ar waith, ac mae disgwyl i'r cyfnod cyntaf gael ei gwblhau yn 2021. Ar ben hynny, cymeradwywyd nifer o safleoedd annisgwyl, a fydd yn ychwanegu at y safleoedd a ddyrannwyd yn yr ardal. Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r cynlluniau mwy yn y cymoedd (e.e. Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd a Rheola) yn ddyheadau tymor hwy, nad oes disgwyl eu cyflawni tan ran olaf cyfnod y Cynllun.

**3.1.14** Mae twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dod i gyfrannu'n sylweddol at yr economi leol ac mae wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd, yn arbennig yn

ardaloedd y cymoedd. Dangosydd ystadegau twristiaeth diweddaraf Adroddiad STEAM (2018) fod twristiaeth, yn 2018, wedi cyfrannu £120.14 miliwn i economi Castell-nedd Port Talbot, cynnydd o £28.13 miliwn ers dyddiad gwaelodlin y Cynllun (2011). Mae oedi wedi bod yn achos adroddiad 2019 o ganlyniad i Covid-19, felly nid oes ffigurau mwy diweddar ar gael ar hyn o bryd.

**3.1.15** Mae nifer o gynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel yn parhau i gael eu cymeradwyo, gan gynnwys ffermydd gwynt, solar, gwres a phŵer cyfunedig, ac yn fwyaf diweddar micro-osodiad hydro-drydan. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at y capasiti a osodwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, sydd bellach yn fwy na rhyw 400 MW, sef y capasiti uchaf a osodwyd mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

# 4 Polisïau Trosfwaol

## 4.1 Polisi Strategol 1 Newid yn yr Hinsawdd

### Tabl 4.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 2 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC) | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 3 | Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 4 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 5 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 6 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2 | Nid yw polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. |

**Dangosydd 1: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.**

### Tabl 4.1.2 Polisi Strategol SP1 – Newid yn yr Hinsawdd

| Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 1 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | | | |
| **Amcan** | OB1 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel rhan o Bolisi H1 yn gostwng o dan 35 uned yr hectar, oni bai bod hynny'n cyfateb i'r fframwaith polisi |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |

| |
|---|
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd |

**Dadansoddiad**

**4.1.1** Mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd. Cafwyd cyfanswm o chwe chais ar gyfer datblygiadau preswyl ar safleoedd a ddyrannwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA) yn ystod y cyfnod monitro. Mae pedwar o'r rhain ar gyfer anheddau unigol oddi mewn i ddyraniadau mwy. At ei gilydd, y dwysedd datblygu cyfartalog a gyflawnwyd ar draws yr holl geisiadau hyn yw 23 annedd fesul hectar (dph). Nid yw pedwar o'r ceisiadau unigol yn cyrraedd y targed o ran dwysedd, tra bod dau safle'n rhagori arno.

**4.1.2** Cyflwynir y gofynion dwysedd ym Mholisi BE1 maen prawf 8 (a) a pharagraff 5.5.14 o'r CDLl. Mae hynny'n arwydd y dylai datblygiadau gael eu dylunio, lle bo modd, i wneud yn fawr o'r lle a ddarparwyd, ochr yn ochr â chydweddu â'r ardal o amgylch. Mae'n nodi ymhellach na fydd datblygiad o dan y lefelau dwysedd preswyl penodedig yn cael ei ganiatáu oni bai bod modd dangos bod cyfyngiadau sylweddol mewn perthynas â safle sy'n atal datblygu ar y lefelau penodedig, neu lle byddai datblygiad â'r dwysedd gofynnol yn cael effaith niweidiol ar gymeriad neu olwg yr ardal leol, neu'n golygu bod nodwedd pwysig ar y safle yn cael ei golli.

**4.1.3** Bernir bod modd cyfiawnhau'r datblygiadau nad oeddent yn bodloni'r gofynion dwysedd yn unol â'r polisi trwy'r angen am sicrhau bod yr anheddau newydd arfaethedig yn cyd-fynd â chymeriad y safleoedd a'r ardal o amgylch. Barnwyd felly bod y penderfyniadau'n unol â Pholisi BE1. Fodd bynnag, yn gyffredinol methwyd â chyrraedd targed y polisi, sef cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd yr hectar ar safleoedd a ddyrannwyd, a hynny o gryn dipyn unwaith yn rhagor. O ganlyniad, er na chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn, mae'n amlwg nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion, ac o ganlyniad bydd yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 2: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd**

**Tabl 4.1.3 Polisi Strategol SP1 – Newid yn yr Hinsawdd**

| **Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 2** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC). | | |
| **Amcan** | OB1 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP1 | **Polisïau Cysylltiedig** | BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC). | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd yr hectar ar safleoedd a ddyrannwyd fel rhan o ASC | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiatawyd ar safleoedd fel rhan o Bolisi H1 yn gostwng o dan 30 uned yr hectar, oni bai bod hynny'n cyfateb i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu yn y modd a fwriadwyd | | | | |

### Dadansoddiad

**4.1.4** Fel yn achos Dangosydd 1, mae targed a phwyntiau sbarduno'r dangosydd hwn yn ymwneud â datblygiadau ar safleoedd a ddyrannwyd, yn yr achos hwn yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC).

**4.1.5** Cafwyd dau gais ar safleoedd a ddyrannwyd yn ASC, un yn Rhyd y Fro, Pontardawe, (ar gyfer 35 annedd) a'r llall yn y Neuadd Les, Glyn-nedd (10 annedd). O'u cyfuno, mae gan y datblygiadau hyn ddwysedd cyfartalog o ryw 18 dph, nad yw'n cyrraedd y targed o 30 dph ar gyfer datblygiadau yn ASC.

**4.1.6** Fel y nodwyd uchod, mae Polisi BE1 maen prawf 8 (a) a pharagraff 5.5.14 o'r CDLl yn dangos y dylid dylunio datblygiadau, lle bo modd, i wneud yn fawr o'r lle sydd ar gael, ochr yn ochr â chydweddu â'r ardal o amgylch. Yn y ddau achos yma, barnwyd na fyddai datblygiad dwysedd uwch yn cydweddu â chymeriad neu olwg yr ardal leol. Ar ben hynny, yn achos cynllun Pontardawe nid oedd datblygiad dwysedd uwch yn cyd-fynd â chysyniad ac athroniaeth carbon sero'r cynllun, ac yn achos Glyn-nedd, golygai problemau llifogydd sylweddol nad oedd rhannau o'r safle'n addas i'w datblygu. Bernir felly nad yw'r achosion hyn yn cyfrif fel ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**4.1.7** Fodd bynnag, fel yn achos Dangosydd 1, methwyd â chyrraedd targed polisi ASC (cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd) o gryn dipyn, ac nid yw'r amcanion yn cael eu cyflawni. O ganlyniad, bydd y polisi'n cael ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl.

**Dangosydd 3: Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl.**

### Tabl 4.1.4 Polisi Strategol SP1 – Newid yn yr Hinsawdd

| **Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 3** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl. | | |
| **Amcan** | OB1 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP1 | **Polisïau Cysylltiedig** | SP16; BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swm y tir maes glas a gollwyd nad oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLl. | Dim tir glas yn cael ei golli yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Colli tir glas yn groes i'r fframwaith Polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

**4.1.8** Diffinnir safleoedd tir glas fel safleoedd nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a geir yn PCC[5]. Mae Polisi BE1[8(c)] yn datgan y caniateir cynigion dim ond lle maent yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys tir ac ynni, mor effeithlon â phosibl, trwy ddatblygu tir llwyd yn hytrach na thir glas lle bo modd.

**4.1.9** Cymeradwywyd cyfanswm o 13 o geisiadau ar gyfer datblygiadau ar safleoedd glas heb eu dyrannu ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn cyd-fynd â'r fframwaith polisi, byddai'n rhaid dangos nad oedd modd cyflawni'r datblygiadau ar unrhyw safle tir llwyd amgen.

**4.1.10** Mae wyth o'r ceisiadau ar gyfer anheddau sengl ar leiniau unigol neu ar safleoedd datblygu bychain a gymeradwywyd yn flaenorol, lle na fyddai opsiwn tir llwyd amgen wedi bod ar gael. Roedd tri ar gyfer safleoedd preswyl bychain (llai na 10 uned) oddi mewn i derfynau anheddiad lle nad oedd tir llwyd amgen ar gael.

**4.1.11** Roedd y ddau gynnig arall ar gyfer datblygiadau lle roedd angen safleoedd ar wahân i ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol (fferm wynt a gwersyllfa fechan).

**4.1.12** Bernir nad oedd tir llwyd amgen ar gael yn ymarferol mewn lleoliad addas ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau a gynigiwyd, ac felly nad oes dim o'r cynigion yn groes i'r maen prawf hwn ym Mholisi BE1.

**4.1.13** O ganlyniad, bernir bod gofynion y dangosydd hwn wedi cael eu cyflawni.

**Dangosydd 4: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.**



### Tabl 4.1.5 Polisi Strategol SP1 – Newid yn yr Hinsawdd

| **Polisi Strategol SP1 Dangosydd 4** | |
|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd |

5 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (2018) Pennod 3.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan** | OB2, OB21, OB22 | | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP20; TR4 | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** | |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd. | Ni chaniateir ceisiadau ar safleoedd ar gyfer cludo nwyddau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. | |
| | | **AMB 2017** | | | |
| | | **AMB 2018** | | | |
| | | **AMB 2019** | | | |
| **Gweithredu** | | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | | |

## Dadansoddiad

**4.1.14** Ni chafwyd ceisiadau oddi mewn i leoliad cyfleuster nwyddau a ddiogelwyd sy'n cael ei gwmpasu gan Bolisi TR4 (Diogelu Cyfleusterau Nwyddau) yn ystod y cyfnod monitro. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

## Dangosydd 5: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.

### Tabl 4.1.6 Polisi Strategol SP1 – Newid yn yr Hinsawdd

| **Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1. | | | |
| **Amcan** | OB1 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1. | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus nad yw'n bodloni holl ofynion TAN 15. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

**4.1.15** Cymeradwywyd cyfanswm o 14 o geisiadau oddi mewn i'r cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau yn llwyr neu'n rhannol oddi mewn i Barth C1 DAM. Roedd mwyafrif y rhain ar gyfer newid defnydd safleoedd presennol, gydag un yn unig ar gyfer adeilad newydd (at ddibenion storio).

Mewn perthynas â Dangosydd 5, mae'r targed a'r pwyntiau sbarduno yn ymwneud â datblygiadau *hynod fregus* (yn unol â'r diffiniad yn TAN15) oeddi mewn i C1, nad ydynt yn bodloni'r profion a nodir yn y TAN.

**4.1.16** Roedd dau o'r ceisiadau yn ymwneud â mathau *hynod fregus* o ddatblygiad. Roedd y ddau ar gyfer newid defnydd o annedd sengl i Dai Amlbreswyliaeth (HMOs). Fodd bynnag, yn y ddau achos barnwyd bod y cynigion yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn TAN 15 (Datblygu a Risg Llifogydd).

**4.1.17** O ganlyniad, bernir nad oes ceisiadau sbarduno yn achos y dangosydd hwn.

**Dangosydd 6: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2.**

**Tabl 4.1.7 Polisi Strategol SP1 – Newid yn yr Hinsawdd**

| Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 6 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewni ardaloedd gorlifdir C2. | | | |
| **Amcan** | OB1 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP1 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2. | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau hynod fregus mewn ardaloedd gorlifdir C2. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

**4.1.18** Cymeradwywyd 12 cais o fewn y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau oedd yn llwyr neu'n rhannol o fewn Parth C2 DAM. Byddai pedwar o'r rhain yn bodloni'r diffiniad o ddatblygiad *hynod fregus* sy'n berthnasol i ddangosydd 6.

**4.1.19** O'r rhain, roedd dau ar gyfer anheddau newydd (llain sengl a datblygiad o 10 llain). Fodd bynnag, yn y ddau achos, er bod safleoedd y ceisiadau'n rhannol oddi mewn i Barth C2, nid oedd yr anheddau eu hunain yn y parth llifogydd: cadwyd yr ardaloedd lle mae perygl llifogydd ar gyfer gerddi neu dir agored arall.

**4.1.20** Roedd y ddau gynnig arall fel ei gilydd yn ddatblygiadau ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe, lle mae egwyddor datblygu wedi cael ei dderbyn yn flaenorol mewn ymgynghoriad llawn â CNC. Er gwaethaf hynny, mae'r ddau gais yma yn enghreifftiau o ddatblygiadau hynod fregus a gymeradwywyd oddi mewn i ardaloedd parth llifogydd C2, ac felly maent yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**4.1.21** Ceir polisi cynllunio mewn perthynas â llifogydd yn TAN 15 yn hytrach na bod yn rhan o bolisi'r CDLl. Yng nghyswllt y dangosydd hwn, y polisi CDLl perthnasol yw SP1 (Newid yn yr Hinsawdd) a'r goblygiad yw nad yw SP1 yn cael ei weithredu'n llawn o ran cymryd canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd i ystyriaeth yn llawn. Fodd bynnag, gan fod y ddau ddatblygiad yn rhan o Gampws y Bae, safle sefydledig, ac yn angenrheidiol fel rhan o'r defnydd presennol, yn hytrach na bod yn gynigion newydd annibynnol, bernir nad oes angen gweithredu pellach yng nghyswllt y dangosydd hwn.

## 4.2 Polisi Strategol 2 Iechyd

### Tabl 4.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 8 | Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 9 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Dylunio | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 7: Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.**

### Tabl 4.2.2 Polisi Strategol SP2 - Iechyd

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 2 Dangosydd 7</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB2</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP2</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SP10, OS2, SC2</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol</td><td rowspan="4">Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Colli un cyfleuster yn groes i'r fframwaith polisi</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen camau pellach. Monitro i barhau</td></tr>
</table>

### Dadansoddiad

***Cyfleusterau Cymunedol***

**4.2.1** Yn ystod y cyfnod monitro cymeradwywyd nifer o geisiadau a fyddai'n golygu bod safleoedd a defnyddiau a allai gael eu hystyried yn gyfleusterau cymunedol yn cael eu 'colli'. Barnwyd nad oedd rhai o'r rhain yn gyfleusterau cymunedol *pwysig* o ran eu defnydd a/neu eu cyd-destun ac felly nid oeddent yn cael eu cwmpasu gan bolisi SC2,

tra barnwyd bod eraill yn cyd-fynd â thelerau'r polisi. Ni phenderfynwyd ar unrhyw geisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.

***Mannau Agored***

**4.2.2** Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd 3 chais sydd wedi effeithio ar fannau agored presennol (h.y. darnau o dir a nodwyd yn 'Asesiad Mannau Agored' y Cyngor).

**4.2.3** Roedd dau gais (2018/824 a 2019/5128) yn ymwneud â dau ddarn o dir yn ward de Bryncoch, lle rhoddwyd caniatâd ar gyfer tai fforddiadwy. Cafodd gofynion y Polisi sylw yn adroddiad y Swyddog a sicrhawyd gwelliannau i'r tirlun a chyfraniadau A106 ar gyfer man agored oddi ar y safle.

**4.2.4** Roedd un cais (2019/5314) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer newid defnydd ac amgáu darn bach o dir oddi mewn i Barc Sgiwen i ffurfio rhan o'r tir sy'n gysylltiedig â chwt y sgowtiaid. Er bod hynny'n golygu mynd â rhan fechan o'r parc allan o ddefnydd y cyhoedd, ni farnwyd ei fod yn groes i'r fframwaith polisi cyffredinol.

**Tabl 4.2.3 Polisi Strategol SP2 - Iechyd**

**Dangosydd 8: Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.**

| Polisi Strategol SP 2 Dangosydd 8 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio. | | | |
| **Amcan** | OB2; OB23; OB24 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP2 | **Polisïau Cysylltiedig** | | BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio. | Ni chaniateir cais yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**4.2.5** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â Pholisi SP2 ac felly'n gysylltiedig â materion iechyd a salwch a'r angen am gadw cyfleusterau ac amwynderau. Cyfeirir hefyd at Amcanion 23 a 24 y CDLl, sy'n ymwneud â'r angen am ddiogelu, cadw a gwella treftadaeth hanesyddol, amgylchedd adeiledig a hunaniaeth y Fwrdeistref Sirol, a'r prif lwybrau sy'n byrth i mewn i Gastell-nedd Port Talbot.

**4.2.6** Mae'r dangosydd yn ymwneud â nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio, tra bod y targed a'r pwynt sbarduno yn cyfeirio at roi caniatâd yn groes i fframwaith y polisi dylunio. Yn ystod y cyfnod monitro gwrthodwyd cyfanswm o dri chais arwyddocaol (heb gynnwys cynigion graddfa fach a chan berchnogion tai) am resymau oedd yn cynnwys sail ddylunio. Bernir na chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn groes i'r fframwaith polisi dylunio. ynO ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

**Dangosydd 9: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Dylunio.**

**4.2.7** Cwblhawyd y CCA Dylunio a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

## 4.3 Polisi Strategol 3 Cymunedau Cynaliadwy

### Tabl 4.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 10 | Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 11 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 10: Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi.**

### Tabl 4.3.2 Polisi Strategol SP3 – Cymunedau Cynaliadwy

| Polisi Strategol SP 3 Dangosydd 10 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi. | | | |
| **Amcan** | OB2, OB3, OB4 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP3 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; SC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt sbarduno** |
| Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi. | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**4.3.1** Allan o gyfanswm o 8 cais ynghylch datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden yn y cyfnod monitro, roedd tri yn ymwneud â datblygiadau mawr (dros 1,000m$^2$). Roedd un yn ymwneud â swyddfeydd ategol presennol yn cael eu defnyddio'n swyddfa ar wahân ar safle Crown Packaging gynt, oddi mewn i'r adeiladau presennol. Mae'r safle hwn yn rhan o ardal gyflogaeth bresennol Heol Milland (EC2/5) ac felly mae'r cynnig yn unol â'r fframwaith polisi. Mae'r ail yn ymwneud â gwaith ailadeiladu ar Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot, a fydd yn creu 1600m$^2$ o estyniad i'r defnyddiau hamdden a manwerthu cymysg presennol, tra bod y trydydd ar gyfer ardal chwaraeon defnydd cymysg (MUGA) ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe, Twyni Crymlyn.

4.3.2 Penderfynwyd ar y tri chais yn unol â fframwaith y polisi cynllunio, ac o ganlyniad nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 11: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.**

**Tabl 4.3.3 Polisi Strategol SP3 – Cymunedau Cynaliadwy**

| **Polisi Strategol SP 3 Dangosydd 11** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau. | | | |
| **Amcan** | OB2, OB3, OB4 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP3 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; SC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau. | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

4.3.3 Penderfynwyd ar gyfanswm o 15 cais ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro. O'r rhain, cymeradwywyd 12, gan gynnwys un Penderfyniad Apêl gan Arolygydd y Llywodraeth. Barnwyd bod pob achos a gymeradwywyd yn unol â Pholisi SC1.

4.3.4 O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

## 4.4 Polisi Strategol 4 Seilwaith

### Tabl 4.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 12 | Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 13 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 12: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr.**

### Tabl 4.4.2 Polisi Strategol SP4 - Seilwaith

| Polisi Strategol SP4 Dangosydd 12 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | | | |
| Amcan | OB3, OB4, OB7, OB9, OB22, OB25 | | | |
| Polisïau Allweddol | SP4 | Polisïau Cysylltiedig | | I1 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd datblygiadau newydd yn rhoi sylw i'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol | Mabwysiadu | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

### Dadansoddiad

4.4.1 Cymeradwywyd nifer o geisiadau cynllunio yn ystod y cyfnod monitro yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol Adran 106 (A106) i sicrhau seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr. Mae'r tabl a'r sylwadau isod yn rhoi manylion cryno am y cytundebau A106 perthnasol a lefel y cyfraniadau a sicrhawyd gan ddatblygwyr.

**Tabl 4.4.3**

| Cyf y Cais | Lleoliad y Safle | Cyf y Safle | Mannau agored | Priffyrdd | Yr Iaith Gymraeg | Addysg | Bioamrywiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P2018/0824 | Llys Wern Bryncoch | amh | £7,732 | | | | |
| P2019/5128 | Llys Wern Bryncoch | amh | £9,665 **(1)** | | | | |
| P2018/0724 | Stryd y Castell, Sgiwen | amh | £6,810 | | | | |
| P2019/5495 | Heol Windsor, Castell-nedd | amh | £15,330 | | | | |
| P2019/0021 | Y Porth Treftadaeth | H1/LB /5 | £150,920 | | | | |
| P2011/0486 | Neuadd Les Glyn-nedd | H1/LB /28 | £22,170 | | | | |
| P2013/0326 | Y tu ôl i Main Rd Bryncoch | amh | £16,000 **(2)** | | | | |
| P2019/0302 | Heol Castell-nedd, Resolfen | amh | £11,085 | | | | |
| P2018/0301 | Ysgol Clyne, Clun | amh | £1,248 | | | | |
| P2019/5543 | Waun Sterw | H1/27 | | | | | £63,395 |
| **Cyfansymiau** | | | **£233,228** | | | | **£63,395** |

1. Ailgynlluniwyd yr uchod i gynnwys 1 annedd ychwanegol. Mae'r cyfraniad yn cynnwys cyfraniad ar gyfer 2018/0824
2. Plws cyfraniad ychwanegol o £250,000 ar gyfer Tai Fforddiadwy

**4.4.2** Yn ystod y cyfnod monitro, sicrhawyd cyfanswm o £233,228 o gyfraniadau ariannol (heb gynnwys P2018/824 i osgoi cyfrifo dwbl) yn benodol ar gyfer mannau agored. Er gwaethaf y cyfraniad cadarnhaol hwn, ni chyflawnwyd y gofynion polisi ar gyfer mannau agored ym mhob achos, gan mai 2 gais yn unig a gymeradwywyd yn ystod yr un cyfnod heb fod angen darparu gofynion mannau agored (neu swm wedi'i gymudo ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle), er bod y cynigion yn cyrraedd y trothwy a nodwyd ym Mholisi OS1. Yn y ddau achos, dichonoldeb oedd y cyfiawnhad (ceir manylion pellach yn y dadansoddiad ar gyfer dangosydd 46).

**4.4.3** Ar ben hyn sicrhawyd gofynion A106 gwerth £63,395 ar gyfer lliniaru ecolegol ar ddatblygiad yn Waun Sterw, Pontardawe.

**4.4.4** O ran cyfraniadau tai fforddiadwy, sbardunwyd y gofyniad canlynol gan Bolisi AH1 (ac felly Polisi I1):

- P2013/0326 tu ôl i Main Rd Bryncoch, oedd yn cynnwys cyfraniad o £250,000 ar gyfer Tai Fforddiadwy.

**4.4.5** Barnwyd nad oedd dau gais, oedd fel ei gilydd yn trosi safleoedd yng Nghanol Tref Castell-nedd yn rhai defnydd masnachol a phreswyl cymysg, yn ddichonadwy i wneud cyfraniad:

- P2019/5607 – Newid defnydd tafarn gynt (Dosbarth A3) i greu 3 uned fanwerthu (Dosbarth A1) ar y llawr gwaelod a 6 fflat 1 ystafell wely ar y lloriau uwch ac addasiadau allanol yn 30 Stryd y Berllan, Castell-nedd; a
- P2019/5235 – Newid defnydd y llawr gwaelod i greu 1 uned fanwerthu ac 1 uned swyddfa, gan ddarparu 4 fflat ar y llawr cyntaf a'r ail a dychmwel adeiladau allanol yn 30 Stryd Fawr, Castell-nedd.

**4.4.6** Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau yn amodol ar gytundeb A106 oedd yn ymwneud â chyflwyno astudiaeth ddichonoldeb flynyddol.

**4.4.7** At hynny, roedd y ceisiadau canlynol yn ymwneud â chynlluniau tai fforddiadwy 100%:

- P2018/0824 Llys Wern, Bryncoch (4 uned);
- P2019/5128 Llys Wern Bryncoch (uned ychwanegol ar gyfer P2018/0824); a
- P2019/5495 9 Heol Windsor, Castell-nedd (10 uned).

**4.4.8** Cymeradwywyd un cais ym Mhontardawe (P2019/5543 Waun Sterw) ar gyfer math arloesol o dai ar rent. Nid oedd modd darparu cyfraniad tai fforddiadwy ar sail y diffiniad presennol oherwydd materion dichonolrwydd. Fodd bynnag, i gefnogi'r cais, nododd yr ymgeisydd y bydd "Darparu Dull Fforddiadwy o Fyw ym Mharc Hadau mewn gwirionedd yn cynnig gwerth cyfartal neu well na rhent fforddiadwy cymdeithasol traddodiadol, unwaith mae cost biliau ynni a thrafnidiaeth wedi'u cynnwys, o gymryd bod ein trigolion yn manteisio ar y cynnig prydlesu Cerbyd Trydan yn hytrach na char". Seiliwyd y datblygiad arfaethedig hwn ar fodel fforddiadwy sy'n cynnwys y gost gyfan i'r preswylydd, gan gynnwys defnydd o ynni, ac mae'n darparu datblygiad Carbon Sero sydd yn eu barn nhw yn darparu math gwirioneddol fforddiadwy a chynaliadwy o ddatblygiad.

**4.4.9** O ran categorïau seilwaith eraill, mae effaith datblygiad newydd ar gymunedau wedi derbyn sylw yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Lle barnwyd bod gweithredu felly yn briodol, mae cytundebau A106 bellach yn eu lle i ymdrin â'r effeithiau penodol yng nghyswllt y datblygiadau arfaethedig, a hefyd i sicrhau bod anghenion defnyddwyr terfynol yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

**4.4.10** Er bod y polisi, at ei gilydd, yn cael ei weithredu'n gyson, bu nifer cyfyngedig o achosion lle na roddwyd sylw llawn i ofynion y polisi. Mae dichonoldeb yn aml yn cael ei nodi fel rheswm pam na fu darpariaeth Tai Fforddiadwy neu gyfraniadau A106 yn bosibl, ac er bod hynny'n drueni, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall amgylchiadau godi lle nad oes modd cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodwyd heb beryglu dichonoldeb cyffredinol cynllun datblygu penodol.

**4.4.11** Fodd bynnag, mae'r achosion hynny lle na fodlonwyd gofynion y polisi yn geisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. O ganlyniad, bydd y polisi a dichonoldeb y datblygu, yn arbennig yng nghyswllt tai fforddiadwy, yn cael eu hailasesu fel rhan o adolygiad y CDLl.

**Dangosydd 13: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol ynghylch Rhwymedigaethau Cynllunio.**

**4.4.12** Cwblhawyd y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

# 5 Polisïau a Seiliwyd ar Ardaloedd

## 5.1 Polisi Strategol 5 Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

### Tabl 5.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 14 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 15 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 16 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 17 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 18 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 19 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 20 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi'n destun proses adolygu |
| 21 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 22 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Cwblhawyd yn 2014 | Dim angen camau pellach |
| 23 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol ynghylch Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot | Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben yr hyn a nodwyd yn y Cynllun | Gallai fod angen Canllaw Cynllunio Atodol |
| 24 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 25 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 26 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

| Ref | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 27 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. |
| 28 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 29 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 30 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

## Dangosydd 14: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir.

### Tabl 5.1.2 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 14 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP7, H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu **5,690** o unedau tai newydd yn ardal strategaeth coridor yr arfordir yn ystod cyfnod y Cynllun.<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12 - 152<br>2012/13 - 134<br>2013/14 - 216<br>2014/15 - 268<br>2015/16 - 318<br>2016/17 - 379<br>2017/18 - 495 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 - 533<br>2019/20 - 518<br>2020/21 - 513<br>2021/22 - 502<br>2022/23 - 468<br>2023/24 - 412<br>2024/25 - 387<br>2025/26 - 375 | | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

5.1.1 Mae'r tabl canlynol yn darlunio'r tai a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir yn erbyn targedau blynyddol y fframwaith monitro:

**Tabl 5.1.3 Cyflwyno Tai yng Nghoridor yr Arfordir**

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a gwblhawyd | Cyflawni yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 152 | **152** | 152 | 152 | **0** |
| 2012/13 | 134 | **134** | 286 (+134) | 286 | **0** |
| 2013/14 | 216 | **217** | 502 (+216) | 503 | **+1** |
| 2014/15 | 268 | **235** | 770 (+268) | 738 | **-32** |
| 2015/16 | 318 | **130** | 1088 (+318) | 868 | **-220** |
| 2016/17 | 379 | **113** | 1467 (+379) | 981 | **-486** |
| 2017/18 | 495 | **78** | 1846 (+495) | 1059 | **-787** |
| 2018/19 | 533 | **130** | 2,495 (+533) | 1,189 | **-1,306** |
| 2019/20 | 518 | **97** | 3,013 (+518) | 1,286 | **-1,727** |

5.1.2 Oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, mae lefel cyflwyno'r tai ar safleoedd a ddyrannwyd yn dal ar ei hôl hi o gymharu â'r targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2019/20, cofnodwyd cyfanswm o 97 o dai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd ar hyd Coridor yr Arfordir. Mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na tharged y flwyddyn, sef 518 o anheddau.

**5.1.3** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd ar hyd Coridor yr Arfordir yw 1,286 o anheddau. O gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 3,013, mae hyn yn dangos bod lefel y tai a gwblhawyd bellach 1,727 o dan y targed, ac mai 42.7% yn unig o'r targed cronnol blynyddol a gyflwynwyd hyd yma.

**5.1.4** Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLl i fodloni'r gofyn a nodwyd o ran tai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw'r safleoedd a ddyrannwyd ar hyd Coridor yr Arfordir yn cael eu cyflwyno ac yn mynd rhagddynt fel y rhagwelwyd. Yn arbennig, bu cynnydd yn gyfyngedig yng nghyswllt y ddwy 'Ardal Adfywio Strategol' a ddyrannwyd, sef Coed Darcy, Castell-nedd (gweler Dangosydd 15) a Glannau'r Harbwr, Port Talbot (gweler Dangosydd 19).

**5.1.5** Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn ddiweddar ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd, gyda rhai safleoedd yn cael caniatâd cynllunio, neu'n cyflwyno ceisiadau am gyngor manwl cyn ymgeisio. Mae disgwyl, felly, y gallai'r gyfradd gyflawni gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt i hynny.

**5.1.6** Fodd bynnag, gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi, a bod y polisi'n amlwg ddim yn cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o adolygiad y CDLl.

**Dangosydd 15: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.**

### Tabl 5.1.4 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| **Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 15** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SRA 1, SP7, H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. | Darparu ar gyfer datblygu **2,400** o unedau tai newydd erbyn 2026.<br><br>Targedau Blynyddol:<br><br>2011/12 - 0<br><br>2012/13 - 3<br><br>2013/14 - 72<br><br>2014/15 - 100<br><br>2015/16 - 125 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Coed Darcy yn syrthio'n is na'r gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 - 140<br>2017/18 - 170<br>2018/19 – 190<br>2019/20 – 215<br>2020/21 – 215<br>2021/22 – 215<br>2022/23 – 225<br>2023/24 – 235<br>2024/25 – 245<br>2025/26 – 250 | | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi yn destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.1.7** Mae'r tabl canlynol yn dangos y tai a gyflwynwyd yng Nghoed Darcy yn erbyn y targedau blynyddol sy'n rhan o'r fframwaith monitro:

### Tabl 5.1.5 Cyflwyno Tai yng Nghoed Darcy

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| 2012/13 | 3 | **3** | 3 | 3 | **0** |
| 2013/14 | 72 | **72** | 75 (+72) | 75 | **0** |
| 2014/15 | 100 | **76** | 175 (+100) | 151 | **-24** |
| 2015/16 | 125 | **62** | 300 (+125) | 213 | **-87** |
| 2016/17 | 140 | **53** | 440 (+140) | 266 | **-214** |
| 2017/18 | 170 | **23** | 610 (+170) | 289 | **-321** |
| 2018/19 | 190 | **2** | 800 (+190) | 291 | **-509** |
| 2019/20 | 215 | **0** | 1,015 | 291 | **-724** |

**5.1.8** Mae cyflwyno tai yng Nghoed Darcy yn dal i syrthio tu ôl i'r targedau a geir yn y fframwaith monitro, heb i unrhyw unedau preswyl gael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod monitro presennol.

**5.1.9** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yng Nghoed Darcy yw 291 o anheddau. O gymharu hyn â'r targed cronnol blynyddol o 1,015 o unedau, mae lefel y tai a gwblhawyd bellach 724 o unedau o dan y targed, a 28.7% yn unig o'r targed cronnol blynyddol a gyflwynwyd hyd yma.

**5.1.10** Er gwaethaf y sefyllfa hon, dylid cydnabod bod y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) wedi parhau i gydweithio i gyd-drafod y Cytundeb Cyfreithiol A106 o'r newydd, er mwyn cael hyd i ddatrysiad a fydd yn caniatáu datblygu preswyl pellach ar ran ogleddol y safle, lle mae cyfnod cyntaf y datblygiad preswyl wedi cychwyn, ac yn caniatáu cychwyn ail haen o ddatblygu yn yr ardal ddeheuol. Mae'r A106 wedi bod yn destun cyd-drafod o'r newydd yn ddiweddar, ac mae disgwyl y gallai cyfradd y cyflawni ar y safle gynyddu yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt i hynny.

**5.1.11** Fodd bynnag, gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi, a bod y polisi'n amlwg ddim yn cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 16: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.**

### Tabl 5.1.6 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 16</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB5</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP5</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SRA 1, SP11, EC1/3</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.</td><td rowspan="4">Bydd isafswm o 4ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun at ddibenion cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33ha y flwyddyn yn cael ei ddatblygu yn ystod gweddill Cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 0.66ha i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Mae swm y tir a ddatblygwyd ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn AAS Coed Darcy yn gostwng yn is na'r gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Yn dilyn cadarnhad, bydd y Polisi yn destun proses adolygu.</td></tr>
</table>

### Dadansoddiad

**5.1.12** Hyd yma, ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu ni ddatblygwyd tir ychwanegol yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy at ddibenion cyflogaeth. Mae cysylltiad agos rhwng darparu tir cyflogaeth yng Nghoed Darcy a chyflwyno tai, ac mae'r gyfradd is na'r disgwyl wrth ddarparu tai a seilwaith wedi golygu bod oedi yn elfen gyflogaeth y cynllun adfywio defnydd cymysg.

**5.1.13** Er gwaethaf y disgwyl y gallai cyfradd y datblygu ar y safle gynyddu yn ystod y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt, gan ein bod wedi cyrraedd pwyntiau sbarduno'r polisi, a bod y polisi'n amlwg ddim yn cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 17: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.**

### Tabl 5.1.7 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 17 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. | | | |
| **Amcan** | OB21, OB22 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SRA1; SP20; TR1/2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. | Cyflwyno Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn cael ei chyflwyno'n unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

### Dadansoddiad

**5.1.14** O ran Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy (SAR), mae trafodaethau terfynol ar waith rhwng y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 yng nghyswllt cefnogi datblygu preswyl pellach ar ran ogleddol y safle, lle mae cyfnod cychwynnol y datblygu preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu cychwyn ail haen o ddatblygu yn yr ardal ddeheuol.

**5.1.15** Roedd yr A106 cychwynnol yn gofyn bod y Ffordd Fynediad Ddeheuol (SAR) yn cae ei chyflwyno cyn i fwy na 300 o gartrefi gael eu meddiannu, a diben y diwygio yw caniatáu i'r ffigur hwnnw godi, ac addasu amseriad yr SAR a'r ddolen gyswllt strategol â'r briffordd. Bydd diwygio fel hyn yn golygu bod modd datblygu dwy ran o Goed Darcy, ac felly gynyddu nifer yr unedau preswyl sy'n cael eu cyflwyno i'w meddiannu.

**5.1.16** Yn y man, cytunir ar bwynt sbarduno diwygiedig ar gyfer cyflawni'r SAR a'i gynnwys er mwyn sicrhau bod cwblhau'r SAR yn ofynnol cyn dyddiad neu lefel feddiannaeth penodedig (p'un bynnag ddaw gyntaf), yn ogystal â chysylltu hynny ag agor yr ysgol gynradd. Er nad ydym wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r dangosydd hwn eto, o ystyried y diffyg cynnydd hyd yma, bydd cyflwyno'r SAR (Polisi TR1/2) yn cael ei ailasesu o ganlyniad, fel rhan o adolygu'r CDLl.

**Dangosydd 18: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy.**

### Tabl 5.1.8 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 18 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. | | | |
| **Amcan** | OB2, OB21, OB22 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SRA1; SP20;TR1/4 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy. | Cyflwyno'r gwelliannau i G43 (M4) fesul cam, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A106. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw C43 (M4) yn cael ei gyflwyno'n unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Bydd y Polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

### Dadansoddiad

**5.1.17** Yng nghyswllt cyflwyno'r SAR (gweler Dangosydd 17 uchod), mae'r Cytundeb A106 presennol yn cael ei ailasesu i weld a yw cyfres o welliannau pellach i Gyffordd 43 o'r M4 yn dal yn ofynnol, a hefyd adeiladu ffordd ychwanegol yn cysylltu'r cynllun â'r rhwydwaith ffyrdd, neu'r Ffordd Fynediad Ogleddol fel y'i gelwir (NAR). Mae gwaith ar gamau cychwynnol y gwaith gwella eisoes wedi'i gwblhau.

**5.1.18** Fel rhan o'r trafodaethau sy'n parhau, mae'r Cyngor ac SMDL hefyd wedi cytuno mewn egwyddor i ymgorffori amserlenni diwygiedig ar gyfer camau'r gwaith ar Gyffordd 43. Yn syml, bydd y newidiadau yn addasu cyfnodau cyflwyno'r gwaith fel bod mwy o gyfle o bosibl i gyfeirio traffig ychwanegol o'r safle i G43 yn gynharach, fel bod modd adeiladu nifer uwch o

anheddau preswyl cyn adeiladu'r ddolen gyswllt strategol â'r briffordd, fydd yn cysylltu Coed Darcy â'r A483 (Ffordd Fabian), ar hyd yr SAR (gweler uchod) - h.y. bydd cyfran uwch o'r traffig yn cael ei gyfeirio i mewn ac allan o'r safle trwy fynedfa'r gogledd yn y tymor byrrach, a bydd amseru'r gwaith gwella i'r briffordd yn cael ei addasu yn unol â hynny.

**5.1.19** Yn y man, bydd trefniadau cyflwyno graddol diwygiedig ar gyfer gwelliannau Cyffordd 43 yn cael eu cytuno a'u cynnwys. Er na chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn eto, yn sgîl y diffyg cynnydd hyd yma, bydd cyflawni unrhyw welliannau pellach i G43 (Polisi TR1/4) yn cael ei ailasesu gan TIA pellach o ganlyniad, ac fel rhan o adolygiad y CDLl.

**Dangosydd 19: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

**Tabl 5.1.9 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir**

| **Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 19** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SRA2 SP7, H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. | Darparu **385** o unedau tai newydd erbyn 2026.<br><br>Targedau Blynyddol:<br><br>2011/12 - 0<br><br>2012/13 - 0<br><br>2013/14 - 0<br><br>2014/15 - 0<br><br>2015/16 - 35<br><br>2016/17 - 0<br><br>2017/18 - 10<br><br>2018/19 - 30<br><br>2019/20 - 30<br><br>2020/21 - 50<br><br>2021/22 - 50 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn AAS Glannau'r Harbwr yn is na'r gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | (gwyrdd) | |
| | | **AMB 2018** | (gwyrdd) | |
| | | **AMB 2019** | (oren) | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 - 50<br>2023/24 - 50<br>2024/25 - 50<br>2025/26 – 30 | | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad bydd y Polisi yn destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.1.20** Mae cyflwyno tai yng Nglannau'r Harbwr bellach wedi syrthio tu ôl i'r targedau yn y fframwaith monitro ers mwy na 2 flynedd yn olynol. Er mai ailddatblygu 'Green Park' oedd yr elfen breswyl gyntaf o'r Ardal Adfywio Strategol, a gwblhawyd yn 2016/17 gyda 34 o unedau preswyl yn cael eu darparu, yn ystod blwyddyn fonitro 2019/20, ni chofnodwyd bod tai wedi'u cwblhau.

**5.1.21** Ers gwaelodlin y CDLl (2011), felly, cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yng Nglannau'r Harbwr yw 34 o anheddau. O gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 105, 32.4% yn unig o'r targed cronnol blynyddol a gyflwynwyd hyd yma.

**5.1.22** Er bod disgwyl y gallai cyfradd y datblygu yng Nglannau'r Harbwr gynyddu yn ystod y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt i hynny, gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi ac nad yw'r polisi yn cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 20: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

### Tabl 5.1.10 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 20 | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. | | |
| **Amcan** | OB5 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | SRA2, SP11, EC1/4 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. | Bydd isafswm o **7 hectar** o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y cynllun at ddefnyddiau cyflogaeth gydag isafswm o 0.46ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o **0.92 hectar** i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Glannau'r Harbwr yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y Polisi yn destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.1.23** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, datblygwyd cyfanswm o 1.8 hectar (ha) o dir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr.

### Tabl 5.1.11 Datblygiadau Cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr

| Blwyddyn | Tir Cyflogaeth a Ddatblygwyd | Targed Cronnol | Datblygu Cronnol | Datblygu yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|
| 2011/2012 | **1.72ha** | 1.7ha | 1.7ha | **0** |
| 2012/2013 | **0** | 2.16ha (+0.46ha) | 1.7ha | **-0.46ha** |
| 2013/2014 | **0** | 2.62ha (+0.46ha) | 1.7ha | **-0.92ha** |
| 2014/2015 | **0** | 3.08ha (+0.46ha) | 1.7ha | **-1.38ha** |
| 2015/2016 | **0.098ha** | 3.54ha (+0.46ha) | 1.8ha | **-1.74ha** |
| 2016/2017 | **0** | 4ha (+0.46ha) | 1.8ha | **-2.2ha** |
| 2017/2018 | **0** | 4.46ha (+0.46ha) | 1.8ha | **-2.66ha** |
| 2018/2019 | **0** | 4.92ha (+0.46ha) | 1.8ha | **-3.12ha** |
| 2019/2020 | **0** | 5.38 | 1.8ha | **-3.58ha** |

**5.1.24** Targed y polisi yw datblygu isafswm o 0.46ha y flwyddyn dros gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 0.92ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o ddwy flynedd. Oddi mewn i'r cyfnod monitro cyfredol, ni fu datblygiadau yng Nglannau'r Harbwr.

**5.1.25** Bellach ni ddatblygwyd tir at ddefnyddiau cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr ers pedair blynedd yn olynol. Roedd caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 7,303msg o arwynebedd llawr cyflogaeth ar 2.1ha o dir ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, ond nid yw'r enghreifftiau hynny o ganiatâd wedi cael eu gweithredu eto.

**5.1.26** Penodwyd ymgynghorwyr i baratoi adroddiad a chynllun strategol ar gyfer ardal Glannau'r Harbwr. Yn ôl yr adroddiad drafft: *'Heb ymyrraeth gan y cyhoedd mae disgwyl i'r datblygu ar draws PTWEZ gymryd amser hir, ac mae'n annhebygol o*

*ddarparu'r ystod a'r ansawdd o gyfleoedd eiddo i ddenu buddsoddiad a thwf busnes.'* Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud *'Mae tystiolaeth glir o fethiant yn y farchnad leol, gyda bwlch dichonoldeb sylweddol o ystyried bod angen dadhalogi tir wedi'r gorffennol diwydiannol a chostau datblygu annormal oherwydd cyflwr y tir yn lleol'.*

**5.1.27** Mae risg posibl llifogydd hefyd wedi bod yn broblem yn ardal Glannau'r Harbwr, er nad yw wedi effeithio ar yr holl safleoedd datblygu. Fodd bynnag, sicrhawyd cyllid nawr ar gyfer cynllun adferol pellach.

**5.1.28** Ymhlith y dylanwadau negyddol pellach sy'n debygol o fod wedi gweithio yn erbyn datblygu mae'r hinsawdd economaidd cyffredinol ac ansicrwydd ynghylch Brexit a materion fel dyfodol y gwaith dur. Fodd bynnag, o ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud a photensial yr ardal a'i chysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol rhagorol, bernir bod gan Lannau'r Harbwr ddyfodol cadarnhaol fel ardal gyflogaeth.

**5.1.29** O ganlyniad, bydd y strategaeth a'r polisi ar gyfer Glannau'r Harbwr yn cael eu hailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl (mewn trafodaeth gydag asiantaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) er mwyn sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer yr ardal yn cael ei gwireddu.

**Dangosydd 21: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

### Tabl 5.1.12 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 21 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. | | | |
| **Amcan** | OB5; OB13 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SRA2; SP12; R1/3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr. | Cyflwyno'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn cael ei gyflwyno'n unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**5.1.30** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â datblygu manwerthu yng Nglannau'r Harbwr, ac ni chafwyd ceisiadau perthnasol yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r busnes sefydledig presennol (LBS Builders Merchants oddi ar Ffordd Cramic) yn dal i fasnachu oddi mewn i ddyraniad Ardal Adfywio Strategol gyffredinol Glannau'r Harbwr, yn unol â'r fframwaith datblygu. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 22: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr.**

**5.1.31** Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr (FfDdY) yn 2014 – nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**Dangosydd 23: Paratoi CCA yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot.**

**Tabl 5.1.13 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir**

| **Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 23** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Paratoi CCA yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SRA2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Paratoi CCA yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot. | Paratoi'r CCA yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot erbyn Hydref 2016. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r CCA yn cael ei baratoi erbyn Hydref 2016. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Gall fod angen Canllaw Cynllunio Atodol. | | | | |

**Dadansoddiad**

**5.1.32** Hyd yma, nid yw CCA Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol Tref Port Talbot wedi cael ei baratoi. Ar hyn o bryd, mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fireinio a gwella'r modelu llifogydd ar gyfer yr ardal, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawnach o'r mecanweithiau llifogydd a'r ffactorau fydd yn dylanwadu ar batrwm datblygu yn y dyfodol yng Nglannau'r Harbwr.

**5.1.33** O ganlyniad gohiriwyd paratoi'r CCA ymhellach er mwyn sicrhau bod fframwaith datblygu Glannau'r Harbwr yn cael ei lywio'n llwyr gan y gwaith pellach sydd i'w wneud yng nghyswllt modelu llifogydd. Bydd unrhyw gynnydd ar y safle yn cael ei fonitro'n fanwl a bydd yr angen am baratoi CCA i gyflwyno gweledigaeth gyffredinol, ffurf a chymeriad y safle yn derbyn sylw pellach yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis.

**Dangosydd 24: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.**

**Tabl 5.1.14 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir**

| **Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 24** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCRS1/1 SP7, H1/7 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | Cyflwyno 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd yn cael ei gyflwyno o 2016/17. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**5.1.34** Mae cyfnod cyntaf Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd, sef 6 uned fasnachol a 12 uned breswyl, yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd, ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau o fewn y cyfnod monitro nesaf.

5.1.35 Er ein bod wedi cyrraedd y pwynt sbarduno ar gyfer y polisi, mae tystiolaeth o gynnydd gwirioneddol wrth gyflawni'r cynllun hwn, ac felly ni fernir bod angen gweithredu ar hyn o bryd. Bydd cynnydd ar y datblygiad preswyl pellach yn cael ei fonitro yn ystod y cyfnod monitro nesaf, a bydd angen iddo gael ei ystyried fel rhan o adolygiad y CDLl.

**Dangosydd 25: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.**

### Tabl 5.1.15 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 25 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCRS1/1; SP12, R1/1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd. | Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd: Cyfnod 1 erbyn 2016; Cyfnod 2 erbyn 2020. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn cael ei chyflwyno yn unol â'r amserlenni a nodwyd. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

5.1.36 O ran elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd, roedd cyfnod 1 yn cynnwys maes parcio aml-lawr amnewid ac uned siop fawr a gwblhawyd ac a oedd yn cael ei ddefnyddio erbyn canol 2016. Cydymffurfiwyd â rhan gyntaf targed y polisi, felly.

5.1.37 Mae cyfnod 2 y cynllun cyffredinol yn cynnwys y 6 uned fasnachol a'r 12 uned breswyl y cyfeiriwyd atynt uchod. Fel y nodwyd, mae'r datblygiad hwn yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac felly mae'r cynllun yn dal i gyflawni'r targed ar hyn o bryd. Bydd y gwaith o fonitro cynnydd cyflawni cyfnod 2 yn parhau.

**Dangosydd 26: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.**

### Tabl 5.1.16 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 26 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCRS1/2, SP7, H1/7 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan. | Cyflwyno 50 o unedau tai, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun yn cael ei gyflwyno o 2017/18. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Datblygiad wedi'i gwblhau. Dim angen camau pellach | | | | |

## Dadansoddiad

**5.1.38** Cwblhawyd cynllun Ysgol Glanafan yn ystod cyfnod monitro 2018-19. O ganlyniad i newidiadau i gynllun y safle, gostyngodd nifer yr unedau a gyflwynwyd ar y safle i 47.

**Dangosydd 27: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan.**

### Tabl 5.1.17 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 27 | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan. | | |
| **Amcan** | OB5; | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | CCRS1/2; SP12, R1/2 |

| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
|---|---|---|---|---|
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan. | Cyflwyno elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfan Glanafan Port Talbot erbyn 2020. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot yn cael ei chyflwyno erbyn 2020. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Datblygiad wedi'i gwblhau. Dim angen camau pellach. | | | | |

## Dadansoddiad

5.1.39 Mae elfen fanwerthu safle Ysgol Glanafan yn rhan o'r un cais cynllunio a datblygu cyffredinol â'r elfennau preswyl y cyfeiriwyd atynt uchod. Fel y nodwyd, mae'r gwaith yn awr wedi'i gwblhau ac yn unol â tharged y polisi.

**Dangosydd 28: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.**

### Tabl 5.1.18 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| **Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 28** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCRS1/3 SP7, H1/19 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan. | Cyflwyno 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y bydd yn cychwyn o 2016/2017. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan yn cael ei gyflwyno o 2016/17. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

**Dadansoddiad**

5.1.40 Mae safle Lido Afan wedi bod yn destun prosesau tendro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae Brîff Cynllunio manwl wedi cael ei baratoi ar gyfer y Safle. Fodd bynnag, er bod diddordeb cyn ymgeisio pellach wedi bod yn y safle yn ystod ail ran y cyfnod monitro hwn, a bod trafodaethau technegol pellach yn parhau ar hyn o bryd, ni chychwynnwyd ar y safle hyd yma.

5.1.41 Mae'r safle eisoes wedi cael ei glirio ac mae'n barod i'w ailddatblygu, mewn ardal breswyl boblogaidd, yn agos at lan y môr a'r holl amwynderau sydd yno. Er gwaethaf yr oedi a brofwyd, felly, rhagwelir y bydd y gwaith datblygu ar y safle yn cael ei gwblhau o fewn y 5 mlynedd nesaf.

5.1.42 Er y rhagwelir y gallai'r gwaith datblygu ar safle Lido Afan symud ymlaen yn y cyfnod monitro nesaf a'r tu hwnt i hynny, gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi, ac nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion yma ar hyn o bryd, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 29: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan.**

**Tabl 5.1.19 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir**

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 29 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCRS1/3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan. | Cyflwyno datblygiad twristiaeth / hamdden yn Lido Afan erbyn 2020. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r datblygiad twristiaeth / hamdden yn Lido Afan yn cael ei gyflwyno erbyn 2020. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | | | | |

### Dadansoddiad

**5.1.43** Mae elfen dwristiaeth / hamdden cynllun Lido Afan i gael ei chyflwyno ochr yn ochr ag elfen breswyl y cynllun. Fel y nodir yn nangosydd 28, er gwaetha'r oedi a brofwyd, mae disgwyl i'r gwaith datblygu ar y safle gael ei gwblhau o fewn y 5 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, fel yn achos dangosydd 28, nid yw amcanion y polisi yn cael eu cyflawni ar y safle hwn, a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 30: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 5.1.20 Polisi Strategol SP5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

| Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 30 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB5 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP5 | **Polisïau Cysylltiedig** | | CCUC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi Prifysgol Abertawe i gael ei gyflwyno erbyn 2015:<br><br>Mai 2013 – Gwaith i gychwyn.<br><br>Mai 2014 – Cwblhau'r adeiladau cyntaf.<br><br>Mai 2015 – Cwblhau'r holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl.<br><br>Medi 2015 – Cwblhau llety'r myfyrwyr. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**5.1.44** Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi Prifysgol Abertawe yn ddatblygiad pwysig yn y Fwrdeistref Sirol, gyda photensial i gynnal twf yn yr economi wybodaeth oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot ac ar draws y Ddinas-Ranbarth.

**5.1.45** Rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer y campws ym mis Awst 2012, a chymeradwywyd materion dilynol a neilltuwyd ar gyfer Cyfnod 1 ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r CDLl yn dyrannu tir i ddarparu ar gyfer datblygu oddi mewn i'r cais amlinellol presennol a rhannau ychwanegol o'r safle er mwyn ehangu ymhellach. Mae tir ar gael hefyd i'r gorllewin o'r safle, sydd oddi mewn i ffiniau gweinyddol Dinas a Sir Abertawe.

**5.1.46** Mae'r targedau a geir yn y fframwaith monitro yn cyfeirio at ddatblygu Cyfnod 1a o'r Campws, oedd yn cynnwys llawer o'r prif adeiladau oedd yn ofynnol er mwyn i'r campws agor yn ffurfiol ym mis Medi 2015, megis y Neuadd Fawr, yr Hwb Arloesedd, y Cyfleuster Gweithgynhyrchu, llety preswyl ac adeiladau academaidd.

**5.1.47** Oddi mewn i'r cyfnod monitro, cafwyd pedwar cais pellach i ddatblygu ar Gampws y Bae. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion ar gyfer MUGA, un arall i greu Adeilad i Ysgol y Gyfraith, a thrydydd cais am storfa fatrïoedd dros dro, mannau gwefru ceir, PV ar doeon yr adeiladau presennol, a pheiriannau cysylltiedig. Roedd y pedwerydd yn gofyn am ganiatâd i estyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno Materion Neilltuedig mewn perthynas â'r cyfnodau oedd yn weddill o ganiatâd cynllunio 2010/222. Roedd y rhain i gyd yn dderbyniol ac yn unol â Pholisi CCUC1.

## 5.2 Polisi Strategol 6 Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

### Tabl 5.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 31 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisi Strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 32 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisi Strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 33 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 34 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 35 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 36 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisi Strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 37 | Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r Polisi Strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 38 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 31: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd.**

### Tabl 5.2.2 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 31 - Cyflwyno datblygiadau tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | | |
| **Amcan** | OB6 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP6 | **Polisïau Cysylltiedig** | VRS1; SP7; H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. | 2011/12: 61<br>2012/13: 108<br>2013/14: 44<br>2014/15: 60<br>2015/16: 90<br>2016/17: 112<br>2017/18: 92<br>2018/19: 75<br>2019/20: 122<br>2020/21:125<br>2021/22: 117<br>2022/23: 117<br>2023/24: 112<br>2024/25:126<br>2025/26: 74 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.2.1** Mae'r tabl canlynol yn dangos y tai a gyflwynwyd yn y Cymoedd yn erbyn y targedau blynyddol yn y fframwaith monitro:

### Tabl 5.2.3 Tai a Gwblhawyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 61 | **64** | 61 | 64 | **3** |
| 2012/13 | 108 | **108** | 169 (+108) | 172 | **3** |
| 2013/14 | 44 | **44** | 213 (+44) | 216 | **3** |
| 2014/15 | 60 | **81** | 273 (+60) | 297 | **24** |
| 2015/16 | 90 | **85** | 363 (+90) | 382 | **19** |
| 2016/17 | 112 | **18** | 475 (+112) | 400 | **-75** |

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 **(1)** | 75 | **24** | 642 (+75) | 457 | - 1 |
| 2019/20 | 122 | 50 | 764 (+122) | 508 | - **2 5** |

1. Roedd gwall yn y targed blynyddol yn AMB y llynedd, ac mae wedi cael ei gywiro yma.

**5.2.2** Oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd, yn ystod y tair blynedd diwethaf o fonitro, mae'r tai a gyflwynwyd ar safleoedd a ddyrannwyd wedi syrthio o dan y targedau yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2019/20, cofnodwyd cyfanswm o 50 o dai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cymoedd. Mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na tharged y flwyddyn o 122 annedd. Serch hynny, mae'n nifer sylweddol fwy o dai a gwblhawyd nag yn y tair blynedd blaenorol.

**5.2.3** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cymoedd yw 508 o anheddau. O gymharu hynny â'r targed cronnol blynyddol o 764, mae hyn yn dangos bod y tai a gwblhawyd bellach 256 o dan y targed, a bod 66.5% o'r targed cronnol blynyddol wedi cael ei gyflawni hyd yma.

**5.2.4** Er bod digon o dir ar gyfer tai wedi'i ddyrannu yn y CDLl i ddiwallu'r gofyn a nodwyd am dai, am amrywiaeth o resymau (gan gynnwys rhai sy'n annibynnol ar y system gynllunio), nid yw'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cymoedd yn cael eu cynnig ac yn mynd rhagddynt fel y rhagwelwyd.

**5.2.5** Er gwaethaf y pwynt hwn, dylid cydnabod bod cynnydd wedi digwydd yn ddiweddar ar safle Fferm Bryn Brych, Rhos, lle mae'r gwaith adeiladu yn awr yn mynd rhagddo'n dda, ac yn debygol o ennill momentwm wrth i'r safle ddatblygu.

**5.2.6** Fodd bynnag, gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi, a bod y polisi'n amlwg ddim yn cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 32: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe.**

### Tabl 5.2.4 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 32 – Ardal Twf Strategol Pontardawe | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe | | |
| **Amcan** | OB 6 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP6 | **Polisïau Cysylltiedig** | SP7, H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe | 2011/12 - 0<br>2012/13 - 46<br>2013/14 - 30<br>2014/15 - 38<br>2015/16 - 65<br>2016/17 - 92<br>2017/18 - 72<br>2018/19 - 50<br>2019/20 - 66<br>2020/21 - 50<br>2021/22 - 40<br>2022/23 - 40<br>2023/24 - 35<br>2024/25 - 40<br>2025/26 - 0 | **Mabwysiadu**<br>**AMB 2017**<br>**AMB 2018**<br>**AMB 2019** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.2.7** Mae'r tabl canlynol yn dangos y tai a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe yn erbyn y targedau blynyddol yn y fframwaith monitro:

### Tabl 5.2.5 Tai a Gwblhawyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 0 | **3** | 0 | 3 | **3** |
| 2012/13 | 46 | **46** | 46 (+46) | 49 | **3** |
| 2013/14 | 30 | **30** | 76 (+30) | 79 | **3** |
| 2014/15 | 38 | **43** | 114 (+38) | 122 | **8** |
| 2015/16 | 65 | **66** | 179 (+65) | 188 | **9** |
| 2016/17 | 92 | **18** | 271 (+92) | 206 | **-65** |
| 2017/18 | 72 | **33** | 343 (+72) | 239 | **-104** |

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 50 | **24** | 393 (+50) | 263 | **-130** |
| 2019/20 | 66 | **50** | 459 (+66) | 313 | **-146** |

**5.2.8** Oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe, yn ystod y tair blynedd diwethaf o fonitro, roedd y tai a gyflwynwyd ar safleoedd a ddyrannwyd wedi syrthio o dan y targedau yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2019/20, cofnodwyd cyfanswm o 50 o dai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn ardal Pontardawe, sydd eto'n is na'r targed blynyddol o 66 uned. Er bod hyn yn is na'r targed blynyddol, mae'r gyfradd gwblhau yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

**5.2.9** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, cyfanswm y tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn ardal Pontardawe yw 313 o anheddau, o gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 459, sy'n dangos bod nifer y tai a gwblhawyd yn awr 146 yn is na'r targed, a bod 68.2% o'r targed cronnol blynyddol wedi cael ei gyflawni hyd yma.

**5.2.10** Fel y cydnabuwyd uchod, gwelwyd cynnydd yn ddiweddar ar safle Fferm Bryn Brych, Rhos, lle mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo. Mae'r safle'n parhau i ddarparu tai a gwblhawyd eleni, a rhagwelir y bydd y datblygu'n ennill momentwm wrth i'r safle wneud cynnydd.

**5.2.11** Fodd bynnag, gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi ac nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 33: Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.**

### Tabl 5.2.6 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 33 – Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf. | | |
| **Amcan** | OB6 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP6 | **Polisïau Cysylltiedig** | VRS1;SP7; H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf. | 2011/12 – 5<br>2012/13 – 0<br>2013/14 – 9 | **Mabwysiadu**: 2016<br>**AMB 2017**: | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 – 2 | **AMB 2018** | | |
| | 2015/16 – 0<br>2016/17 – 0<br>2017/18 – 0<br>2018/19 – 0<br>2019/20 – 21<br>2020/21 – 45<br>2021/22 – 37<br>2022/23 – 37<br>2023/24 – 37<br>2024/25 – 36<br>2025/26 – 35 | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.2.12** Mae'r tabl canlynol yn dangos y tai a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro:

**Tabl 5.2.7 Tai a Gwblhawyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf**

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 5 | **5** | 5 | 5 | **0** |
| 2012/13 | 0 | **0** | 5 (+0) | 5 | **0** |
| 2013/14 | 9 | **9** | 14 (+9) | 14 | **0** |
| 2014/15 | 2 | **2** | 16 (+2) | 16 | **0** |
| 2015/16 | 0 | **0** | 16 (+0) | 16 | **0** |
| 2016/17 | 0 | **0** | 16 (+0) | 16 | **0** |
| 2017/18 | 0 | **0** | 16 (+0) | 16 | **0** |
| 2018/19 | 0 | **0** | 16 (+0) | 16 | **0** |
| 2019/20 | 21 | **0** | 37 (+21) | 16 | **-21** |

5.2.13 Oddi mewn i Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf, mae darparu tai ar safleoedd a ddyrannwyd bellach wedi gostwng yn is na'r targedau a bennwyd yn y fframwaith monitro am y tro cyntaf. Fodd bynnag, gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf i ni fethu â chyrraedd y targed, ni chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddar ar un o'r safleoedd tai a ddyrannwyd yng Nglyn-nedd, a bydd cynnydd pellach ar y safle hwn ac unrhyw dai eraill sy'n cael eu cwblhau yn dal i gael eu monitro.

**Dangosydd 34: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.**

### Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 34 – Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP6 | **Polisïau Cysylltiedig** | | VRS1/1; SP7; H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | Darparu **150** o unedau tai newydd, y rhagwelir eu cychwyn o 2020/21. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn cael ei gyflwyno o 2020/21. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

5.2.14 Rhagwelir y bydd y datblygu'n cychwyn o 2020/21. Hyd yma ni fu datblygu ar safle Rhodfa'r Parc, ac ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd datblygu'n cychwyn yn fuan. Bydd y dyraniad yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad.

**Dangosydd 35: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.**

### Tabl 5.2.8 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 35 |
|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun adfywio defnydd cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP6 | **Polisïau Cysylltiedig** | | VRS1/1; SP12; R1/4 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun adfywio defnydd cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Cyflwyno elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd, yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chyflwynir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

**5.2.15** Fel y cyfeiriwyd uchod, ni welwyd cynnydd hyd yma ar elfennau manwerthu'r datblygiad ar y safle hwn, ac ni ragwelir y bydd datblygu'n cychwyn yn fuan. Ar y cyd â dangosydd 34, bydd y dyraniad yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad.

## Dangosydd 36: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd.

### Tabl 5.2.9 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

| **Polisi Strategol SP6 Dangosydd 36** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP6 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. | Paratoi'r CCA sy'n ymwneud â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd erbyn mis Ebrill 2017. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r CCA wedi'i baratoi erbyn mis Ebrill 2017. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

**Dadansoddiad**

**5.2.16** Ni chynhyrchwyd y CCA erbyn y dyddiad a nodwyd yn y pwynt sbarduno, sef mis Ebrill 2017. Er bod disgwyl i'r safle gael ei gyflawni yn ail hanner cyfnod y CDLl (h.y. o 2020 ymlaen), ni wnaed fawr ddim cynnydd hyd yma. Yng ngoleunir gwaith sydd ar fin cychwyn ar y Cynllun Amnewid, a fydd yn adolygu'r holl ddyraniadau sydd heb eu cyflawni, mae'n annhebygol y bydd y CCA yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu'n fanwl.

**Dangosydd 37: Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd.**

**Tabl 5.2.10 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd**

| Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 37 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd. | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP2 ac SP11 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP11, EC5, EC6 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd. | Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd a gwaith a ganiatawyd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Dim cynnydd yn nifer yr unedau bywyd a gwaith a ganiatawyd am 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

**Dadansoddiad**

**5.2.17** Mae'r polisi bywyd a gwaith yn darparu fframwaith ar gyfer caniatáu datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, fel bod polisi mwy hyblyg yn annog datblygiad ac yn cyfrannu at adfywio'r cymoedd.

**5.2.18** Ers mabwysiadu'r CDLl, ni ddaeth ceisiadau i law am unedau bywyd a gwaith yn y Fwrdeistref Sirol. Mae angen gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach, felly, i ganfod y rhesymau am y diffyg cynigion bywyd a gwaith. Ymhellach, gan ein bod wedi cyrraedd y pwynt sbarduno a nodwyd yn y polisi, ac mae'n amlwg nad yw'r polisi'n cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 38: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.**

### Tabl 5.2.11 Polisi Strategol SP6 – Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 6 Dangosydd 38</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB6</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP6</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SP13; TO3/1</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatwyd yn Rheola.</td><td rowspan="4">Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Nid yw’r dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.</td></tr>
</table>

### Dadansoddiad

**5.2.19** Mae’r safle yn Rheola yn dal yn destun cais cynllunio amlinellol sydd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio, yn amodol ar lofnodi cytundeb Adran 106. Mae’r cais amlinellol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, ar sail twristiaeth yn bennaf, gyda hyd at 100 o unedau llety gwyliau, cyfadeilad hamdden, ac mae hefyd yn caniatáu ar gyfer elfen breswyl i alluogi’r datblygiad.

**5.2.20** Mae trafodaethau wedi parhau ynghylch datblygu’r safle ac mae diddordeb yn parhau mewn datblygu twristiaeth ar y safle, ac awydd clir i annog hynny. Fodd bynnag, ni roddwyd cymeradwyaeth amlinellol gan nad yw’r A106 wedi cael ei lofnodi. Y targed yw cyflawni’r dyraniad erbyn 2021, ac mae amser o hyd i’r safle hwn wneud cynnydd cyn cyrraedd dyddiad y pwynt sbarduno. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro mewn AMBau dilynol, ac fel rhan o Adolygu’r Cynllun.

# 6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

## 6.1 Polisi Strategol 7 Y Tai sy'n Ofynnol

### Tabl 6.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 39 | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 40 | Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o Astudiaeth gyfredol Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1) | Diddymwyd TAN1 gan Lywodraeth Cymru | Nid yw bellach yn ofynnol adrodd am y dangosydd hwn |

**Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.**

### Tabl 6.1.2 Polisi Strategol SP7 – Y Tai sy'n Ofynnol

| Polisi Strategol SP 7 Dangosydd 39 – Darparu tai digonol ar gyfer y strategaeth twf ar sail economaidd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI | | | |
| **Amcan** | OB7 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP7 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2, H1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI | Bydd cyfanswm darpariaeth o **8,760** o unedau tai newydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026.<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12 - 262<br>2012/13 - 287<br>2013/14 - 301<br>2014/15 - 386<br>2015/16 - 486<br>2016/17 - 549<br>2017/18 - 625<br>2018/19 - 686<br>2019/20 - 698<br>2020/21 - 676<br>2021/22 - 647<br>2022/23 - 614<br>2023/24 - 553<br>2024/25 - 542<br>2025/26 – 488 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| Gweithredu | |
|---|---|
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | |

## Dadansoddiad

6.1.1 Mae'r CDLl yn darparu ar gyfer 8,760 o unedau tai, er mwyn cyflawni'r 7,800 o unedau tai newydd sy'n angenrheidiol erbyn 2026. Mae'r tabl sy'n dilyn yn darlunio'r tai a gyflwynwyd yn erbyn y targedau blynyddol a geir yn y fframwaith monitro:

### Tabl 6.1.3 Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn

| Blwyddyn | Targed Blynyddol | Union Nifer y Tai a Gwblhawyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cwblhau Cronnol yn erbyn y Targed | Cwblhau Cronnol fel % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 262 | **262** | 262 | 262 | **0** | 100% |
| 2012/13 | 287 | **287** | 549 | 549 | **0** | 100% |
| 2013/14 | 301 | **301** | 850 | 850 | **0** | 100% |
| 2014/15 | 386 | **401** | 1,236 | 1,251 | **15** | 101% |
| 2015/16 | 486 | **250** | 1,722 | 1,501 | **-221** | 87% |
| 2016/17 | 549 | **178** | 2,271 | 1,679 | **-592** | 74% |
| 2017/18 | 625 | **148** | 2,896 | 1,827 | **-1,069** | 63% |
| 2018/19 | 686 | **299** | 3,582 | 2,126 | **-1,456** | 59% |
| 2019/20 | 676 | **212** | 4,258 | 2,338 | **-1,920** | 55% |



6.1.2 Dengys y tabl uchod fod cyflwyno tai ar draws Castell-nedd Port Talbot yn parhau i ostwng o dan y targedau sy'n rhan o'r fframwaith monitro. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ni fu modd asesu'n gywir nifer y tai a gwblhawyd ag ymweliadau safle, fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol. Casglwyd ffigurau ar sail trafodaethau gyda datblygwyr a thrwy adolygu data cwblhau o gofnodion Rheoliadau Adeiladu'r Cyngor. Er na fydd hynny'n canfod yr holl dai a gwblhawyd, dyna'r amcan

gorau roedd modd ei lunio eleni, ac os bydd ymweliadau safle'n cael eu caniatáu y flwyddyn nesa, bydd unrhyw unedau a gollwyd yn cael eu haddasu yn AMB y flwyddyn nesaf. Cofnodwyd cyfanswm o 212 o dai a gwblhawyd ar safleoedd bach a mawr. Er ei fod yn is na'r llynedd mae'n welliant ar y ddwy flynedd rhwng 2016 a 2018. Mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na tharged y flwyddyn, sef 676 o anheddau.

**6.1.3** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yw 2,338 o anheddau. O gymharu â'r targed cronnol blynyddol o 4,258, mae hyn yn dangos bod y nifer a gwblhawyd yn awr 1,920 o dan y targed ac mai 55% yn unig o'r targed cronnol blynyddol a gyflwynwyd hyd yma.

**6.1.4** Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), oedd yn cyflwyno gofyniad i AMBau gynhyrchu Llwybr Tai wedi'i ddiweddaru a chymharu'r union dai a gyflwynwyd â'r gofyniad blynyddol cyfartalog (yn achos cynlluniau a fabwysiadwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr).


**6.1.5** Mae gofyn bod cynlluniau a fabwysiadwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr yn defnyddio'r dull Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (AAR), gan nad oedd cynlluniau cynharach fel arfer yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynghylch cyfnodau safleoedd tai a'u cyflwyno. AAR Castell-nedd Port Talbot yw 520 o unedau, ac fe'i dangosir â'r llinell ddu yn y graff a welir yn Ffigur 6.1 isod.

**6.1.6** Mae graff y llwybr (Ffig. 6.1) a'r tabl manylach 'Tai a Gyflwynwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot' (Ffig. 6.2), yn dangos y diffyg cronnol o -55% a gyflwynwyd hyd yma. Mae union nifer y tai a gwblhawyd wedi cael eu plotio ar gyfer y cyfnod monitro hwn a'r blynyddoedd blaenorol, ac mae'n dangos bod y tai a gyflwynwyd, ym mhob blwyddyn ers gwaelodlin y CDLl, wedi bod yn sylweddol is na'r llinell AAR, sef 520 o unedau.

**6.1.7** Ar sail cyfnodau safleoedd a'u cyflwyno (a welir yn Atodiad A), mae'r cyflenwad tai ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod wedi cael ei blotio ar y graff yn achos pob un o'r blynyddoedd sy'n weddill yn y cynllun. Oherwydd y tangyflawni sylweddol ym mhob un o flynyddoedd y cynllun hyd yma, cydnabyddir na fydd y CDLl yn cyflawni'r angen llawn am dai, sef 7,800, o'r cyflenwad o 8,760, erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Cyfanswm y tai a gwblhawyd hyd yma a'r cyflenwad sy'n weddill yw 6,176, gan nad yw'r cynllun yn cynnwys cyflenwad digonol o dai i ddiwallu'r gofyn am dai yn y cynllun a fabwysiadwyd. O ganlyniad, cyfanswm y ddarpariaeth tai newydd ar y llwybr yw 6,176, sydd ryw 30% yn is na'r ddarpariaeth dai wreiddiol o 8,760.

**6.1.8** Nododd Adroddiad Adolygu'r CDLl, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, y diffyg o ran cyflwyno tai fel un o'r prif faterion y byddai angen rhoi sylw iddo yn y CDLl Amnewid. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r diffyg hwn fel rhan o'r broses adolygu sydd i ddod.

## Ffigur 6.1 Llwybr Tai (2020)




## Ffigur 6.2 Cyflwyno Tai yng Nghastell-nedd Port Talbot

| LDP Year | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
| Actual completions large | 231 | 243 | 262 | 355 | 231 | 166 | 113 | 245 | 186 | | | | | | |
| Actual completions small sites | 31 | 44 | 39 | 54 | 19 | 12 | 35 | 54 | 26 | | | | | | |
| Anticipated completions allocated sites during year | | | | | | | | | | 61 | 90 | 374 | 624 | 599 | 401 |
| Anticpated landbank completions during year | | | | | | | | | | 40 | 221 | 267 | 264 | 239 | 240 |
| Anticipated completions windfall during year | | | | | | | | | | 20 | 20 | 40 | 40 | 40 | 40 |
| Anticipated completions small windfall during year | | | | | | | | | | 35 | 35 | 35 | 35 | 35 | 35 |
| Total Actual completions during year | 262 | 287 | 301 | 409 | 250 | 178 | 148 | 299 | 212 | | | | | | |
| Anticipated Annual Build Rate (AABR) from Adopted Plan | | | | | | | | | | 156 | 366 | 716 | 963 | 913 | 716 |

**Dangosydd 40: Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth gyfredol Argaeledd Tir ar gyfer Tai**

**6.1.9** Diddymodd Llywodraeth Cymru (LlC) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 yn 2020 ac felly nid adroddir am y dangosydd hwn bellach.

## 6.2 Polisi Strategol 8 Tai Fforddiadwy

### Tabl 6.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 41 | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 42 | Newidiadau o ran gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal oddi mewn i'r farchnad: 1) Port Talbot; 2) Castell-nedd; 3) Pontardawe; 4) Cwm Nedd a Chwm Dulais; 5) Cwm Tawe a Dyffryn Aman; 6) Cwm Afan | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 43 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 44 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Thai Fforddiadwy | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.**

### Tabl 6.2.2 Polisi Strategol SP8 – Tai Fforddiadwy

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 8 Dangosydd 41</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB8</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP8</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SP2; AH1</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI</td><td rowspan="4">Darparu 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026.<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12 - 7<br>2012/13 - 5<br>2013/14 - 22<br>2014/15 - 37<br>2015/16 - 72<br>2016/17 - 90</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn y Fwrdeistref Sirol yn gostwng o dan y gofyniad cronnol 2 flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 - 115<br>2018/19 - 130<br>2019/20 - 124<br>2020/21 - 120<br>2021/22 - 111<br>2022/23 - 102<br>2023/24 - 90<br>2024/25 - 89<br>2025/26 - 86 | | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**6.2.1** Mae'r tabl canlynol yn dangos sut cyflwynwyd unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio (h.y. trwy gytundebau A106) yn erbyn y targedau blynyddol yn y fframwaith monitro:

**Tabl 6.2.3 Cwblhau Tai Fforddiadwy fesul Blwyddyn**

| Blwyddyn | Targedau Blynyddol | Union Nifer yr Unedau Tai Fforddiadwy a Gyflwynwyd | Targed Cronnol | Tai Cronnol a Gwblhawyd | Cyflawni Cronnol yn erbyn y Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 7 | **11** | 7 | 11 | **4** |
| 2012/13 | 5 | **0** | 12 | 11 | **-1** |
| 2013/14 | 22 | **0** | 34 | 11 | **-23** |
| 2014/15 | 37 | **23** | 71 | 34 | **-37** |
| 2015/16 | 72 | **8** | 143 | 42 | **-101** |
| 2016/17 | 90 | **0** | 233 | 42 | **-191** |
| 2017/18 | 115 | **8** | 348 | 50 | **-298** |
| 2018/19 | 130 | **0** | 478 | 50 | **-428** |
| 2019/20 | 124 | **18** | 602 | **68** | **-534** |

**6.2.2** Dengys y tabl uchod fod darparu unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio ar draws Castell-nedd Port Talbot yn dal i syrthio'n sylweddol o dan y targedau a geir yn y fframwaith monitro. Yn ystod blwyddyn fonitro 2019/20, cyflwynwyd 18 o unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio, yn erbyn targed o 124 o unedau. Daeth swm cymudol o £15,000 hefyd i law yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y ffigur yn is na'r targed,

mae nifer y tai fforddiadwy sy'n dod trwy'r system gynllunio wedi cynyddu o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

**6.2.3** Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl (2011), nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd yw cyfanswm o 68 uned. Er bod darparu unrhyw nifer o dai fforddiadwy yn gadarnhaol, a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol, gan helpu i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot, o gymharu hyn â'r targed blynyddol cronnol o 602, gwelir bod lefel y tai a gwblhawyd bellach yn sylweddol o dan y targed, ac mai 11.3% yn unig o'r targed blynyddol cronnol a gyflwynwyd hyd yma.

**6.2.4** Mae darparu tai fforddiadwy yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu tai yn ehangach ac mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

**6.2.5** Gan ein bod wedi cyrraedd pwynt sbarduno'r polisi a bod y polisi yn amlwg ddim yn cyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad. Bydd yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar ddarparu tai yn cael eu hystyried, gan gynnwys lefel a dosbarthiad gofodol twf, dichonoldeb safleoedd a chyfyngiadau ar safleoedd sydd eisoes yn bodoli.

**Dangosydd 42: Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal oddi mewn i'r farchnad.**

**Tabl 6.2.4 Polisi Strategol SP8 – Tai Fforddiadwy**

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 8 Dangosydd 42</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal oddi mewn i'r farchnad</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB8</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP8</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SP2; AH1</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal oddi mewn i'r farchnad:<br>1. Port Talbot<br>2. Castell-nedd<br>3. Pontardawe<br>4. Cwm Nedd a Chwm Dulais<br>5. Cwm Tawe a Dyffryn Aman<br>6. Cwm Afan</td><td rowspan="4">Cyflwyno'r lefel uchaf o dai fforddiadwy y bernir ei bod yn ddichonadwy.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Cynnydd neu ostyngiad o 5% yng ngwerth gweddilliol unrhyw ardal dai oddi mewn i'r farchnad mewn unrhyw un flwyddyn</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
</table>

| Gweithredu | |
|---|---|
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | |

**Dadansoddiad**

**6.2.6** Bu'r Astudiaeth Dichonoldeb o ran Tai Fforddiadwy (2012) yn asesu dichonoldeb economaidd safleoedd datblygu preswyl preifat, yn arbennig, i ba raddau gallai datblygwyr preifat gyfrannu at ddarparu unedau tai fforddiadwy ym mhob is-barth. Canfyddiadau'r adroddiad hwn a lywiodd y targedau tai fforddiadwy a geir ym Mholisi AH1.

**6.2.7** Diben y dangosydd hwn yw monitro newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol a phenderfynu a yw'r newidiadau hyn yn ddigon arwyddocaol i gael effaith ar y targedau sydd ym Mholisi AH1. Er enghraifft, os yw newid yn y gwerth gweddilliol yn fwy na 5%, gallai hynny fod yn arwydd bod cynlluniau wedi dod yn fwy dichonadwy ac felly, yn alluog i gefnogi nifer uwch o unedau tai fforddiadwy. Fel arall, os yw'r gostyngiad yn fwy na 5%, gallai hynny fod yn arwydd bod cynlluniau bellach yn llai dichonadwy, a bod y targedau tai fforddiadwy yn y CDLl wedi cael eu gosod yn rhy uchel.

**6.2.8** Mewn AMBau blaenorol, cynhaliwyd asesiad gan ddefnyddio data prisiau tai newydd a adeiladwyd (a gafwyd o'r Gofrestrfa Tir) ynghyd ag ymchwil bellach i fath, maint a nifer yr ystafelloedd gwely, er mwyn sicrhau cost gywir fesul metr sgwâr am ddatblygiadau adeiladu newydd.

**6.2.9** Canfu pob un o'r AMBau blaenorol fod newid sylweddol yn y gwerth gweddilliol ar draws pob un o'r ardaloedd sy'n rhan o'r farchnad. Canfu AMB 2019 fod prisiau gwerthu cyffredinol wedi codi rhywfaint yn ystod y cyfnod monitro, ond bod costau adeiladu wedi codi'n sylweddol. Ar draws yr ardaloedd y mae gofyn iddynt gyfrannu at dai fforddiadwy o dan Bolisi AH1, gwelwyd newid o -21.46% yng Nghastell-nedd, -28.1% ym Mhort Talbot a -23.1% ym Mhontardawe.

**6.2.10** Mae'r gostyngiad sylweddol hwn yn y gwerth gweddilliol yn dangos yn amlwg bod newidiadau pwysig wedi digwydd ers cynnal yr Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Tai Fforddiadwy, ac mae cynnydd sylweddol a pharhaol mewn costau adeiladu, heb gynnydd cymesur mewn prisiau gwerthu, wedi cael effaith negyddol ar ddichonoldeb datblygu tai yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gyffredinol.

**6.2.11** Gan fod modd casglu o AMBau blaenorol bod gostyngiad mewn gwerth gweddilliol yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyflawni'r targedau a geir yn y polisi, ni chynhaliwyd asesiad ar gyfer AMB 2020, a bydd astudiaeth ddichonoldeb newydd yn cael ei chynnal fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.



**Dangosydd 43: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy.**

**Tabl 6.2.5 Polisi Strategol SP8 – Tai Fforddiadwy**

| Polisi Strategol SP 8 Dangosydd 43 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy | | | |
| **Amcan** | OB8 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP8 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; AH2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy | Cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy | **Mabwysiadu** | 2016 | Dim cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy a ganiatawyd am 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

**Dadansoddiad**

**6.2.12** Yn ystod y cyfnod monitro, ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau o hyd am safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol lle na welwyd cynnydd mewn safleoedd o'r fath.

**6.2.13** Er na chafwyd ceisiadau am safleoedd sy'n eithriadau, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) yn parhau i ddatblygu nifer o safleoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn darparu tai fforddiadwy ar safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl ac ar safleoedd annisgwyl.

**6.2.14** Gan ein bod wedi cyrraedd y pwynt sbarduno ar gyfer y polisi, bydd angen ailasesu'r polisi fel rhan o'r adolygiad, a bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn ofynnol i ganfod y rhesymau pam mae diffyg safleoedd sy'n eithriadau yn cael eu cyflwyno.

**Dangosydd 44: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Thai Fforddiadwy.**

**6.2.15** Cwblhawyd y CCA Tai Fforddiadwy a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

## 6.3 Polisi Strategol 9 Sipsiwn a Theithwyr

### Tabl 6.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 45 | Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw. Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol. Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 45: Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw. Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol. Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)**

### Tabl 6.3.2 Polisi Strategol SP9 – Sipsiwn a Theithwyr

| Polisi Strategol SP 9 Dangosydd 45 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw.<br><br>Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol.<br><br>Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA | | | |
| Amcan | OB9 | | | |
| Polisïau Allweddol | SP9 | Polisïau Cysylltiedig | | SP2; GT1 ; GT2 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw.<br><br>Nifer y cynigion a ganiatawyd yn flynyddol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb awdurdod yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol.<br><br>Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn GTAA | Darperir 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017.<br><br>Darperir 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022.<br><br>Darperir 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026. | Mabwysiadu | 2016 | Methiant i ddarparu'r 4 llain yng Nghae Carw erbyn 2017.<br><br>Methiant i ddarparu'r 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022.<br><br>Methiant i ddarparu 9 llain (ar safle priodol / neu yng Nghae Garw) erbyn 2026. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |

| Gweithredu | |
|---|---|
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | |

**Dadansoddiad**

**6.3.1** Nododd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2012 (GTAA)[6] fod angen 4 llain erbyn 2017, 7 llain erbyn 2022 a 9 llain erbyn 2026.

**6.3.2** Ar y cychwyn, bwriad y Cyngor oedd datblygu safle Cae Garw, Margam mewn 3 cham, i gyflawni'r targedau tymor byr, canolig a hir a nodwyd yn GTAA 2012. Oherwydd swm y gwaith paratoi oedd yn ofynnol ar gyfer y safle, fodd bynnag, ac er mwyn sicrhau cost-effeithiolrwydd a chyflawni effeithlon, penderfynodd y Cyngor weithredu 11 llain yn y tymor byr, er mwyn diwallu'r angen oedd yn ofynnol hyd at 2022.

**6.3.3** Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr 11 llain yn gynnar yn 2015, a phryd hynny gwnaeth y Cyngor gais am gyllid, a'i sicrhau, o Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Wedi hynny cwblhawyd yr estyniad (11 llain) yng ngwanwyn 2016, yn unol â thelerau'r grant. O ganlyniad, mae targedau'r polisi, sef cyflwyno 4 llain erbyn 2017 a 7 llain erbyn 2022, fel ei gilydd wedi cael eu cyflawni.

**6.3.4** Daeth yr asesiad diweddaraf, Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016, i'r casgliad fod yr 11 llain a ddarparwyd yng Nghae Garw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021.

**6.3.5** Yn ystod y cyfnod monitro, cafwyd 3 enghraifft o wersylla heb awdurdod. Am rai dyddiau yn unig y parhaodd pob gwersyll, ac ni fu angen cymryd camau pellach.

## 6.4 Polisi Strategol 10 Mannau Agored

### Tabl 6.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 46 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai heb roi sylw i anghenion y preswylwyr am fannau agored. | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 48 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Mannau Agored a Mannau Gwyrdd | Cwblhawyd yng Nghyfnod Monitro 2018 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 46: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai heb roi sylw i anghenion y preswylwyr am fannau agored.**

6 Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot (ORS - 2012).

### Tabl 6.4.2 Polisi Strategol SP10 – Mannau Agored

<table>
<tr><th colspan="6">Polisi Strategol SP 10 Dangosydd 46 - Datblygu newydd a darpariaeth mannau agored</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="5">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai heb roi sylw i anghenion y preswylwyr am fannau agored.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="5">OB10</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP10</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td colspan="2">SP2, OS1</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td colspan="2">Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai heb roi sylw i anghenion y preswylwyr am fannau agored.</td><td rowspan="4">Dylai pob datblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle mae diffyg meintiol yn y ddarpariaeth mannau agored</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un cais am ddatblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy nad yw'n darparu ar gyfer man agored lle mae diffyg meintiol yn y ddarpariaeth mannau agored</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.</td></tr>
</table>

### Dadansoddiad

**6.4.1** Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd dau gais heb ddarparu'r gofynion mannau agored (neu swm wedi'i gymudo ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle), er bod y cynigion wedi cyrraedd y trothwy a nodwyd ym Mholisi OS1. Roedd y ddau gais fel ei gilydd yn cyfeirio at ddichonoldeb fel rheswm pam nad oedd cyfraniad ariannol A106 wedi bod yn bosibl. Yn y ddau achos nid oedd modd creu darpariaeth ar y safle gan eu bod yn enghreifftiau o newid defnydd yng nghanol y dref.

**6.4.2** Mae un cais arall, ym Mhontardawe, er nad yw wedi darparu ar gyfer y man agored gofynnol oddi ar y safle ar sail dichonoldeb, wedi darparu ar gyfer man agored cymunedol arloesol ac adeilad cymunedol yn ganolog i'r datblygiad, gan greu peth darpariaeth ar ffurf man agored i'r preswylwyr.

**6.4.3** Er bod y diffyg dichonoldeb yn siom, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle nad oes modd cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodwyd heb beryglu dichonoldeb cyffredinol cynllun datblygu arbennig. Aseswyd yr achosion hyn, ac yn y pen draw roedd y Cyngor yn fodlon bod y datblygwr wedi gallu darparu tystiolaeth na oedd y gofyniad i ddarparu man agored yn ddichonadwy.

**6.4.4** Bernir bod y polisi wedi bod yn gweithio'n unol â'r bwriad yn ystod y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, nododd AMB y llynedd y dylid ailasesu'r polisi fel rhan o broses adolygu'r CDLl, ac mae'r sefyllfa honno'n dal yn berthnasol.

**Dangosydd 47: Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 6.4.3 Polisi Strategol SP10 – Mannau Agored

| Polisi Strategol SP 10 Dangosydd 47 - Diogelu Mannau Agored Presennol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | | | |
| **Amcan** | OB 10 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP10 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2, OS2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais a arweiniodd at golli man agored yn groes i'r fframwaith polisi |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**6.4.5** Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd 3 chais sydd wedi effeithio ar ardaloedd sy'n fannau agored ar hyn o bryd (h.y. lleiniau o dir a nodwyd yn 'Asesiad Mannau Agored' y Cyngor). Ceir manylion llawn y ceisiadau hyn o dan ddangosydd 7 uchod.

**6.4.6** Barnwyd bod yr holl geisiadau wedi cael eu penderfynu yn unol â'r fframwaith polisi.

**Dangosydd 48: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Mannau Agored a Mannau Gwyrdd.**

**6.4.7** Cwblhawyd y CCA Mannau Agored a Mannau Gwyrdd a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. O ganlyniad, nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

# 7 Hybu Economi Gynaliadwy

## 7.1 Polisi Strategol 11 Twf Cyflogaeth

### Tabl 7.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 49 | Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT, lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 50 | Y tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 51 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 52 | Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a'r tir cyflogaeth | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 53 | Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT, cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 54 | Cyfradd diweithdra CNPT, cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 55 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â Datblygu Bae Baglan | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 | Dim angen camau pellach |
| 56 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelir yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT, lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.**

### Tabl 7.1.2 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth

| Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 49 | |
|---|---|
| Dangosydd | Dangosydd Lleol:<br><br>Lefel Cyflogaeth yn y gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br><br>Dangosydd Cyd-destunol |

<table>
<tr><td></td><td colspan="5">Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r<br><br>Deyrnas Unedig<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas<br><br>Unedig.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="5">OB2, OB11, OB12</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP2</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td colspan="2">EC1, EC2, EC3, EC4, EC5, EC6</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td colspan="2">Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4"><u>Dangosydd Lleol:</u><br><br>Lefel cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br><br><u>Dangosydd Cyd-destunol:</u><br><br>Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithlu i Gymru a'r Deyrnas Unedig<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.</td><td rowspan="4"><u>Prif Darged:</u><br><br>Cynnydd net o 3,850 o swyddi hyd at 2026.<br><br><u>Targedau Interim</u>:<br><br>2011/14: - 1458<br><br>2014/17: +1326<br><br>2017/20: +1326<br><br>2020/23: +1326<br><br>2023/26: +1326<br><br><u>Targed Blynyddol:</u><br><br>Cynnydd cyfartalog o 442 swydd y flwyddyn o 2014 a thros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884<br>o swyddi dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td colspan="2" rowspan="4">Mae lefel twf swyddi yn gwyro oddi wrth y targed cronnol o 884 dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, am 2 flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu.</td></tr>
</table>

## Dadansoddiad

**7.1.1** Seiliwyd y CDLl ar fodel sy'n pwysleisio cyflogaeth ac sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynnydd yng nghyfraddau gweithgarwch economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir a nifer y cartrefi newydd sy'n angenrheidiol. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau cyfatebiaeth rhwng y strategaethau tai a chyflogaeth, a pherthynas rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad llafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

**7.1.2** Mae'r model twf economaidd yn rhagweld y bydd 3,850 o swyddi yn cael eu creu dros gyfnod y Cynllun, ac mae twf poblogaeth yr ardal yn deillio o gymhareb y boblogaeth oedran gwaith a'r boblogaeth gyfan. Gan fod twf economaidd yng Nghastell-nedd Port

Talbot wedi aros yn ei unfan cyn dyddiad gwaelodlin y CDLl, roedd y strategaeth â phwyslais economaidd yn gyfle i roi sylw i faterion economaidd allweddol yn y Fwrdeistref Sirol, gan gydnabod y cyfleoedd twf oedd ar gael trwy brosiectau adfywio a seilwaith allweddol. O ganlyniad mae cyflogaeth yn y gweithle, a nifer y swyddi a grewyd, yn un o'r dangosyddion allweddol a fydd yn pennu perfformiad y CDLl, ac yn dylanwadu ar elfennau eraill o'r Cynllun.

**7.1.3** Mae'r model twf economaidd yn rhagweld cynnydd o 3,850 o swyddi dros gyfnod y CDLl, yn codi o 48,200 o swyddi yn 2011 i 52,050 o swyddi yn 2026. Yn ystod Archwiliad Cyhoeddus y CDLl, rhyddhawyd data newydd oedd yn dangos bod cyflogaeth yn y gweithle mewn gwirionedd wedi gostwng o 48,200 yn 2011 i 46,300 yn 2013, a bod hynny'n golygu, os oedd y CDLl i gyrraedd y targed o 52,050 o swyddi yn 2026, fod y targed blynyddol ar gyfer creu swyddi wedi codi o 256 o swyddi bob blwyddyn i 442 o swyddi bob blwyddyn, ac felly y byddai gofyn bod y cynllun yn creu swyddi'n gyflymach yn ystod y blynyddoedd oedd yn weddill. Roedd y targedau yn y fframwaith monitro yn adlewyrchu'r gostyngiad o ran cyflogaeth yn y gweithle rhwng 2011 a 2013, ac yn cynnwys y gofyniad diwygiedig o 442 o swyddi bob blwyddyn.

**7.1.4** Ar ôl mabwysiadu'r CDLl, diwygiwyd y ffigurau ar gyfer 2011 i 2013 yn yr ystadegau nesaf a ryddhawyd, gan ddangos sefyllfa sylfaenol uwch yn 2011 a gostyngiad mwy difrifol yn 2013. Roedd y data a ryddhawyd ar gyfer 2014 yn dangos cynnydd amlwg yn y swyddi, oedd yn gwneud iawn am y gostyngiad sydyn yn 2013, ac yn dangos bod yr ardal o bosibl wedi datblygu sylfaen economaidd fwy cydnerth, sy'n gallu adennill tir, fel y dangosir isod:

**Tabl 7.1.3 Ffigurau Gwreiddiol a Diwygiedig Cyflogaeth yn y Gweithle**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Sefyllfa Wreiddiol** | 48,200 | 49,100 | 46,300 | - |
| **Sefyllfa Ddiwygiedig** | 49,400 | 50,200 | 47,100 | 50,600 |

**7.1.5** O ganlyniad i'r data mwy diweddar a ryddhawyd, mae'r targedau interim yn y fframwaith monitro bellach wedi dyddio; dangosodd targed interim 2011-2014 ostyngiad o -1,458 o swyddi mewn perthynas â'r ffigur gwaelodlin, ond mewn gwirionedd gwelwyd cynnydd o 1,200 o swyddi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ffigurau a ddiweddarwyd, a'r cynnydd yn nifer y swyddi yn ystod cyfnod 2011-14, bellach wedi newid nifer y swyddi blynyddol sy'n angenrheidiol i gyrraedd y targed o 3,850 o swyddi dros gyfnod y Cynllun.

**7.1.6** Gan fod y dangosydd hwn a nifer y swyddi a grewyd yn un o elfennau mwyaf hanfodol strategaeth y CDLl, wrth fonitro'r dangosydd hwn, bernir ei fod yn bwysig edrych ar y data diweddaraf a monitro'r swyddi a grewyd yn erbyn targed cyffredinol y CDLl, sef 3,850 o swyddi. Gan fod 1,200 o swyddi wedi'u creu mewn gwirionedd dros gyfnod 2011-2014, bydd angen llai o swyddi yn ystod gweddill cyfnod y CDLl i gyflawni ei ddyheadau a chyrraedd y targed terfynol o 3,850 o swyddi. Mae'r tabl canlynol yn dangos y targedau a geir yn y fframwaith monitro a'r targedau 'diwygiedig' (sy'n dangos y ffigur dyddiad gwaelodlin diwygiedig, uwch, sef 49,400):

### Tabl 7.1.4 Y Fframwaith Monitro a'r Targedau Diwygiedig

| Y | Y Fframwaith Monitro | Y Sefyllfa Ddiwygiedig |
|---|---|---|
| Swyddi yn 2011 | 49,400 | 49,400 |
| 2011-14 | 47,942 (-1458) | 50,600 (+1,200) |
| 2014-17 | 49,268 (+1326) | 51,262 (+662) |
| 2017-20 | 50594 (+1326) | 51,924 (+662) |
| 2020-23 | 51,920 (+1326) | 52,586 (+662) |
| 2023-26 | 53,246 (+1326) | 53,248 (+662) |
| **Swyddi yn 2026** | **53,250** | **53,250** |
| **Cyfanswm y Newid yn ystod y Cyfnod** | **+3,848** | **+3,846** |

**7.1.7** Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau o ran swyddi ers dyddiad gwaelodlin y CDLl:

### Tabl 7.1.5 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghastell-nedd Port Talbot

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | 49,400 | 50,200 | 47,100 | 50,500 | 50,900 | 50,200 | 46,600 | 49,600 |

**7.1.8** Rhwng 2017 a 2018, bu cynnydd o 3,000 o swyddi, sy'n cynrychioli cynnydd sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, o 46,600 o swyddi i 49,600. Mae hwn yn gynnydd cadarnhaol yn nifer y swyddi, ac yn gwneud iawn am y rhan fwyaf o'r gostyngiad sydyn o 3,600 o swyddi rhwng 2016 a 2017.

**7.1.9** Er bod hwn yn gynnydd cadarnhaol, wrth gymharu ffigurau 2018 â dyddiad gwaelodlin y CDLl, crewyd cyfanswm o 200 o swyddi, gyda nifer y swyddi'n codi o 49,400 yn 2011 i 49,600 yn 2018, sy'n sylweddol is na'r targed o 3,850 o swyddi dros gyfnod y cynllun. Er bod cynnydd o 3,000 o swyddi wedi digwydd ers y cyfnod monitro diwethaf, bu gostyngiad o 600 o swyddi yn ystod y 2 flynedd diwethaf, ac felly cyrhaeddwyd y pwynt sbarduno, a bydd hyn yn derbyn sylw yn yr adolygiad.

### Dangosyddion Cyd-destunol

**7.1.10** Mae gan y dangosydd hwn hefyd nifer o ddangosyddion cyd-destunol i'w monitro. Yn gyntaf y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig, lle mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau ers dyddiad gwaelodlin y CDLl:



### Tabl 7.1.6 Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 1,346,700 | 1,337,300 | 1,365,100 | 1,394,500 | 1,403,800 | 1,408,900 | 1,422,800 | 1,452,100 |
| Y Deyrnas Unedig | 30,137,000 | 30,381,500 | 30,824,000 | 31,465,300 | 32,144,400 | 32,434,800 | 32,914,900 | 33,143,300 |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**7.1.11** Mae'r data'n dangos, ers dyddiad gwaelodlin y CDLI, ein bod wedi gweld cynnydd o 105,400 o swyddi yng Nghymru, sy'n cynrychioli cynnydd o 7.26%. Cynnydd y Deyrnas Unedig oedd 3,006,300 o swyddi, sy'n cyfateb i gynnydd o 9.07%.

**7.1.12** Mae'r dangosyddion cyd-destunol eraill yn canolbwyntio ar gyfradd cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau o ran cyfraddau cyflogaeth rhwng 2011 a 2020:

**Tabl 7.1.7 Cyfradd Cyflogaeth 2011-2018**


| Blwyddyn yn diweddu ar | Castell-nedd Port Talbot | Cymru | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2011 | 63.4% | 66.4% | 70.1% |
| 31 Mawrth 2012 | 60.4% | 66.7% | 69.9% |
| 31 Mawrth 2013 | 65.1% | 67.6% | 70.7% |
| 31 Mawrth 2014 | 67.2% | 69.5% | 71.4% |
| 31 Mawrth 2015 | 67% | 69.3% | 72.6% |
| 31 Mawrth 2016 | 66.7% | 71.1% | 73.6% |
| 31 Mawrth 2017 | 70.7% | 71.5% | 74.0% |
| 31 Mawrth 2018 | 67.5% | 72.8% | 74.8% |
| 31 Mawrth 2019 | 71.8% | 73.1% | 75.2% |
| 31 Mawrth 2020 | 73.1% | 73.7% | 75.9% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg Lleol o'r Gweithwyr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**7.1.13** Mae cyfradd cyflogaeth wedi codi 1.3% yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 2019 a 2020. Yn ystod yr un cyfnod, cododd cyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig hefyd, ond ar gyfradd is o 0.7%, tra bod y gyfradd yng Nghymru wedi codi 0.6%. Wrth edrych yn ôl at ddyddiad gwaelodlin (2011) y cynllun bu cynnydd o 9.7%, o 63.4% yn 2011 i 73.1% yn 2020.

**7.1.14** Mae'r graff sy'n dilyn yn dangos y newidiadau yng nghyfradd cyflogaeth Castell-nedd Port Talbot. Mae cyfradd cyflogaeth y Deyrnas Unedig a Chymru wedi bod yn weddol gyson, ac wedi codi'n sefydlog yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf. Mae'r gyfradd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi amrywio'n llawer mwy yn ystod yr un cyfnod. Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, mae cyfradd cyflogaeth CNPT wedi codi 1.3%, gan gau'r bwlch rhwng CNPT a chyfartaledd Cymru, gan fod CNPT bellach 0.6% yn unig o dan gyfartaledd Cymru, o gymharu â 3% yn 2011. Mae'r bwlch rhwng CNPT a'r Deyrnas Unedig hefyd wedi cau, gan fod CNPT 2.8% yn unig y tu ôl i'r Deyrnas Unedig yn 2020, o gymharu â 6.7% yn 2011.

### Ffigur 7.1 Cyfradd cyflogaeth CNPT, Cymru a'r Deyrnas Unedig – sefyllfa 2020




**Dangosydd 50: Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.**

### Tabl 7.1.8 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth

| **Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 50** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth | | | |
| **Amcan** | OB2, OB11, OB12 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP2 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth | <u>Prif Darged:</u><br><br>Datblygu isafswm o 32 hectar o dir ar y safleoedd canlynol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth hyd at 2026:<br><br>Bae Baglan: 15ha | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn gostwng o dan y targed cronnol o 5ha sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, a hynny 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyffordd 38: 6ha<br><br>AAS Coed Darcy: 4ha<br><br>AAS Glannau'r Harbwr: 7ha<br><br><u>Targedau Interim:</u><br><br>2011/14: 1.7ha (gwirioneddol)<br><br>2014/17: 7.6ha<br><br>2017/20: 7.6ha<br><br>2020/23: 7.6ha<br><br>2023/26: 7.6ha<br><br><u>Targedau Blynyddol:</u><br><br>Datblygu 2.5ha o dir y flwyddyn, ar gyfartaledd, at ddibenion cyflogaeth yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 5ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. | | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

**Dadansoddiad**

**7.1.15** Mae'r fframwaith monitro yn pennu targed o ddatblygu 2.5 hectar (ha) y flwyddyn ar gyfer cyflogaeth ar y safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, gyda thargedau interim o ddatblygu 7.6ha dros bob cyfnod o dair blynedd, fel y nodir yn y tabl uchod.

**7.1.16** Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ni chafwyd ceisiadau datblygu ar unrhyw un o'r safleoedd a ddyrannwyd ym Mholisi EC1. Nod y polisi yw datblygu 2.5ha o dir y flwyddyn, ar gyfartaledd, at ddibenion cyflogaeth ar y pedwar safle cyflogaeth a ddyrannwyd, gyda tharged cronnol o 5ha dros unrhyw gyfnod o ddwy flynedd. Gan na fu datblygu chwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cyrhaeddwyd pwynt sbarduno'r polisi.

**7.1.17** Bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd nawr i ganfod y rhesymau pam mae'r datblygu wedi gostwng o dan y targed, a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.



**Dangosydd 51: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan.**

**Tabl 7.1.9 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth**

| Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 51 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan. | | | |
| **Amcan** | OB2; OB11; OB12 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP11 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan | Prif Darged:<br><br>Datblygu isafswm o **15ha** o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth<br><br>Targedau Interim<br><br>Targedau: 2011/14: 0<br><br>2014/17: 2.7ha<br><br>2017/20: 4.1ha<br><br>2020/23: 4.1ha<br><br>2023/26: 4.1ha<br><br>Targedau Blynyddol:<br><br>Datblygu cyfartaledd o 1.35ha o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth gyda tharged cronnol o 2.7ha o dir i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan yn gwyro oddi wrth y targed cronnol o 2.7ha sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, a hynny 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | (gwyrdd) | |
| | | **AMB 2018** | (melyn) | |
| | | **AMB 2019** | (oren) | |
| **Gweithredu** | (oren) | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**7.1.18** Y targed ar gyfer swm y datblygu ym Mae Baglan (dyraniad EC1/1) dros y cyfnod 2017-2020 yw 4.1ha. Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ni fu datblygu at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan.

**7.1.19** Mae ailddatblygu Bae Baglan yn ddyhead hirdymor sy'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni, a gallai rhannau o'r dyraniad fod yn addas i hwyluso twf yr economi wybodaeth. Gallai'r cynnydd mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesi Prifysgol Abertawe ac yng Nglannau'r Harbwr alw am unedau mwy o faint yn y man, wrth i'r safleoedd hynny barhau i ddatblygu, ac felly

mae Bae Baglan yn darparu lle a seilwaith digonol i ganiatáu iddynt ehangu. Mae'r safle hefyd wedi derbyn statws parth menter, a ddylai annog buddsoddi yn yr ardal.

**7.1.20** Targed y polisi yw datblygu 1.35ha o dir y flwyddyn, ar gyfartaledd, ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth, gyda tharged cronnol o 2.7ha o dir i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. Ni welwyd datblygu ym Mae Baglan bellach ers tair blynedd, a chyrhaeddwyd y pwynt sbarduno ar gyfer y polisi.

**7.1.21** Bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn awr yn digwydd i ganfod y rhesymau pam mae'r datblygu wedi gostwngo dan y targed a bydd y polisi, a'r gofynion tir cyflogaeth i'r dyfodol, yn cael eu hailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 52: Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a'r tir cyflogaeth.**

### Tabl 7.1.10 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth

| Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 52 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a'r tir cyflogaeth | | | |
| **Amcan** | OB2; OB11; OB12 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP2 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EC1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a'r tir cyflogaeth | Prif Darged:<br>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026.<br>Targedau Interim:<br>2011/14: 7,000msg<br>2014/17: 7,000msg<br>2017/20: 7,000msg<br>2020/23: 7,000msg<br>2023/26: 7,000msg<br>Targedau Blynyddol:<br>Datblygu 2,250msg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, ar gyfartaledd, gyda tharged cronnol o 4,500 msg i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae swm yr arwynebedd llawr a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn gostwng o dan y targed cronnol o 4,500msg i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, a hynny 2 flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2017** | (gwyrdd) | |
| | | **AMB 2018** | (melyn) | |
| | | **AMB 2019** | (oren) | |

| Gweithredu | |
|---|---|
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | |

**Dadansoddiad**

7.1.22 Mae'r fframwaith monitro'n pennu targed o ddatblygu 2,250 msg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cyffredinol o 7,000 msg fesul cyfnod interim.

7.1.23 Mae'r tabl canlynol yn dangos y colledion a'r enillion o ran arwynebedd llawr cyflogaeth ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, ac yn darparu'r cynnydd net cyffredinol o ran arwynebedd llawr cyflogaeth fesul cyfnod interim.

**Tabl 7.1.11 Newidiadau yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth fesul Cyfnod Interim**

| Cyfnod Interim | Cynnydd yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG) | Colli Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG) | Cynnydd Net yn yr Arwynebedd Llawr Cyflogaeth (MSG) |
|---|---|---|---|
| 2011/14 | 17,427.5 | 15,084 | 2,343.5 |
| 2014/17 | 13,884.16 | 10,023 | 3,861.16 |
| 2017/20 | 5,251.4 | 3,422.6 | 1,828.8 |

7.1.24 Yn ystod y cyfnod monitro hwn datblygwyd cyfanswm o 3,245.5msg o arwynebedd llawr cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, a chollwyd 800msg, sy'n cyfateb i enillion net o 2445.5msg o arwynebedd llawr, sy'n uwch na'r targed blynyddol o 2,250msg. Fodd bynnag, mae cynnydd cronnol y cyfnod o 2 flynedd yn 3,387.4msg, sy'n is na'r targed o 4,500msg.

7.1.25 Cafodd nifer o adeiladau eu dymchwel yn y cyfnodau interim cynharach, a gynyddodd nifer y colledion. Er bod y rhain yn golledion i'r portffolio cyflogaeth, nid oedd nifer ohonynt bellach yn addas at y diben, ac o ganlyniad mae'n bosibl na chafodd y colledion effaith negyddol ar argaeledd cyffredinol safleoedd cyflogaeth.

7.1.26 Y pwynt sbarduno ar gyfer y polisi yw bod swm yr arwynebedd llawr yn syrthio o dan y gofyniad cronnol o 4,500 msg o arwynebedd llawr cyflogaeth dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, a hynny 2 flynedd yn olynol. Gan fod targed cronnol y 3 blynedd diwethaf wedi gostwng o dan y targed, cyrhaeddwyd pwynt sbarduno'r polisi, a bydd yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 53: Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot a chyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.**

### Tabl 7.1.12 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 53</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4"><u>Dangosydd Lleol:</u><br>Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br><u>Dangosydd Cyd-destunol:</u><br>Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB2; OB11; OB12</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP2</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SP11</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4"><u>Dangosydd Lleol:</u><br>Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br><u>Dangosydd Cyd-destunol:</u><br>Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.</td><td rowspan="4">Codi cyfradd gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Mae cyfradd gweithgarwch economaidd yn gostwng 2 flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.</td></tr>
</table>

## Dadansoddiad

7.1.27 Adeg dyddiad gwaelodlin y CDLl, cyfradd gweithgarwch economaidd Castell-nedd Port Talbot oedd 69.7%, 3% o dan gyfartaledd Cymru, sef 72.7%. Un o amcanion y CDLl yw cynyddu cyfradd gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026 ac alinio â chyfartaledd Cymru.

7.1.28 Yn y flwyddyn gyntaf wedi dyddiad gwaelodlin y CDLl (diwedd Mawrth 2012), roedd cyfradd gweithgarwch economaidd wedi gostwng i 67.9%. Yna cododd y gyfradd yn y flwyddyn ganlynol, ac er bod rhywfaint o amrywio wedi digwydd ers hynny, mae wedi parhau uwchben ffigur cychwynnol y gwaelodlin, sef 69.7%. Ers dyddiad y gwaelodlin, gwelwyd cynnydd yng nghyfradd gweithgarwch economaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig, fel y dangosir yn y tabl isod:

**Tabl 7.1.13 Gweithgarwch Economaidd 2011-2020**


| Blwyddyn yn Diweddu | Castell-nedd Port Talbot | Cymru | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2011 (Dyddiad Gwaelodlin) | 69.7% | 72.7% | 76% |
| 31 Mawrth 2012 | 67.9% | 73% | 76.2% |
| 31 Mawrth 2013 | 70.4% | 73.9% | 76.8% |
| 31 Mawrth 2014 | 74.3% | 75.3% | 77.1% |
| 31 Mawrth 2015 | 71.1% | 74.4% | 77.3% |
| 31 Mawrth 2016 | 71.8% | 75.3% | 77.7% |
| 31 Mawrth 2017 | 74.9% | 74.8% | 77.8% |
| 31 Mawrth 2018 | 72.5% | 76.5% | 78.3% |
| 31 Mawrth 2019 | 74.0% | 76.7% | 78.5% |
| 31 Mawrth 2020 | 76.9% | 76.6% | 79% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Bbolgoaeth / Arolwg o'r Gweithlu Lleol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

**7.1.29** Yn ystod y cyfnod monitro presennol, mae cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi codi 2.9%, o 74% yn 2018/19 i 76.9% yn 2019/20. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru wedi dirywio rhyw fymryn, 0.1%, ac mae cyfartaledd y Deyrnas Unedig wedi codi 0.5%.

**7.1.30** Un o amcanion y CDLl yw alinio cyfradd gweithgarwch economaidd â chyfartaledd Cymru. Er bod amrywiadau wedi digwydd ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, oddi mewn i'r cyfnod monitro presennol mae cyfradd y gweithgarwch economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot 0.3% yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae'r bwlch rhwng Castell-nedd Port Talbot a chyfartaledd y Deyrnas Unedig wedi lleihau i -2.1%, o gymharu â -6.3% adeg y dyddiad gwaelodlin, fel y dangosir yn y graff isod.

**Ffigur 7.2 Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd**




**7.1.31** Cydnabyddir, fodd bynnag, fod cyfraddau gweithgarwch economaidd blynyddol yn destun amrywiadau, felly bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro'n fanwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dangosydd 54: Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig a chyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.**

**Tabl 7.1.14 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth**

| **Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 54** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Dangosydd Lleol:<br><br>Cyfradd diweithdra yng Nghastell-nedd Port Talbot<br><br>Dangosydd Cyd-destunol:<br><br>Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | | |
| **Amcan** | OB2; OB11; OB12 | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP11 | **Polisïau Cysylltiedig** | SP2 |

| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Lleol:<br><br>Cyfradd diweithdra yng Nghastell-nedd Port Talbot<br><br>Dangosydd Cyd-destunol:<br><br>Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra i 6.9% erbyn 2026 | **Mabwysiadu** | 2016 | Mae cyfradd diweithdra'n codi 2 flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

7.1.32 Un o amcanion y CDLl yw lleihau cyfradd diweithdra, ac mae model economaidd y CDLl wedi'i seilio ar ostwng y gyfradd i gyfartaledd hirdymor Cymru, sef 6.9%. Mae'r tabl canlynol yn nodi cyfradd gymharol diweithdra yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cymru a'r Deyrnas Unedig yn eu tro ers dyddiad gwaelodlin y CDLl:

**Tabl 7.1.15 Cyfraddau Cymharol Diweithdra fesul Blwyddyn**

| Blwyddyn yn Diweddu | Castell-nedd Port Talbot | Cymru | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| 31 Mawrth 2012 | 10.8% | 8.4% | 8.1% |
| 31 Mawrth 2013 | 7.4% | 8.3% | 7.8% |
| 31 Mawrth 2014 | 9.3% | 7.4% | 7.2% |
| 31 Mawrth 2015 | 5.6% | 6.7% | 5.9% |
| 31 Mawrth 2016 | 6.9% | 5.4% | 5.1% |
| 31 Mawrth 2017 | 5.5% | 4.4% | 4.7% |
| 31 Mawrth 2018 | 6.6% | 4.9% | 4.3% |
| 31 Mawrth 2019 | 3.0% | 4.5% | 4.1% |
| 31 Mawrth 2020 | 4.8% | 3.7% | 3.8% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg o'r Gweithlu Lleol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)



7.1.33 Ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, mae cyfradd diweithdra'r Deyrnas Unedig wedi bod yn gostwng yn raddol bob blwyddyn, ac mae'r gyfradd yng Nghymru hefyd wedi gostwng yn flynyddol, ac eithrio yn 2017, pan fu cynnydd bychan o 0.5%.

**7.1.34** Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae cyfradd diweithdra wedi amrywio'n fwy ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, ac nid yw wedi dilyn yr un patrwm o ostyngiad graddol ag sydd i'w weld yn ffigurau cyfartalog Cymru a'r Deyrnas Unedig. Yn ystod y cyfnod monitro presennol, cododd cyfradd diweithdra o 3% i 4.8%. Mewn cyferbyniad, mae cyfraddau diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi gostwng 0.8% a 0.3% yn eu tro.

**7.1.35** Er ein bod wedi gweld cynnydd eleni, dylid nodi bod angen trin ffigurau AMB 2019 rywfaint yn wyliadwrus, gan fod y 'Swyddfa Ystadegau Gwladol – ONS' wedi categoreiddio'r data fel deunydd 'o safon isel', gan ei fod wedi'i seilio ar 10-25 o ymatebion i arolwg. Dim ond amcangyfrifon a seiliwyd ar 40 ymateb neu fwy sy'n cael eu categoreiddio'n rhai cadarn, tra bod eitemau data a seiliwyd ar 25-40 o ymatebion yn syrthio i'r categori safon gyfyngedig.

**7.1.36** Er gwaethaf hyn, mae'r gyfradd gyfredol o 4.8% yn sylweddol is nag ar ddechrau cyfnod y CDLl, ac ar hyn o bryd mae amcan y CDLl o sicrhau bod cyfradd diweithdra yn gostwng i 6.9% erbyn 2026 yn cael ei gyflawni.

**Dangosydd 55: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Fframwaith Datblygu Bae Baglan.**

**7.1.37** Cafodd CCA Fframwaith Datblygu Bae Baglan ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**Dangosydd 56: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd yn groes i'r fframwaith polisi.**

**Tabl 7.1.16 Polisi Strategol SP11 – Twf Cyflogaeth**

| Polisi Strategol SP 11 Dangosydd 56 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | 6,11,12 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP2 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EC2, EC3, EC4, EC5 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |

| |
|---|
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. |

**Dadansoddiad**

7.1.38 Mae Polisi EC3 (Defnyddiau Ardal Gyflogaeth) yn cyfyngu defnyddiau oddi mewn i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai a ddyrannwyd i ddosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8, cyfleusterau ategol neu wasanaethau a fyddai'n cefnogi defnyddiau cyflogaeth a gwasanaethau masnachol sydd heb gysylltiad â dosbarth B. Byddai angen i wasanaethau masnachol gydweddu â swyddogaeth economaidd ehangach yr ardal gyflogaeth, ac ni ddylent fod yn ddefnyddiau y byddai'n well eu lleoli yng nghanol trefi.

7.1.39 Yn ystod y cyfnod monitro, ni chafwyd ceisiadau oddi mewn i ardal gyflogaeth a ddiogelwyd y gellid barnu eu bod yn groes i'r fframwaith polisi.

## 7.2 Polisi Strategol 12 Manwerthu

### Tabl 7.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 57 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 58 | Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 57: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.**

### Tabl 7.2.2 Polisi Strategol SP12 - Manwerthu

| Polisi Strategol SP 12 Dangosydd 57 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd. | | | |
| Amcan | OB13 | | | |
| Polisïau Allweddol | SP12 | Polisïau Cysylltiedig | | SP2; R2; R3 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd. | Peidio â chaniatáu ceisiadau ar gyfer datblygu manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi. | Mabwysiadu | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**7.2.1** Cymeradwywyd dau gais cynllunio cysylltiedig â darparu safleoedd manwerthu newydd (Dosbarth Defnydd A1) yn ystod y cyfnod monitro.

**7.2.2** Cyflwynwyd un cais ar gyfer adfer, ailadeiladu'n rhannol ac ailddefnyddio hen Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot. Mae hyn yn ymwneud â darparu caffi, campfa, neuadd a dwy uned fanwerthu (A1, A2 neu A3) yn yr adeilad a ailadeiladwyd yn rhannol. Er ei fod y tu allan i'r ganolfan fanwerthu ddynodedig, mae'r defnyddiau manwerthu a gynigir i fod mewn dwy uned siop wreiddiol, ac mae'r adeilad yn agos at y ganolfan fanwerthu. Barnwyd bod y cynnig yn unol â'r fframwaith polisi.

**7.2.3** Roedd yr ail gais yn dymuno rheoleiddio sefydlu siop trin gwallt ym Mlaendulais, oedd o fewn y terfyn maint i gyd-fynd â darpariaethau Polisi R3, ac felly'n unol â'r fframwaith polisi. O ganlyniad nid oes ceisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 58: Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd.**

### Tabl 7.2.3 Polisi Strategol SP12 - Manwerthu

| Polisi Strategol SP 12 Dangosydd 58 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | | | |
| **Amcan** | OB13 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP12 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; R3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | **Mabwysiadu** | 2016 | Dim cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd am 2 flynedd yn olynol. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

**7.2.4** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â chynigion manwerthu 'graddfa fach'. Mae hyn yn dilyn geiriad polisi strategol 12, sy'n cael ei weithredu trwy bolisi manwerthu R3, sy'n pennu trothwyon o arwynebedd llawr gros 100m$^2$ yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir a 200m$^2$ yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Mae'r trothwyon hyn, felly, yn diffinio maint safleoedd 'graddfa fach' ar gyfer y ddwy ardal.

**7.2.5** Fel y nodwyd uchod, gwnaed un cais am gynnig dosbarth defnydd A1 (manwerthu) yn ystod y cyfnod monitro oedd yn syrthio o fewn y diffiniad uchod o raddfa fach. Mae hyn yn gynnydd ers y cyfnod monitro diwethaf (2018/19), pan na fodlonodd unrhyw geisiadau'r diffiniad.

**7.2.6** Bernir felly nad oes angen gweithredu pellach ar hyn o bryd, a bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn ystod y flwyddyn nesaf.

## 7.3 Polisi Strategol 13 Twristiaeth

### Tabl 7.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 59 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 60 | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach, Monitro i barhau |
| 61 | Datblygu ystod o lwybrau cerdded a beicio gwell. | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 | Dim angen camau pellach. |

**Dangosydd 59: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 7.3.2 Polisi Strategol SP13 - Tourism

| Polisi Strategol SP 13 Dangosydd 59 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| Amcan | OB14 | | | |
| Polisïau Allweddol | SP13 | Polisïau Cysylltiedig | | T01 |
| Dangosydd | Targed | Canlyniad | | Pwynt Sbarduno |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim cynigion twristiaeth i gael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | Mabwysiadu | 2016 | Caniatáu un cais ar gyfer cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | AMB 2017 | | |
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Dim angen camau pellach, Monitro i barhau | | | | |

### Dadansoddiad

**7.3.1** Cymeradwywyd dau gais cynllunio yn ymwneud â darparu cyfleusterau twristiaeth newydd yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y ceisiadau'n ymwneud â darparu llety gwyliau posibl i dwristiaeth, a gwersyllfa fach.

**7.3.2** Roedd y ddau gais yn unol â'r fframwaith polisi ac yn cefnogi'r sector twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad nid oes ceisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 60: Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 7.3.3 Polisi Strategol SP13 - Twristiaeth

| Polisi Strategol SP 13 Dangosydd 60 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | | | |
| **Amcan** | OB14 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP13 | **Polisïau Cysylltiedig** | | T02 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim cyfleusterau twristiaeth yn cael eu colli yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach, Monitro i barhau | | | | |

### Dadansoddiad

**7.3.3** Cymeradwywyd un cais cynllunio oddi mewn i'r cyfnod monitro a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth, yng nghyswllt newid defnydd safle gwely a brecwast yn gartref gofal. Barnwyd bod hynny'n unol â'r fframwaith polisi.

**Dangosydd 61: Datblygu ystod o lwybrau cerdded a beicio gwell.**

**7.3.4** Cwblhawyd y llwybrau cerdded a beicio yng nghyfnod monitro 2017 – nid oes angen monitro/gweithredu pellach.

# 8 Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd

## 8.1 Polisi Strategol 14 Cefn Gwlad a'r Arfordir heb ei Ddatblygu

### Tabl 8.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig, ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 63 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Tirlun a'r Morlun | Cyhoeddwyd y CCA yn 2018 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 62: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig, ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 8.1.2 Polisi Strategol SP14 – Cefn Gwlad a'r Arfordir heb ei Ddatblygu

| Polisi Strategol SP 14 Dangosydd 62 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig, ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB15 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP14 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EN1, EN2, EN3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig, ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim caniatâd i geisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | | | | |

### Dadansoddiad

**8.1.1** Cymeradwywyd cyfanswm o 6 chaiss ar gyfer datblygiadau perthnasol i'r dangosydd hwn yn ystod y cyfnod monitro. Roedd pedwar o'r ceisiadau ar gyfer cynigion a leolwyd mewn Ardaloedd Tirlun Arbennig (ATAoedd)(Polisi EN2), tra bod un ar gyfer cynnig mewn Lletem Las (Polisi EN3) ac un ar gyfer datblygiad yn rhannol ar yr Arfordir dynodedig heb ei Ddatblygu (Polisi EN1).

**8.1.2** Roedd y ceisiadau mewn ATAoedd i gyd ar gyfer adeiladau newydd neu newidiadau i adeiladau oedd yn cael eu hystyried yn dderbyniol o ran y tirlun. Roedd y cynnig ar yr Arfordir dynodedig heb ei Ddatblygu ar gyfer gwaith ar yr amddiffynfeydd rhag y môr ar Draeth Aberafan, un o'r categorïau datblygu cyfyngedig iawn sy'n dderbyniol o dan y polisi (EN1).

**8.1.3** Roedd y cais arall yn fwy arwyddocaol ac yn ymwneud ag adeiladau amnewid ar gyfer Ysgol Gyfun Cefn Saeson, Cimla. Mae'r adeiladau newydd i gael eu codi ar feysydd chwarae'r ysgol, ond mae hynny'n golygu datblygu ar Letem Las Castell-nedd /Tonna/Cimla/Efail Fach, yn groes i Bolisi EN3. Cydnabuwyd hyn yn Adroddiad y Swyddog ynghylch y penderfyniad, ond daethpwyd i'r casgliad bod amgylchiadau eithriadol (gan gynnwys yr angen am yr ysgol newydd a'r cyfyngiadau penodol ar yr opsiynau oedd ar gael yn yr achos hwn) yn gorbwyso polisi'r CDLl a'r niwed a fyddai'n cael ei achosi. O ganlyniad, cymeradwywyd y cais yn groes i Bolisi EN3 ac mae'r penderfyniad felly yn gais pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**8.1.4** Nododd AMB y llynedd hefyd geisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn (polisïau EN2 ac EN3). Mae'r penderfyniad uchod, felly yn gais pwynt sbarduno pellach ar gyfer Dangosydd 62, a bydd angen ailasesu Polisïau SP14, EN2 ac EN3 fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 63: Paratoi CCA yn ymwneud â'r tirlun a'r morlun.**

**8.1.5** Cwblhawyd CCA y Tirlun a'r Morlun ym mis Mai 2018. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

## 8.2 Polisi Strategol 15 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

### Tabl 8.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 65 | Paratoi Canllaw Cynllun Atodol yn ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | Cyhoeddwyd y CCA yn 2018 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 64: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 8.2.2 Polisi Strategol SP15 – Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

| Polisi Strategol SP 15 Dangosydd 64 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | | | |
| **Amcan** | OB15 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP15 | **Polisïau Cysylltiedig** | | EN6 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**821** Ni chafodd ceisiadau cynllunio eu derbyn/cymeradwyo mewn unrhyw safleoedd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro. O ganlyniad, mae targed y polisi hwn wedi cael ei gyflawni.

**Dangosydd 65: Paratoi CCA yn ymwneud â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth.**

**8.2.2** Cwblhawyd y CCA Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth a'i gyhoeddi ym mis Mai 2018. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

## 8.3 Polisi Strategol 16 Diogelu'r Amgylchedd

### Tabl 8.3.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 68 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Llygredd | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 | Dim angen camau pellach |
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd tawel dynodedig | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) yn groes i'r fframwaith polisi.**

### Tabl 8.3.2 Polisi Strategol SP16 – Diogelu'r Amgylchedd

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 16 Dangosydd 66</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB16; OB17</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP16</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td>SP2; EN8</td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi.</td><td rowspan="4">Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd, ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.</td></tr>
</table>

**Dadansoddiad**

**8.3.1** Cymeradwywyd dau gais sylweddol ar safleoedd yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) Port Talbot yn ystod y cyfnod monitro, ar gyfer ailadeiladu ac ailddefnyddio hen sinema'r Plaza gynt ac adeiladu annedd oddi mewn i ardd eiddo oedd eisoes yn bodoli.

**8.3.2** Barnwyd bod y ddau ddatblygiad yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi, gan gynnwys Polisi EN8 ac o ganlyniad nid oes angen gweithredu pellach mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

**Dangosydd 67: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw.**

**Tabl 8.3.3 Polisi Strategol SP16 – Diogelu'r Amgylchedd**

| **Polisi Strategol SP 16 Dangosydd 67** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw. | | | |
| **Amcan** | OB16; OB17 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP16 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; EN9 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu i gyd-fynd â nhw. | Ni ddylai fod achosion o fynd dros y trothwyon ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno. | **Mabwysiadu** | 2016 | Un achos neu fwy o fynd dros y trothwyon ansawdd awr yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**8.3.3** Mae'r ddau gais sy'n berthnasol i Ddangosydd 66 uchod hefyd yn berthnasol i Ddangosydd 67 (h.y. cynigion oddi mewn i ARhAA Port Talbot, neu o fewn 500m i'r ffin) er bod un ar gyfer annedd fechan ar lain bach, lle na fyddai Cynlluniau Rheoli Adeiladu (CRhA) yn ofynnol o dan Bolisi EN9 yn unol â'r CCA Llygredd a fabwysiadwyd.
Cymeradwywyd nifer o geisiadau eraill ar safleoedd o fewn 500m i ffin yr ARhAA, ond roedd y rhain i gyd ar gyfer newidiadau defnydd, ac eto ni fyddai CRhAiau yn ofynnol.

8.3.4 Cymeradwywyd y cais oedd yn weddill (ar gyfer ailadeiladu Sinema'r Plaza) ar yr amod bod CRhA yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo cyn i unrhyw waith gychwyn ar y safle. Nid yw'r cynnig hwn, felly, yn gais pwynt sbarduno ar gyfer y pwnc hwn, ac o ganlyniad ni chafodd unrhyw geisiadau eu cyflwyno na'u cymeradwyo sy'n berthnasol i'r dangosydd hwn.

**Dangosydd 68: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Llygredd.**

8.3.5 Cwblhawyd y CCA Llygredd a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**Dangosydd 69: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig.**

### Tabl 8.3.4 Polisi Strategol SP16 – Diogelu'r Amgylchedd

| **Polisi Strategol SP 16 Dangosydd 69** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig. | | | |
| **Amcan** | OB2; | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP16; EN10 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

8.3.6 Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o fewn y cyfnod monitro ar gyfer cynigion mewn unrhyw Ardal Dawel, felly nid oedd unrhyw geisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn.

## 8.4 Polisi Strategol 17 Mwynau

### Tabl 8.4.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 70 | Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 71 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 72 | Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau oedd heb gydymffurfio â Pholisi M2 | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 73 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 70: Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).**

### Tabl 8.4.2 Polisi Strategol SP17 - Minerals

| Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 70 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN) | Mae cronfa dir 10 mlynedd o gerrig mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y Cynllun. | **Mabwysiadu** | 2016 | Ni chedwir cronfa dir 10 mlynedd ar hyd cyfnod y Cynllun. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |

| |
|---|
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau |

**Dadansoddiad**

8.4.1 Y diffiniad o gronfa dir yw stoc o ganiatâd cynllunio ar gyfer sicrhau a gweithio mwynau. Cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cwmpas y gronfa dir cerrig mâl yn Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019).

8.4.2 Cyfrifwyd ffigurau'r gronfa dir yn ôl y dull a gyflwynwyd yn MTAN1 (Agregau) ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant y 3 blynedd diwethaf (h.y. ni chaniatawyd lwfans am y tueddiadau o ran y galw). Mae'r adroddiad yn nodi bod gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur cronfa dir o fwy na 50 mlynedd, ar sail gwerthiant 3 blynedd cyfartalog (2016-2018).

8.4.3 Roedd Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014) yn barnu mai doeth fyddai ystyried cyfartaledd 10 mlynedd yn waelodlin mwy dibynadwy nag un 3 blynedd. O ganlyniad, mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur cronfa tir o 41 mlynedd ar sail cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd (2009-2018).

8.4.4 O ganlyniad, cyflawnwyd gofynion y dangosydd hwn.

**Dangosydd 71: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.**

### Tabl 8.4.3 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

| **Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 71** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau. | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | M1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau. | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

8.4.5 Mae'r dangosydd hwn yn monitro nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau. Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys adnoddau mwynau helaeth, gan fod adnoddau glo ac agregau o dan y Fwrdeistref Sirol gyfan, fwy neu lai. Er gwaethaf hynny, mae'n bwysig bod mynediad at waddodion mwynau y gallai fod angen amdanynt yn y dyfodol yn cael ei ddiogelu (wrth symud ymlaen, ni fydd hyn yn cynnwys glo).

8.4.6 Caniatawyd cyfanswm o 12 cais mewn ardaloedd diogelu mwynau (Polisi M1) yn ystod y cyfnod monitro. Mae adolygiad o'r ceisiadau hyn wedi dangos bod un caniatâd wedi'i roi ar ôl ystyried yn benodol yr effaith ar yr adnodd mwynol islaw, a barnu mai bach iawn fyddai hynny. Ym mhob achos arall, nid oedd yr un o'r cynigion ar raddfa nac mewn lleoliad a fyddai'n cael effaith sylweddol ar weithio'r mwyn yn y dyfodol (h.y. roedd mwyafrif llethol y cynigion wedi'u lleoli mewn adeiladau neu gyfadeiladau oedd eisoes yn bodoli).

8.4.7 Barnwyd, felly, bod yr holl geisiadau a gymeradwywyd yn unol â'r fframwaith polisi ac nid oes ceisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 72: Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2.**

### Tabl 8.4.4 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

| Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 72 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2. | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | M2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2. | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

8.4.8 Mae targed a phwynt sbarduno'r dangosydd hwn yn ymwneud â cheisiadau am weithgareddau ar yr wyneb sy'n gysylltiedig ag echdynnu glo. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod monitro hwn, felly nid oes ceisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 73: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau.**

### Tabl 8.4.5 Polisi Strategol SP17 - Mwynau

| Polisi Strategol SP 17 Dangosydd 73 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau. | | | |
| **Amcan** | OB18 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP17 | **Polisïau Cysylltiedig** | | M3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau. | Ni chaniateir cais yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**8.4.9** Mae'r dangosydd yn ymwneud â nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn parthau clustogi mwynau (Polisi M3). Nod parthau clustogi, a bennwyd o amgylch safleoedd mwynau presennol ac arfaethedig, yw: i) diogelu'r gwaith mwynau rhag defnyddiau newydd sensitif fel datblygiad preswyl trwy sefydlu pellter gwahanu rhwng y defnyddiau a allai wrthdaro, a ii) sicrhau na fyddai unrhyw ddatblygiad newydd yn peryglu echdynnu'r cronfeydd a ganiateir na gweithrediad y safle yn y dyfodol.

**8.4.10** Ni dderbyniwyd ceisiadau o fewn y cyfnod monitro ar gyfer ceisiadau mewn parth clustogi, felly nid oedd ceisiadau perthnasol i'r dangosydd hwn.

## 8.5 Polisi Strategol 18 Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

### Tabl 8.5.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 74 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Mae angen gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach |
| 75 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 76 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.**

### Tabl 8.5.2 Polisi Strategol SP18 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

<table>
<tr><th colspan="5">Polisi Strategol SP 18 Dangosydd 74</th></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td colspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">OB 19</td></tr>
<tr><td>Polisïau Allweddol</td><td>SP18; RE1</td><td colspan="2">Polisïau Cysylltiedig</td><td></td></tr>
<tr><td>Dangosydd</td><td>Targed</td><td colspan="2">Canlyniad</td><td>Pwynt Sbarduno</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel.</td><td rowspan="4">Cyflawni targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog pob math o ddatblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel, lle bo hynny'n briodol.</td><td>Mabwysiadu</td><td>2016</td><td rowspan="4">Ni chofnodir cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd.</td></tr>
<tr><td>AMB 2017</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2018</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 2019</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredu</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach.</td></tr>
</table>

### Dadansoddiad

**8.5.1** Cymeradwywyd dau gais yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy/carbon isel, sef gwaith cynhyrchu pŵer bio-mas a chynllun paneli ffotofoltaig oedd â batrïoedd wedi'u gosod ar gyfer storio. Cymeradwywyd cais pellach am fferm wynt gydag 11 tyrbin mewn egwyddor, yn amodol ar lofnodi Cytundeb Cyfreithiol Adran 106, ond ni chafodd ei gwblhau yn ystod y cyfnod monitro.

8.5.2 Yn ystod cyfnod monitro 2018/19 caniatawyd tri chais ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy/carbon isel, ac felly mae'r cynigion uchod yn cyfateb i ostyngiad yn nifer y cynlluniau a ganiatwyd. O ganlyniad, ni fu cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd, ac mae hynny'n golygu ein bod wedi cyrraedd y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

8.5.3 Mae hyn yn debygol o fod wedi digwydd, yn rhannol o leiaf, o ganlyniad i ffactorau tu allan i reolaeth polisi CDLl a'r system gynllunio, ond bydd angen gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach i asesu a fyddai newidiadau i bolisi'r CDLl yn effeithiol neu'n briodol er mwyn ceisio annog mwy o gynigion ynni adnewyddadwy/carbon isel i ddod gerbron.

**Dangosydd 75: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy.**

### Tabl 8.5.3 Polisi Strategol SP18 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

| Polisi Strategol SP 18 Dangosydd 75 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy. | | | |
| **Amcan** | OB19 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP18; | **Polisïau Cysylltiedig** | | RE2 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy. | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

## Dadansoddiad

8.5.4 Cafodd chwe datblygiad oedd yn cyrraedd y trothwy ym Mholisi RE2 ar gyfer cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain yn cynnwys cynllun Sinema'r Plaza, y datblygiad tai newydd ym Mhorth Treftadaeth Llandarcy, datblygiadau ysgol newydd ac adeiladau newydd ar Gampws y Bae, Prifysgol Abertawe. Ym mhob achos, cyflwynwyd AYA neu lluniwyd amodau. Yn achos y datblygiadau ar Gampws y Bae, roedd y cynlluniau ynni adnewyddadwy yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol y cytunwyd arni ar gyfer y safle.

8.5.5 O ganlyniad, cyflawnwyd gofynion y dangosydd hwn.

**Dangosydd 76: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.**

8.5.6 Cwblhawyd y CCA Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

## 8.6 Polisi Strategol 19 Rheoli Gwastraff

### Tabl 8.6.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 77 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 78 | Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 79 | Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 77: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle.**

### Tabl 8.6.2 Polisi Strategol SP19 – Rheoli Gwastraff

| Polisi Strategol SP 19 Dangosydd 77 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle | | | |
| **Amcan** | OB20 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP19 | **Polisïau Cysylltiedig** | | W3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle | Dylai pob cynnig datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**8.6.1** Yn ystod y cyfnod monitro roedd 7 cais yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP). Yn unol â Pholisi W3 roedd gan bob un o'r ceisiadau hyn SWMP oedd yn rhoi sylw i'r cyfnod adeiladu yn ogystal â meddiant/gweithrediad y safle wedi hynny. O ganlyniad, cyflawnwyd gofynion y dangosydd hwn.

**Dangosydd 78: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth.**

### Tabl 8.6.3 Polisi Strategol SP19 – Rheoli Gwastraff

| Polisi Strategol SP 19 Dangosydd 78 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | | | |
| **Amcan** | OB20 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP19 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff | **Mabwysiadu** | 2016 | Gwrthod un cais ar safle cyflogaeth y barnwyd ei fod yn addas ar gyfer gwastraff |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**8.6.2** Mae targed a phwynt sbarduno'r dangosydd hwn yn ymwneud â cheisiadau cysylltiedig â rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth. Ni chafodd unrhyw geisiadau cysylltiedig â gwastraff eu derbyn na'u penderfynu yn ystod y cyfnod monitro oedd yn ymwneud â thir cyflogaeth a ddyrannwyd a/neu a ddiogelwyd, ac felly nid oes ceisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 79: Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.**

### Tabl 8.6.4 Polisi Strategol SP19 – Rheoli Gwastraff

| Polisi Strategol SP 19 Dangosydd 79 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | | | |
| **Amcan** | OB20 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP19 | **Polisïau Cysylltiedig** | | |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | **Mabwysiadu** | 2016 | Sefydlwyd y pwynt sbarduno ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21 |
| | | **AMB 2017** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | AMB 2018 | | |
| | | AMB 2019 | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**8.6.3** Mae'r targed ar gyfer y dangosydd hwn yn ymwneud â chynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff a gynhyrchwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn dangos bod angen cydweithio rhanbarthol i sefydlu rhwydwaith integredig, digonol o gyfleusterau ar gyfer gwaredu ac adennill gwastraff, ac ar gyfer trefniadau monitro ar y cyd ar draws y rhanbarth.

**8.6.4** Ymhlith y cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n weithredol ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd Port Talbot mae'r Ganolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni (MREC) yn Nhwyni Crymlyn, nifer o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff o'r Cartref, a nifer o gyfleusterau eraill sydd yng ngofal cyrff preifat, gan gynnwys Safle Tirlenwi Pwllfawatkin, Cwmgors.

**8.6.5** O ran capasiti tirlenwi sy'n weddill, cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf yn 'Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) 2019' rhanbarth De-orllewin Cymru. Ar hyn o bryd, rhagwelir bod capasiti tirlenwi'r rhanbarth yn 11.2 o flynyddoedd. Er bod hyn yn dal uwchben y trothwyon a nodwyd yn TAN 21, lle gallai fod angen gweithredu i hwyluso darpariaeth i'r dyfodol, dylid nodi bod y ffigur hwn yn dibynnu ar sawl rhagdybiaeth, megis amgylchiadau unigol y cyfleusterau tirlenwi sy'n weithredol ar hyn o bryd (e.e contractau posibl yn dod i ben), safleoedd tirlenwi newydd neu weithfeydd trin gwastraff gweddilliol amgen yn dod yn weithredol, a gostyngiad yn union symiau'r gwastraff gweddilliol a gynhyrchir.

**8.6.6** Mewn perthynas â chyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau, mae'r defnydd o dir cyflogaeth yn cael ei fonitro'n benodol gan ddangosyddion 50, 51, 52 a 56 yn eu tro. Ar sail y monitro hyd yma, a hefyd y rhwydwaith o gyfleusterau sydd eisoes yn bodoli ac yn weithredol ar hyn o bryd, bernir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio gyda'r deilliannau gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**8.6.7** Ar y sail hon, bernir bod gofynion y dangosydd hwn wedi cael eu cyflawni. Bydd y dangosyddion economaidd y cyfeiriwyd atynt uchod, ynghyd â datblygiadau cysylltiedig â gwastraff sy'n cael eu cyflwyno, yn parhau i gael eu monitro yn ystod y flwyddyn nesaf. Rhoddir sylw arbennig hefyd i'r wybodaeth a'r arweiniad a gyhoeddir mewn WPMRs ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru yn y dyfodol.

# 9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

## 9.1 Polisi Strategol 20 Rhwydwaith Trafnidiaeth

### Tabl 9.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 80 | Cyflwyno Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4); Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 81 | Cyflwyno'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach |
| 82 | Cwblhau Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 83 | Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam | Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu |
| 84 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Safonau Parcio | Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2017 | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 80: Cyflwyno Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4); Ffordd yr Harbwr (FfDdY).**

### Tabl 9.1.2 Polisi Strategol SP20 – Rhwydwaith Trafnidiaeth

| Polisi Strategol SP 20 Dangosydd 80 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cyflwyno Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4); a Ffordd yr Harbwr. | | | |
| **Amcan** | OB21; OB22 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP20 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; TR1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Cyflwyno Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4); a Ffordd yr Harbwr. | 1. Cyflwyno Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan erbyn 2015. 2. Cyflwyno Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â theleraui'r Cytundeb A106. 3. Cyflwyno Ffordd Amazon (Cyfnod 2) erbyn 2014. 4. Cyflwynir y gwelliannau i | **Mabwysiadu** | 2016 | 1. WEDI CWBLHAU.<br>2. Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy wedi'i chwblhau cyn llenwi tŷ rhif 501 neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddaw gyntaf.<br>3. WEDI CWBLHAU. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gyffordd 43 (yr M4) yn unol â thelerau'r Cytundeb A106. 5. Cyflwynir Ffordd yr Harbwr (FfDdY) erbyn 2014. | | | 4. Nid yw'r gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn cael eu cyflwyno'n unol â thelerau'r Cytundeb A106 (yn cael ei adeiladu yn 2015).<br>5. WEDI CWBLHAU |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu. | | | | |

## Dadansoddiad

**9.1.1** Mae'r tri chynllun canlynol wedi'u cwblhau: *Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan* (cwblhawyd yn 2015); *Ffordd Amazon (Cyfnod 2)* (cwblhawyd yn 2013); a *Ffordd yr Harbwr (FfDdY)* (cwblhawyd yn 2014).

**9.1.2** Gan fod *Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy (SAR)* heb ei chwblhau eto, mae hynny'n bwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyngor a St Modwen Developments Ltd (SMDL) i asesu cadernid y Cytundeb Cyfreithiol A106 i gefnogi datblygu preswyl pellach yn rhan ogleddol y safle, lle mae cyfnod cyntaf y datblygu preswyl wedi cychwyn, a'i allu i ganiatáu cychwyn ail haen o ddatblygu yn yr ardal ddeheuol.

**9.1.3** Mae'r Cyngor ac SMDL wedi dod i gytundeb mewn egwyddor i ymgorffori pwynt sbarduno diwygiedig ar gyfer cyflawni'r SAR. Bydd y diwygio hwn yn caniatáu datblygu Coed Darcy mewn dau fan, fel bod modd cynyddu nifer yr unedau preswyl sy'n cael eu cwblhau ar gyfer eu meddiannu.

**9.1.4** Mae'r Cytundeb A106 presennol hefyd yn galw am gyfres o *welliannau i Gyffordd 43 o'r M4*, a'r ffordd sy'n cysylltu'r cynllun â'r gyffordd, sef y Ffordd Fynediad Ogleddol (NAR), fel y'i gelwir. Mae gwaith eisoes wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â chyfnodau cyntaf y gwaith gwella.

**9.1.5** Mae'r Cyngor ac SMDL hefyd wedi cytuno mewn egwyddor i ymgorffori terfynau amser diwygiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith ar Gyffordd 43 yn raddol. Yn syml, bydd y newidiadau'n addasu cyfnodau cyflwyno'r gwaith, er mwyn cynyddu'r capasiti posibl ar gyfer traffig ychwanegol o'r safle i Gyffordd 43 yn gynharach, fel bod modd adeiladu nifer uwch o anheddau preswyl cyn adeiladu'r ddolen gyswllt strategol â'r briffordd fydd yn cysylltu C43 â'r A483 (Ffordd Fabian), ar hyd y Ffordd Fynediad Ddeheuol (gweler uchod) – h.y. bydd cyfran uwch o'r traffig yn cael cyfarwyddyd i ddod i mewn ac allan o'r safle o'r gogledd yn y tymor byrrach, a bydd cyfnodau'r gwelliannau i'r briffordd yn cael eu hailbroffilio i hwyluso hynny. Mae'n debygol y bydd Asesiad Effaith Traffig pellach yn cael ei gynnal yn y dyfodol i benderfynu a ddylid gwneud gwaith pellach ar Gyffordd 43.

9.1.6 O ganlyniad, bydd cyflwyno Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy (Polisi TR1/2) a Gwelliannau i Gyffordd 43, yr M4 (Polisi TR1/4) yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 81: Cyflwyno'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot.**

### Tabl 9.1.3 Polisi Strategol SP20 – Rhwydwaith Trafnidiaeth

| Polisi Strategol SP 20 Dangosydd 81 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cyflwyno'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot. | | | |
| **Amcan** | OB6 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP20 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2; TR1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Cyflwyno'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot. | Cyflawni'r prosiect erbyn 2018. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig yn cael ei gyflwyno erbyn 2018. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| CWBLHAWYD – Nid oes angen gweithredu pellach. | | | | |

### Dadansoddiad

9.1.7 Cwblhawyd yng nghyfnod monitro 2018 – dim angen monitro na gweithredu pellach.

**Dangosydd 82: Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan).**

### Tabl 9.1.4 Polisi Strategol SP20 – Rhwydwaith Trafnidiaeth

| Polisi Strategol SP 20 Dangosydd 82 | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | 1. Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman. 2. Cwblhau Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) | | |
| **Amcan** | 1. Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014. 2. Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013. | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP20 | **Polisïau Cysylltiedig** | Sp2; TR1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | **Pwynt Sbarduno** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman.<br>2. Cwblhau Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) | 1. Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014. 2. Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013. | **Mabwysiadu** | 2016 | 1. WEDI CWBLHAU YN RHANNOL<br>2. WEDI CWBLHAU |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | | | | |

**Dadansoddiad**

**9.1.8** Cwblhawyd Llwybr Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) yn 2013.

**9.1.9** Mae'r gwaith o ddylunio ac adeiladu Llwybr Beicio Dyffryn Aman wedi cael ei wneud ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Caerfyrddin, fesul cyfnod, dros nifer o flynyddoedd. Ar hyn o bryd mae pum cyfnod wedi'u cwblhau, ac mae'r ddau sy'n weddill naill ai ar waith neu'n destun trafodaethau gyda thirfeddianwyr.

**9.1.10** Cafodd adran 'Golchfa'r Efail', yn agos at y ffin weinyddol ym Mrynaman, ei chwblhau'n rhannol trwy adeiladu pont newydd dros yr afon. I orffen yr adran hon mae angen adeiladu llwybr beicio byr o'r bont i brif heol yr A4069, Heol yr Orsaf, ac mae trafodaethau'n parhau gyda pherchennog y tir. Mae'r adran 'Cwmllynfell i Gwmtwrch' hefyd wedi gwneud cynnydd, gan fod y dyluniad rhagarweiniol wedi'i gwblhau a bod trafodaethau cychwynnol ar waith gyda thirfeddianwyr.

**9.1.11** Fodd bynnag, gan fod Llwybr Beicio Dyffryn Aman heb ei gwblhau eto, mae'n bwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. O ganlyniad, bydd cyflwyno Llwybr Beicio Dyffryn Aman (Polisi TR1/7) yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

## Dangosydd 83: Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam.

### Tabl 9.1.5 Polisi Strategol SP20 – Rhwydwaith Trafnidiaeth

| **Polisi Strategol SP 20 Dangosydd 83** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam. | | | |
| **Amcan** | OB21; OB22 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP20 | **Polisïau Cysylltiedig** | | SP2 and TR1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam. | Cyflawni'r prosiect erbyn 2020. | **Mabwysiadu** | 2016 | Nid yw'r cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) yn cael ei gyflawni erbyn 2020. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | AMB 2019 | | |
| Gweithredu | | | | |
| Bydd y Polisi yn destun proses adolygu. | | | | |

**Dadansoddiad**

9.1.12 Bu diffyg cynnydd hyd yma yng nghyswllt y cynllun hwn. Bernir ei fod yn annhebygol y bydd y cyfleuster yn cael ei gyflwyno'n unol â'r fframwaith monitro, a bydd yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

**Dangosydd 84: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â Safonau Parcio.**

9.1.13 Cafodd y CCA Safonau Parcio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

# 10 Parchu Unigrywiaeth

## 10.1 Polisi Strategol 21 Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

### Tabl 10.1.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesiad | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 86 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau |

**Dangosydd 85: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.**

### Tabl 10.1.2 Polisi Strategol SP21 – Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol

| Polisi Strategol SP 21 Dangosydd 85 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion sydd â phwyslgrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | | | |
| **Amcan** | OB23; OB24 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP21 | **Polisïau Cysylltiedig** | | BE2; BE3 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Un cais datblygu yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**10.1.1** Mae'r dangosydd hwn yn cyfeirio at Bolisïau BE2 a BE3 sy'n ymwneud ag Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BE2) a'r Rhwydwaith Camlesi (BE3). Mabwysiadwyd y rhestr o Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BLIs) yn ffurfiol fel rhan o CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Ebrill 2019 (gweler Dangosydd 86 isod). Cymeradwywyd chwe chais arwyddocaol oedd yn effeithio ar Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol yn y cyfnod monitro, ond nid oedd un ohonynt yn effeithio ar unrhyw gamlesi.

**10.1.2** Mae pob un o'r chwe chais yn ymwneud â newidiadau defnydd / trawsnewid adeiladau presennol, pedwar ohonynt heb newidiadau i'r wedd allanol. Roedd y ddau arall yn cynnwys mân newidiadau allanol, ond heb effeithio'n sylweddol ar wedd allanol yr adeiladau.

**10.1.3** Bernir felly bod yr holl gynigion yn unol â'r fframwaith polisi, ac o ganlyniad nid oes cais pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn.

**Dangosydd 86: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol.**

**10.1.4** Cafodd CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2019. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

**Dangosydd 87: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill.**

**Tabl 10.1.3 Polisi Strategol SP21 – Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol**

| **Polisi Strategol SP 21 Dangosydd 87** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill. | | | |
| **Amcan** | OB23; OB24 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP21 | **Polisïau Cysylltiedig** | | BE1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill. | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais datblygu yn groes i'r fframwaith polisi. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

**Dadansoddiad**

**10.1.5** Cymeradwywyd saith cynnig datblygu mewn Ardaloedd Cadwraeth yn ystod y cyfnod monitro, ac roedd y cyfan heblaw un yn gynigion yn Ardal Gadwraeth Canol Tref Castell-nedd. Roedd pob un o'r chwe chais yng nghanol tref Castell-nedd yn gofyn am newid defnydd, tra bod y seithfed cynnig ar gyfer datblygiad tai yn y Porth Treftadaeth, y mae rhan ohono oddi mewn i ffiniau Ardal Gadwraeth Llandarcy.

**10.1.6** Barnwyd bod yr holl gynigion yn briodol o ran cymeriad a golwg yr Ardaloedd Cadwraeth dan sylw, a'u bod yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi.

## 10.2 Polisi Strategol 22 Yr Iaith Gymraeg

### Tabl 10.2.1 Crynodeb Monitro fesul Dangosydd

| Cyf | Dangosydd | Asesu | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 88 | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. |
| 89 | Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Datblygu a'r Iaith Gymraeg | Mae'r dangosyddion yn dangos bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen camau pellach |

**Dangosydd 88: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith.**

### Tabl 10.2.2 Polisi Strategol SP22 – Yr Iaith Gymraeg

| Polisi Strategol SP 22 Dangosydd 88 – Datblygu mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | | | |
| **Amcan** | OB6; OB25 | | | |
| **Polisïau Allweddol** | SP22 | **Polisïau Cysylltiedig** | | WL1 |
| **Dangosydd** | **Targed** | **Canlyniad** | | **Pwynt Sbarduno** |
| Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | **Mabwysiadu** | 2016 | Caniatáu un cais yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. |
| | | **AMB 2017** | | |
| | | **AMB 2018** | | |
| | | **AMB 2019** | | |
| **Gweithredu** | | | | |
| Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. | | | | |

### Dadansoddiad

**10.2.1** Cymeradwywyd un cais yn ystod y cyfnod monitro oedd yn galw am gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith. Roedd hwn ar gyfer datblygiad preswyl ym Mhontardawe, ac nid oedd y Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg a gyflwynwyd yn nodi unrhyw effaith negyddol ar ysgolion Cymraeg, ac y byddai enw stryd Cymraeg y datblygiad a darparu pecynnau croeso i'r trigolion gyda manylion gwasanaethau Cymraeg yn lleol yn helpu i roi sylw i faterion Cymraeg. Ar ben hynny, bernir bod potensial i'r adeilad cymunedol arfaethedig ar y safle ddod â'r gymuned ynghyd a chael effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg.

**10.2.2** O ganlyniad nid oes ceisiadau pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. Bydd y monitro'n parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Dangosydd 89: Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â Datblygu a'r Iaith Gymraeg.**

**10.2.3** Cwblhawyd y CCA ar gyfer Datblygu a'r Iaith Gymraeg a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

# 10 . Parchu Unigrywiaeth

# RHAN 3 – Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

# 11 Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

**11.0.1** Bu’r CDLl yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus ar hyd cyfnod paratoi’r cynllun. Roedd yr AC yn ymgorffori gofynion yr AAS, a dylid cymryd bod cyfeiriad at yr AC yn y ddogfen hon yn cynnwys yr AAS. Roedd yr AC yn arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y cynllun a’i effeithiau tebygol o ran datblygu cynaliadwy.

**11.0.2** Strwythurwyd yr AC o amgylch 8 pwnc, a nodwyd cyfanswm o 22 amcan o dan y pynciau hynny. Drafftiwyd dangosyddion monitro a thargedau, eu datblygu a’u mireinio ar hyd esblygiad y CDLl a’r AC, ac mae’r Fframwaith Monitro a gyhoeddwyd ar gyfer y CDLl [(7)] yn ymgorffori dangosyddion monitro sy’n ymwneud ag amcanion dogfennau’r CDLl a’r AC, gan gynnwys nifer sy’n deillio o’r dangosyddion drafft a nodwyd yn nogfennau’r AC.

**11.0.3** O ran monitro’r AC, gwnaed rhai newidiadau i’r dangosyddion i sicrhau eu bod nhw’n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am amcanion yr AC. Mewn rhai achosion, ymgorfforwyd dangosyddion ychwanegol yn benodol i roi sylw i rai o amcanion yr AC.

**11.0.4** Caiff pob un o amcanion yr AC ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, a chyflwynir y canfyddiadau yn yr adrannau isod. Defnyddiwyd y codio lliw canlynol i roi crynodeb cyffredinol o ganfyddiadau pob dangosydd:

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Effeithiau Cyffredinol Gadarnhaol |
| (oren) | Effeithiau Cymysg |
| (coch) | Effeithiau Cyffredinol Negyddol |
| **0** | Effaith Niwtral |

## 11.1 Pwnc 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd

### Amcan 1A yr AC: Sicrhau bod pob datblygu yn cymryd i ystyriaeth newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl newid yn yr hinsawdd (Addasu)

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar ardaloedd gorlifdir C1 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygu hynod fregus mewn ardaloedd gorlifdir C1 os na fodlonir holl brofion TAN 15 | Ni phenderfynwyd ar geisiadau ar gyfer datblygiadau ym mharth llifogydd DAM C1 heb fodloni’r profion perthnasol | (gwyrdd) |

7 Tabl 6.2 Cynllun Datblygu Lleol CBS Castell-nedd Port Talbot (Ionawr 2016).

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 6 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C2 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygu hynod fregus mewn ardaloedd gorlifdir C2 | Caniatawyd dau gais ar gyfer datblygiadau ym mharth llifogydd DAM C2 | |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar hyd yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 6 chais yn yr ardaloedd dynodedig perthnasol, ac roedd un ohonynt yn groes i bolisi'r CDLl. | |

## Dadansoddiad

### *Dangosyddion 5 a 6: Datblygiadau mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd*

**11.1.1** Risg gynyddol o dywydd mwy eithafol a mwy o achosion o lifogydd difrifol yw dau o'r canlyniadau y rhagwelir sy'n debygol yn sgîl y newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, mae'n bwysig bod y broses gynllunio yn atal cyflwyno datblygiadau newydd neu ddefnyddiau bregus pellach mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, oni bai bod modd cyfiawnhau hynny'n llawn yn unol â'r polisi cenedlaethol.

**11.1.2** Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, gan mwyaf ni chaniatawyd datblygiadau mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd ond lle maent yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol fel y nodir yn TAN15. Mae hynny'n golygu bod y datblygu mewn lleoliadau o'r fath wedi'i gyfyngu i gynigion nad ydynt ar gyfer defnyddiau *bregus iawn* neu fel arall eu bod mewn ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol lle mae amddiffynfeydd digonol rhag llifogydd yn eu lle ac mae asesiadau llawn o ganlyniadau tebygol llifogydd wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, cymeradwywyd dau gais yn groes i'r fframwaith hwn (fel y nodir yn Adran 4 uchod).

**11.1.3** Er bod y ddau ddatblygiad dan sylw yn rhan o safle Campws y Bae yn y Brifysgol, sy'n gynllun sefydledig, mae caniatáu mwy o adeiladu ar ardaloedd gorlifdir heb eu hamddiffyn yn dangos diffyg ystyriaeth i'r newidiadau tebygol yn y dyfodol oherwydd y newid yn yr hinsawdd, ac o ganlyniad mae'r CDLl yn cael ei asesu fel un ag effeithiau cymysg yn ystod y cyfnod monitro hwn yng nghyswllt Dangosydd 6.

### *Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd dynodedig*

**11.1.4** Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â chynigion mewn ardaloedd lle mae datblygu'n cael ei reoli'n llymach nag mewn mannau eraill, am resymau tirlun a chynaliadwyedd, gan gynnwys yr angen am sicrhau gwydnwch yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**11.1.5** Cymeradwywyd cyfanswm o 6 chais ar gyfer datblygiadau perthnasol i'r dangosydd hwn yn ystod y cyfnod monitro. Roedd pedwar ohonynt ar gyfer cynigion a leolwyd mewn Ardaloedd Tirlun Arbennig, un ar gyfer cynnig mewn Lletem Las, ac un ar gyfer datblygiad yn rhannol ar yr Arfordir dynodedig heb ei Ddatblygu.

**11.1.6** Barnwyd bod cyfiawnhad ar gyfer pump o’r ceisiadau a’u bod yn dderbyniol yn y lleoliadau hyn, ond cymeradwywyd un cais datblygu mewn Lletem Las yn groes i bolisi’r CDLl. Cais oedd hwn am ysgol amnewid i’w hadeiladu ar feysydd chwarae’r ysgol, oedd yn rhan o’r lletem las a ddynodwyd.

**11.1.7** O ran amcanion yr AC, mae hyn yn ymwneud ag amcan 1A ynghylch addasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd, a barnwyd bod yr angen am ysgol newydd a’i manteision yn gorbwyso unrhyw effeithiau niweidiol ar y lletem las a’r dibenion yr oedd wedi’i dynodi ar eu cyfer.

**11.1.8** O ran elfennau cynaliadwyedd ac amgylcheddol y cynnig, bydd rhai effeithiau negyddol i’r datblygiad, ac at ei gilydd, felly, yng nghyswllt Dangosydd 62, aseswyd mai effaith gymysg oedd i’r CDLl.

## Amcan 1B yr AC: Cyflawni targedau’r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (Lliniaru)

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd | O’r 21 datblygiad preswyl a gymeradwywyd yn yr ASCA, roedd 5 yn cydymffurfio â gofyniad dwysedd y CDLl (cydymffurfiaeth o 24%) | |
| 2 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn ASC | O’r 14 datblygiad preswyl a gymeradwywyd yn ASC, roedd 3 yn cydymffurfio â gofynion dwysedd y CDLl (cydymffurfiaeth o 21%) | |
| 3 | Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl | Ni chollir tir glas yn groes i’r fframwaith polisi | O’r 19 datblygiad a gymeradwywyd ar dir glas, roedd 13 ar safleoedd heb eu dyrannu. Roedd modd cyfiawnhau pob un o’r rhain o dan delerau’r polisi, o gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol pob achos | |
| 4 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd | Ni chaniateir ceisiadau ar safleoedd a ddiogelwyd ar gyfer cludo nwyddau yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau mewn unrhyw leoliad nwyddau a ddiogelwyd | |
| 75 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Roedd 6 chais yn bodloni’r gofynion ar gyfer cyflwyno AYA. Rhoddwyd sylw i faterion ynni adnewyddadwy yn yr achosion hyn. | |

| Cyf. y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| SA1 | Ôl troed Carbon CNPT ($tCO_2$ per capita) | Gostyngiad blynyddol | 45.5 $tCO_2$ per capita (2018)[8] | |
| SA2 | Defnydd o Nwy yn CNPT | Gostyngiad blynyddol | 143.2 $ktCO_2$ (Domestig 2018)[9] | |
| SA3 | Defnydd o Drydan yn CNPT | Gostyngiad blynyddol | 48.3 $ktCO_2$ (Domestig 2018)[10] | |

## Dadansoddiad

### *Dangosyddion 1 a 2: Dwysedd preswyl*

**11.1.9** Mae datblygiad dwysedd uwch yn awgrymu defnydd mwy effeithlon o adnodd terfynedig (tir) ac esblygiad aneddiadau mwy effeithlon a chynaliadwy yn gyffredinol, gyda photensial i ddarparu mwy o gyfleusterau lleol a mynediad iddynt. O ganlyniad, dylai hynny arwain at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn unol â'r amcan.

**11.1.10** Er bod targedau monitro'r CDLl ar gyfer y dangosyddion hyn yn cyfeirio at ddatblygiadau ar safleoedd *a ddyrannwyd* [11], yn achos yr AC, asesir y dwysedd a gyflawnwyd ar *bob* safle preswyl. Nodir y dwyseddau cyffredinol a gyflawnwyd ar yr holl safleoedd preswyl yn y tabl uchod, wedi'u rhannu yn ôl Ardaloedd Strategaeth y CDLl. Cyflawnwyd y gofynion o ran dwysedd mewn 24% o'r achosion yn ASCA, a 21% o achosion yn ASC. Mae'r canlyniadau hyn yn y ddwy Ardal Strategaeth yn dangos bod cyfradd cydymffurfio â'r gofyniad polisi rywfaint yn uwch nag a gyflawnwyd yn 2018/19, er bod hynny'n is nag yn 2017/18 a 2016/17.

**11.1.11** O ran y goblygiadau ar gyfer amcan yr AC, mae'r ffigurau a gyflawnwyd yn dangos diffyg sylweddol a pharhaus yn y dwyseddau preswyl o gymharu â gofyniad y polisi. Fel y nodir yn Adran 4.1, bydd y polisi dwysedd yn cael ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLl, a bydd y broses hon yn cael ei llywio gan broses iterus o asesu cynaliadwyedd er mwyn gwerthuso'i heffeithiau'n llawn a hefyd effeithiau cymharol datblygu dwysedd uwch o gymharu â dwysedd is, gyda'r nod o sicrhau bod y CDLl yn cyflawni datblygiadau sydd mor gynaliadwy â phosibl ac yn cyflawni amcanion yr AC.

### *Dangosydd 3: Datblygu ar dir glas*

**11.1.12** Yn gyffredinol, mae datblygu 'tir glas' (h.y. tir sydd heb ei ddatblygu'n flaenorol) yn llai cynaliadwy nag ailddefnyddio safleoedd tir llwyd, yn arbennig o ran defnyddio adnoddau terfynedig a cholli mwy o fannau naturiol ac amrywiol. Mae gan safleoedd o'r fath rôl bwysig i'w chwarae yn lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy gymedroli'r tymheredd ac amsugno carbon, ymhlith ffactorau eraill.



8 https://www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2018
9 https://www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2018
10 Energy generation and consumption for Wales, 2013 (SB/11/2015 Statistics for Wales)
11 Dadansoddir y canlyniadau mewn perthynas â'r targedau hyn yn Adran 4.1.

**11.1.13** Nodir hyd a lled y datblygu ar safleoedd tir glas yn ystod y cyfnod monitro yn y tabl uchod, a cheir rhagor o fanylion yn Adran 4. Lle mae tir maes glas wedi cael ei ddatblygu, mae hynny wedi digwydd naill ai'n unol â dyraniadau'r CDLl, neu yn ôl y fframwaith polisi cenedlaethol a lleol. Bu gostyngiad bychan pellach yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar safleoedd tir glas ers 2018/19 ac at ei gilydd bernir bod y dangosydd hwn yn cyflawni gofynion y targed ac yn cyfrannu at leiafu allyriadau nwyon tŷ gwydr.

***Dangosydd 4: Datblygu ar gyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd***

**11.1.14** Mae cyfleusterau nwyddau presennol yn cael eu diogelu gan y CDLl er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar gyfer defnydd yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol. O ganlyniad, dylai cyfleusterau presennol barhau ar gael yn hytrach na lleihau'r cyfleusterau sydd ar gael, sy'n arwain yn aml at ddefnyddio dewisiadau eraill llai cynaliadwy (fel arfer trafnidiaeth ar y ffordd). O ganlyniad, dylai'r polisi yn gyffredinol gyfrannu at leihau cynhyrchu nwyon tŷ gwydr yn unol â'r amcan. Ni chymeradwywyd unrhyw gynigion yn groes i bolisi'r CDLl mewn perthynas â chyfleusterau nwyddau wedi'u diogelu.

***Dangosydd 75: Ceisiadau sy'n cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy***

**11.1.15** Mae Polisi RE2 y CDLl yn gofyn bod datblygiadau uwchben trothwyon maint penodedig yn cyflwyno Asesiad Ynni Adnewyddadwy, a bod canfyddiadau'r asesiad yn cael eu gweithredu lle bo hynny'n ddichonadwy. Mae'r ddarpariaeth hon yn golygu bod gosod a/neu ddefnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy neu garbon isel yn ofynnol lle bo hynny'n briodol, gyda manteision yn sgîl hynny o ran swm y nwy tŷ gwydr a gynhyrchir yn unol â'r amcan hwn.

**11.1.16** Gweithredwyd y polisi hwn ar gyfer chwe achos oedd yn cyrraedd y trothwy perthnasol. Roedd hwn yn gynnydd ers y llynedd, ond mae mwyafrif y datblygiadau yn dal heb orfod cynnwys unrhyw ddarpariaeth ynni adnewyddadwy. Fel y llynedd, felly, aseswyd y dangosydd hwn eto fel un ag effaith gymysg yn ystod y cyfnod monitro hwn, ac argymhellir y dylid ailasesu'r polisi fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl er mwyn canfod a fyddai'n briodol newid gofynion y polisi neu'r trothwyon er mwyn cyflawni amcanion yr AC yn well.

***Dangosydd SA1: ôl troed carbon CNPT***

**11.1.17** Mae'r ôl troed carbon yn disgrifio swm ffisegol y nwyon tŷ gwydr a allyrrir i'r atmosffêr. Mewn AMBau blaenorol, roedd y ffigur a ddyfynnwyd yn gysylltiedig â'r allyriadau y pen yn CNPT yn 2011, ac roedd yn cynnwys chwe nwy tŷ gwydr oedd yn cael eu cwmpasu gan Brotocol Kyoto, wedi'u mynegi ar ffurf tunelli yn cyfateb i garbon deuocsid (tCO2e). Fodd bynnag, ni ddiweddarwyd y ffigur hwn.

**11.1.18** Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ffigurau allyriadau CO2 y pen ar gyfer holl ardaloedd awdurdodau'r Deyrnas Unedig, yn ystod yr holl flynyddoedd o 2005 i 2018. Dyma ffigurau CNPT, (gan gynnwys 2015, y flwyddyn lawn olaf cyn mabwysiadu'r CDLl), ar ffurf tCO2 y pen:

- 2015: 58.2
- 2016: 51.8

- 2017: 53.2
- 2018: 45.5

11.1.19 Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod gostyngiad cyffredinol yn yr allyriadau ers cyflwyno'r CDLl, sy'n arwydd bod targed dangosydd 1 yr AC yn cael ei gyrraedd i raddau helaeth.

***Dangosyddion SA2 ac SA3: defnydd CNPT o nwy a thrydan***

11.1.20 Nid yw'r ffigurau sydd ar gael ar gyfer defnydd o nwy a thrydan y pen wedi cael eu diweddaru ers 2013. Fodd bynnag, mae'r ffigurau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020 ac a ddyfynnwyd ar gyfer AC1 hefyd yn cynnwys kilo dunelli o CO2 a allyrrwyd o ganlyniad i ddefnydd o nwy a thrydan domestig, ac mae hynny'n rhoi dau ddull pellach o fesur effeithiau poblogaeth Castell-nedd Port Talbot o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr.

11.1.21 SA2 (kt CO2 y defnydd o nwy domestig):

- 2015: 139.5
- 2016: 143.3
- 2017: 140.4
- 2018: 143.2

11.1.22 Mae hyn yn dangos nad oes tuedd amlwg yn y defnydd o nwy ers mabwysiadu'r CDLl, ac felly bod effaith y dangosydd hwn yn gymysg.

11.1.23 SA3 (kt CO2 y defnydd o drydan domestig):

- 2015: 77.0
- 2016: 61.4
- 2017: 53.1
- 2018: 48.3

11.1.24 Mae hyn yn dangos tueddiad sy'n amlwg yn gostwng, gan gyrraedd y targed ar gyfer y dangosydd hwn.

## Amcan 1C yr AC: Gwneud cyfraniad priodol yr ardal i gynhyrchu ynni cenedlaethol (Lliniaru)

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 74 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel | Cyflawni targedau capasiti TAN 8 yr AAS a, lle bo hynny'n briodol, annog datblygu pob math o dechnoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel | Cymeradwywyd dau ddatblygiad ynni adnewyddadwy/carbon isel yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn un yn llai nag yn 2018/19. | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 75 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Roedd 6 chais yn bodloni'r gofynion ar gyfer cyflwyno AYA. Cafodd materion ynni adnewyddadwy sylw yn yr achosion hyn. | |

## Dadansoddiad

### *Dangosydd 74: Nifer y ceisiadau am ynni adnewyddadwy a charbon isel*

**11.1.25** Cymeradwywyd dau gais ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy/carbon isel ar raddfa gymharol fach yn y cyfnod monitro, sef gwaith bach cynhyrchu pŵer bio-mas i gyflenwi swyddfeydd yn Heol Milland a chynllun o baneli ffoto-foltaig gyda gosodiad storio batrïoedd ar Gampws y brifysgol yn y Bae. Cymeradwywyd cais ar gyfer fferm wynt gydag 11 o dyrbinau hefyd mewn egwyddor, ond roedd hynny'n amodol ar lofnodi Cytundeb Cyfreithiol Adran 106, ac ni chafodd ei gadarnhau'n derfynol o fewn y cyfnod monitro.

**11.1.26** Er bod hwn yn ostyngiad ar nifer y cynlluniau a gymeradwywyd yn 2018-19, pan gânt eu gweithredu, bydd y cynigion yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy/carbon isel yn y Fwrdeistref Sirol, ac felly fe'u hasesir fel rhai sy'n cael effaith gyffredinol gadarnhaol o ran Amcan yr AC.

### *Dangosydd 75: Ceisiadau sy'n cynnwys Asesiad Ynni Adnewyddadwy*

**11.1.27** Cyfeirier at Amcan 1B uchod. Fel yn achos Amcan 1B, mae nifer isel yr achosion lle bu angen AYAau yn ystod y cyfnodau monitro yn y gorffennol yn awgrymu nad yw polisi'r CDLl yn cael yr effaith gadarnhaol a ragwelwyd yng nghyswllt Amcan 1C yr AC, ac felly asesir y dangosydd fel un a gafodd effeithiau cymysg yn ystod y cyfnod monitro hwn.

**11.1.28** O ganlyniad, argymhellir y dylid ailasesu Polisi RE2 y CDLl fel rhan o adolygiad y CDLl, er mwyn canfod a fyddai'n briodol newid trothwyon y polisi er mwyn cyflawni amcanion yr AC yn well.

## 11.2 Pwnc 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff

**Amcan 2A yr AC: Lleiafu colli neu ddiraddio adnoddau naturiol ochr yn ochr â sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy yn unig**



| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. | O'r 21 cais am ddatblygu preswyl a gymeradwywyd yn ASCA, roedd 5 yn cydymffurfio â gofyniad dwysedd y CDLl (lefel gydymffurfio o 24%) | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 2 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd yn ASC | O'r 14 datblygiad preswyl a gymeradwywyd yn ASC, roedd 3 yn cydymffurfio â gofynion dwysedd y CDLl (cydymffurfiaeth o 21%) | |
| 3 | Swm y tir glas a gollwyd nad oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLl. | Dim tir glas wedi'i golli yn groes i'r fframwaith polisi. | O'r 19 cais a gymeradwywyd ar gyfer datblygu ar dir glas, roedd 13 ar safleoedd heb eu dyrannu. Roedd modd cyfiawnhau pob un o'r rhain o dan y polisi, gan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau penodol pob achos | |
| 11 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 12 cais y tu allan i derfynau anheddiad | |
| 12 | Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd datblygiadau newydd yn rhoi sylw i'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol | Arweiniodd un cais at ofyniad i greu cynefin SINC amnewid i wneud iawn am golledion a achoswyd. | |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar hyd yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 6 chais yn yr ardaloedd dynodedig perthnasol, ac roedd un ohonynt yn groes i bolisi'r CDLl. | |
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i safleoedd dynodedig | |
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi. | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd, ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd. | Cymeradwywyd 2 gais yn yr ARhAA, ond roedd y ddau yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi | |
| 70 | *Dangosydd Craidd*: Swm yr agregau sylfaenol a enillwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi ar | Cronfa dir 10 mlynedd o gerrig mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y cynllun | Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur cronfa dir sy'n fwy na 50 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 3-blynedd (2016-2018) a 41 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10-mlynedd | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | ffurf canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol fel y nodwyd yn MTAN<br>*Dangosydd Lleol*: Cyflenwad tir ar gyfer agregau | | (2009-2018) (gweler adran 8.4). | |
| 71 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar weithio unrhyw adnodd mwynau yn y dyfodol | |
| 72 | Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau agregau nad oeddent yn unol â Pholisi M2 | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chafwyd ceisiadau ar gyfer echdynnu mwynau agregau yn ystod y cyfnod monitro | |
| 73 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd cynigion yn groes i Bolisi M3 | |
| SA4 | Swm y datblygu ar dir amaethyddol o safon uchel | Dim ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chafwyd ceisiadau ar gyfer datblygu ar dir amaethyddol o safon uchel | |

**Dadansoddiad**

**11.2.1** Mae mwyafrif y dangosyddion yn dangos bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol yng nghyswllt yr amcan hwn. Fodd bynnag, nodwyd effeithiau cymysg mewn perthynas â thri dangosydd.

***Dangosyddion 1 a 2: Dwysedd datblygu newydd***

**11.2.2** Fel o dan Amcan 1B yr AC uchod, cyflawnwyd y gofynion dwysedd mewn 24% o achosion yn ASCA a 21% o achosion yn ASC, sef lefel fymryn yn uwch o gydymffurfio â gofyniad y polisi na'r hyn a gyflawnwyd yn 2018/19, er bod hynny yn ei dro yn is nag yn 2017/18 a 2016/17.

**11.2.3** Yn y monitro ar y CDLl (gweler adran 4.1) nodir y bydd y polisi yn awr yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl. Ochr yn ochr â hynny, argymhellir y dylai effeithiau dwysedd preswyl gael eu hystyried yn fanwl yng nghyswllt adolygu amcanion yr AC, a bod effeithiau dwysedd ar amcanion yr AC yn cael eu hystyried yn llawn mewn unrhyw newidiadau i bolisi'r CDLl.

***Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd dynodedig***

**11.2.4** Fel y nodwyd yn Adrannau 8.1 ac 11.1, cymeradwywyd 6 chais mewn ardaloedd dynodedig, un ohonynt yn groes i'r fframwaith polisi, a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o bolisi'r CDLl. Asesir felly bod y dangosydd hwn yn cael effeithiau cymysg o ran colli/diraddio adnoddau naturiol, a bydd effeithiau'r polisi ar amcanion yr AC hefyd yn cael ystyriaeth lawn mewn unrhyw newidiadau i bolisi'r CDLl.

## Amcan 2B yr AC: Cynnal a gwella ansawdd cemegol a biolegol / ecolegol adnoddau naturiol

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 12 cais y tu allan i derfynau anheddiad | |
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i safleoedd dynodedig | |
| SA5 | % y cyrff dŵr sy'n cael dosbarthiad statws 'da' neu uwch gan CNC | Gwelliant blynyddol i'r statws dosbarthiad | Oddi mewn i Ddalgylch Rheoli Tawe i Langatwg, mae gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb ddosbarthiad statws da yn gyffredinol, mae 52% yn gymedrol, a 5% â statws cyffredinol wael. Nid oes cyrff dŵr â statws cyffredinol uchel neu ddrwg (Dosbarthiad 2015) **(12)** | **0** |

### Dadansoddiad

### *Dangosydd SA5: Statws dosbarthu cyrff dŵr gan CNC*

11.2.5 Mae ffigurau CNC ar gyfer 2015 yn dangos bod gan 43% o'r cyrff dŵr arwyneb yn nalgylch Tawe i Langatwg (sy'n cynnwys rhannau o Ben-y-bont yn ogystal â Chastell-nedd Port Talbot) statws dosbarthu da neu uwch. Y ffigurau a ddyfynnwyd yw'r diweddaraf sydd ar gael, ac maent yn ffigur gwaelodlin y bydd modd cymharu gwybodaeth yn ei erbyn yn y dyfodol.



12 Crynodeb Dalgylch Tawe i Langatwg (CNC 2015).

## Amcan 2C yr AC: Lleiafu gwastraff a lleihau symiau'r gwastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 77 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle | Dylai'r holl gynigion datblygu sy'n cael eu cwmpasu gan Bolisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle (SWMP) | Roedd saith cais yn cyrraedd trothwy'r polisi a chyflwynwyd SWMP gyda nhw oedd yn rhoi sylw i'r cyfnod adeiladu yn ogystal â meddiat y safle wedi hynny. | |
| 78 | Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff | Ni dderbyniwyd ceisiadau yn ystod y cyfnod monitro, ac felly cafodd y fframwaith polisi ei gynnal. | |
| 79 | Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yng Nghastell-nedd Port Talbot | Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21) | Mae 11.2 mlynedd o le gwag ar gael ar gyfer tirlenwi, felly mae digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio gyda deilliannau gwastraff (Adroddiad Monitro 2019) | |
| SA6 | % yr LACW[13] a ailddefnyddiwyd / ailgylchwyd / gompostiwyd | Cynnydd blynyddol | Cafodd 60.8% o LACW CNPT ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod 2018/19.[14] Mae hyn yn gynnydd bychan o gymharu â ffigur 2017/18, bu cynnydd yn digwydd bob blwyddyn yn olynol ers i'r cofnodi gychwyn yn 2006. | |

### Dadansoddiad

**11.2.6** Mewn perthynas ag Amcan 2C yr AC, er nad yw'r CDLl yn cael effaith sylfaenol ar faterion gwastraff, mae'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod polisïau perthnasol y cynllun yn cael effaith cyffredinol gadarnhaol.

***Dangosydd SA6: Canran y gwastraff a gasglwyd gan yr Awdurdod Lleol (LACW) a ailddefnyddiwyd / ailgylchwyd / gompostiwyd***

**11.2.7** Mae'r ffigurau LACW sydd ar gael yn dangos bod cynnydd cyson yn y gwastraff a ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd/gompostiwyd rhwng 2006 a 2016/17, gyda chynnydd bychan yn ffigur 2018/19 (i 60.8%) ers 2017/18 (60.5%). Er gwaethaf gostyngiad bach (o 62.8% yn 2016/17), mae nawr yn agos at darged cyffredinol y rhanbarth, sef 64% yn 2019/20.



14 Stats Wales: Rheolaeth flynyddol ar wastraff yn ôl y dull rheoli (tunelli)
13 Gwastraff a Gasglwyd gan yr Awdurdod Lleol

## 11.3 Pwnc 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

### Amcan 3A yr AC: Atal unrhyw golled net bellach o ran bioamrywiaeth

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i safleoedd dynodedig | |
| SA7 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar SINCs a nodwyd, yn groes i'r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd un cais oedd yn cynnwys rhan o ddynodiad SINC o fewn y safle ar gyfer datblygiad tai. Penderfynwyd ar yr achos hwn yn unol â Pholisi EN6. | |
| SA8 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n arwain at golled weddilliol **(1)** o ran cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar rywogaethau pwysig**(2)** | Dim colledion gweddilliol o ran cynefinoedd na rhywogaethau pwysig | Collwyd cynefin SINC mewn un achos trwy gymeradwyo datblygiad tai, ond roedd hynny'n amodol ar ofyniad i wneud iawn am hynny, a olygodd nad oedd colled weddilliol. | |

1. Gan gymryd mesurau lliniaru/gwneud iawn i ystyriaeth.
2. Cynefinoedd a rhywogaethau A7, cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) a nodweddion naturiol pwysig, fel y nodwyd ym Mholisi EN7.

### Dadansoddiad

**11.3.1** Mewn perthynas ag Amcan 3A yr AC, mae'r dangosyddion uchod eleni yn awgrymu bod y cynllun yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

***Dangosyddion SA7 ac SA8: Ceisiadau ar SINCs dynodedig neu sy'n arwain at golled weddilliol o ran cynefin pwysig neu effaith weddilliol ar rywogaeth bwysig***

**11.3.2** Eleni yw'r ail dro i ffigurau gael eu cofnodi mewn perthynas â'r dangosyddion hyn. Roedd un cais a gymeradwywyd yn y cyfnod monitro wedi'i leoli ar Safle dynodedig o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) oedd hefyd wedi'i ddyrannu ar gyfer tai. Roedd gofyn gwneud iawn am y cynefin a gollwyd yn sgîl y datblygiad trwy gytundeb cyfreithiol (A106). Asesir felly bod yr holl geisiadau eleni heb arwain at golled weddilliol o ran cynefinoedd neu rywogaethau pwysig.

## Amcan 3B yr AC: Ecsbloetio pob cyfle rhesymol i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Nifer y ceisiadau newydd a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd datblygiadau newydd yn rhoi sylw i’r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny’n briodol | Arweiniodd un cais at ofyniad i greu cynefin SINC amnewid i wneud iawn am golledion a achoswyd. | |
| SA9 | Ardal o gynefin A7/SINC a grewyd ac a ddiogelwyd trwy benderfyniadau cynllunio | Cynnydd blynyddol | Fel uchod, arweiniodd un cais at ofyniad i greu cynefin SINC amnewid i wneud iawn am golledion a achoswyd. | |

**Dadansoddiad**

***Dangosydd 12: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr***

**11.3.3** Rhoddwyd sylw i effeithiau datblygu newydd ar fioamrywiaeth yn ystod y broses o benderfynu ar y cais cynllunio ym mhob achos lle roedd hynny’n berthnasol. Mewn un achos (datblygiad tai yn Waun Sterw, Rhos) sicrhawyd cyllid trwy gytundebau A106 er mwyn ymdrin â’r effeithiau ar fioamrywiaeth.

***Dangosydd SA9: Ardal o gynefin A7/SINC a grewyd ac a ddiogelwyd trwy benderfyniadau cynllunio***

**11.3.4** Llynedd oedd y flwyddyn gyntaf pryd y cofnodwyd ffigurau ar gyfer y dangosydd hwn, pan na chrewyd dim cynefin A7/SINC. Eleni, fel y nodir uchod, cytunwyd ar gyllid mewn un achos i greu cynefin SINC er mwyn gwneud iawn am golledion a achoswyd gan y datblygiad.

## Amcan 3C yr AC: Lleiafu effeithiau niweidiol ar safleoedd geoamrywiaeth dynodedig

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 64 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy’n bwysig yn rhanbarthol, yn groes i’r fframwaith polisi. | Dim ceisiadau wedi’u caniatáu yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau oddi mewn i safleoedd dynodedig | |

### Dadansoddiad

**11.3.5** Mewn perthynas ag Amcan 3C yr AC, mae'r dangosydd perthnasol yn dangos bod y cynllun yn cael effaith cyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

## 11.4 Pwnc 4 yr AC: Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol

### Amcan 4A yr AC: Diogelu a/neu wella tirlun a threflun yr ardal

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Gwrthodwyd 3 chais arwyddocaol am resymau oedd yn cynnwys seiliau dylunio, ac ni chymeradwywyd dim yn groes i'r fframwaith polisi | |
| 62 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar hyd yr arfordir heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 6 chais yn yr ardaloedd dynodedig perthnasol, ac roedd un ohonynt yn groes i bolisi'r CDLl. | |
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd chwe chynnig oedd yn effeithio ar BLIs yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi | |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cafodd saith cynnig arwyddocaol eu caniatáu mewn Ardaloedd Cadwraeth, pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi | |

### Dadansoddiad

***Dangosydd 62: Datblygiadau mewn ardaloedd dynodedig***

**11.4.1** Fel y nodwyd yn adrannau 8.1 ac 11.1, cymeradwywyd un cais mewn ardal ddynodedig (Lletem Las) yn groes i'r fframwaith polisi, a bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o bolisi'r CDLl. Asesir, felly, bod y dangosydd hwn yn cael effeithiau cymysg yng nghyswllt diogelu/gwella'r tirlun a'r treflun a bydd effeithiau'r polisi ar amcanion yr AC hefyd yn cael ei ystyried yn llawn mewn unrhyw newidiadau a wneir i bolisi'r CDLl.

**11.4.2** Mae'r dangosyddion eraill sy'n berthnasol i'r amcan hwn yn dangos bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol bositif.

## Amcan 4B yr AC: Diogelu a/neu wella amgylchedd hanesyddol yr ardal, gan gynnwys adnoddau pensaernïol ac archaeolegol

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd chwe chynnig oedd yn effeithio ar BLIs yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi | |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Cafodd saith cynnig arwyddocaol eu caniatáu mewn Ardaloedd Cadwraeth, pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi | |

### Dadansoddiad

**11.4.3** Yng nghyswllt Amcan 4B yr AC, mae'r dangosyddion perthnasol yn dangos bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

## 11.5 Pwnc 5 yr AC: Llygredd

## Amcan 5A yr AC: Cyflawni lefelau derbyniol (bodloni safonau cenedlaethol / Ewropeaidd) o ansawdd aer ar draws y Fwrdeistref Sirol

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi. | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd, ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd. | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi. | |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu (CMP) | Ni ddylai achosion o dorri'r amodau ansawdd aer ddigwydd yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r CMP a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Roedd angen CMP ar 1 cynnig a ganiatawyd yn yr ARhAA: trefnwyd amod ar gyfer hynny. | |
| 81 | Cyflwyno'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot | Cyflawni'r prosiect erbyn 2018 | Cyflawnwyd y canolbwynt trafnidiaeth integredig ym Mhort Talbot yn ôl yr amserlen (Mawrth 2018). | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 83 | Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam | Cyflawni'r prosiect erbyn 2020 | Heb gychwyn eto. | **0** |
| SA10 | Torri amcanion ansawdd aer | Dim achosion o dorri'r amcanion ansawdd aer | Mae adroddiad Ansawdd Aer 2019 wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig Covid-19 | **0** |
| SA11 | Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yn CNPT | Dim cynnydd yn nifer na chwmpas yr ARhAAoedd | Mae 1 ARhAA yn CNPT, yn Nhaibach / Margam, ac ni fu cynnydd ers mabwysiadu'r CDLl. | |

## Dadansoddiad

**11.5.1** Mewn perthynas ag Amcan 5A yr AC, mae'r dangosyddion perthnasol yn dangos bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu, ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

### *Dangosydd SA10: Amcanion Ansawdd Aer*

**11.5.2** Mae'r wybodaeth fonitro ar gyfer ansawdd aer yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol ac mae'n cyfeirio at y flwyddyn galendr flaenorol [15]. Roedd AMB 2017 felly yn cynnwys gwybodaeth am 2016 ac yn darparu sefyllfa waelodlin y mae modd cymharu canlyniadau'r dyfodol â hi. Yn 2016, ar draws y rhan fwyaf o'r Fwrdeistref Sirol, cyflawnwyd yr amcanion ansawdd aer ar gyfer pob math o lygredd aer oedd yn cael ei fonitro, ac eithrio lefelau osôn a chrynodiadau hydrocarbon polyaromatig, oedd yn torri amcanion y Deyrnas Unedig ond yn cydymffurfio â tharged yr UE, a chrynodiadau nicel, oedd yn torri targed yr UE mewn dau leoliad.

**11.5.3** Yn 2017, cyflawnwyd yr amcanion eto ar gyfer pob math o lygredd aer, a'r unig eithriadau y tro hwn oedd lefelau osôn a chrynodiadau hydrocarbon polyaromatig, a oedd eto'n torri amcan y Deyrnas Unedig ond yn cydymffurfio â tharged yr UE. Fodd bynnag, gwyrdrowyd y duedd gynyddol a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn 2017, gyda gostyngiad o ryw 30% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar ben hynny, yn 2017 roedd y crynodiadau nicel yn cydymffurfio â thargedau'r UE ym mhob lleoliad, ar ôl torri'r targedau mewn dau leoliad yn 2016. O ganlyniad roedd gwelliannau mewn perthynas â'r amcan hwn yn 2017.

**11.5.4** Roedd 2018 yn flwyddyn gymharol wael o safbwynt llygredd osôn, gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf ers 2011 pryd y torrwyd gwerth targed yr UE. Fodd bynnag, mae'r duedd hirdymor ar i lawr. Gan fod llygredd ar draws ffiniau yn gallu cael effaith sylweddol ar ganlyniadau lleol, nid yw osôn yn dod o dan Reoli Ansawdd Aer yn Lleol (LAQM) a hefyd nid oes modd asesu effeithiau polisi'r CDLl yn llawn.



**11.5.5** Roedd y crynodiad hydrocarbon polyaromatig ym Mhort Talbot yn dal yn uwch na'r Amcan Ansawdd Aer, sef 0.25 ng/m3 , yn 2018, ond nid yw erioed wedi mynd yn uwch na gwerth targed yr UE, sef 1 ng/m3. Roedd crynodiad blynyddol cyfartalog 2018, sef 0.69 ng/m3, fymryn yn uwch na'r hyn a fesurwyd yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y crynodiadau nicel yn

15 Adroddiadau Cynnydd CNPT

uwch na'r targedau mewn dau leoliad ym Mhontardawe, a barnwyd bod hynny'n gysylltiedig â phroblemau gyda pheiriannau lliniaru penodol yng ngwaith Wall Colmonoy.

**11.5.6** Ar hyn o bryd mae adroddiad ansawdd aer Castell-nedd Port Talbot wedi cael ei ohirio oherwydd oedi'n casglu'r data o ganlyniad i bandemig Covid-19. Bydd data 2019 a 2020 yn cael eu hadrodd ar y cyd yn AMB y flwyddyn nesaf.

***Dangosydd SA11: Nifer a chwmpas yr ARhAAoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot***

**11.5.7** Cafodd Ardal Rheoli Ansawdd Aer Taibach/Margam (ARhAA) ei chyhoeddi gan y Cyngor yn 2000 mewn perthynas â phryderon ynghylch $PM_{10}$ (mân ronynnau). Mae'r ARhAA yn dal mewn grym ar hyn o bryd, ac nid yw ei gwmpas wedi newid, ond ni chyhoeddwyd ARhAAoedd ychwanegol.

## Amcan 5B yr AC: Cyflawni lefelau sŵn derbyniol a diogelu ardaloedd tawel ar draws y Fwrdeistref Sirol

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau mewn unrhyw Ardal Dawel | |
| SA12 | Nifer a chwmpas y dynodiadau Ardal Flaenoriaeth Cynllunio Gweithredu ynghylch Sŵn yn CNPT | Dim cynnydd yn nifer na chwmpas y NAPPAs | Mae 11 Ardal Flaenoriaeth ar gyfer ffyrdd a 3 ar gyfer rheilffyrdd yn CNPT | |

### Dadansoddiad

**11.5.8** Mewn perthynas ag Amcan 5B yr AC, mae'r dangosyddion perthnasol yn dangos bod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu ac y dylent fod yn cael effaith gyffredinol bositif. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro.

***Dangosydd SA12: Nifer a chwmpas y dynodiadau Ardal Flaenoriaeth***

**11.5.9** Dynodir Ardaloedd Blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru o dan Gyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol Ewrop, a nodir yr ardaloedd hyn ar sail nifer yr eiddo mae lefelau sylweddol o sŵn amgylcheddol yn effeithio arnynt(16). Mae'r wybodaeth a roddir uchod yn cyfeirio at Gynllun Gweithredu Sŵn a Sainlun 2018-2023.



16 I gael manylion llawn, gweler y Cynllun Gweithredu Sŵn a Sainlun 2018 - 2023

## 11.6 SA Topic 6: Cydlyniant Cymdeithasol

### SA Amcan 6A: Gwella cydlyniant cymdeithasol a lleiafu digwyddiad eithrio cymdeithasol trwy ymdrin ag achosion eithrio cymdeithasol

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chafwyd colledion sylweddol o ran cyfleusterau cymunedol na mannau agored o ganlyniad i gymeradwyo cynllunio yn ystod y cyfnod monitro | |
| 10 | Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. | Cymeradwywyd tri chynnig mawr perthnasol i'r dangosydd hwn, pob un ohonynt yn unol â'r fframwaith polisi | |
| 11 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau anheddiad yn groes i'r fframwaith polisi | Cymeradwywyd 12 cais y tu allan i derfynau anheddiad | |
| 14 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 5,690 o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir yn ystod cyfnod y Cynllun<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 152<br>2012/13: 134<br>2013/14: 216<br>2014/15: 268<br>2015/16: 318<br>2016/17: 379<br>2017/18: 495<br>2018/19: 553<br>2019/20: 518<br>2020/21: 513<br>2021/22: 502<br>2022/23: 468<br>2023/24: 412<br>2024/25: 387<br>2025/26: 375 | Mae cyflwyno dyraniadau H1 ar hyd coridor yr arfordir wedi gostwng gryn dipyn o dan y targedau (gweler adran 5.1). Bydd y polisi hwn, felly, yn cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl. Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig yn y tai newydd a gyflwynir gael effeithiau negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol, ac fely nid yw'r polisi wedi cael yr effeithiau cadarnhaol y gellid eu disgwyl mewn perthynas â chydlyniant cymdeithasol. | |
| 29 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio | Cyflwyno datblygiad twristiaeth/ hamdden yn Lido Afan erbyn 2020 | Mae'r datblygiad yn Lido Afan wedi bod yn destun oedi. Ni chyflwynwyd y gyflogaeth leol ychwanegol a ragwelwyd hyd yma. | **0** |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | Defnydd Cymysg Lido Afan | | | |
| 31 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 1,435 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod y Cynllun<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 61<br>2012/13: 108<br>2013/14: 44<br>2014/15: 60<br>2015/16: 90<br>2016/17: 112<br>2017/18: 92<br>2018/19: 75<br>2019/20: 122<br>2020/21: 125<br>2021/22: 117<br>2022/23: 117<br>2023/24: 112 | Mae cyflwyno dyraniadau H1 yn ardal strategaeth y cymoedd bellach wedi syrthio tu ôl i’r targedau bedair blynedd yn olynol (gweler adran 5.2). Bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ddadansoddi hyn. Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig yn y tai newydd a gyflwynir gael effeithiau negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol. | |
| 32 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 664 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod y Cynllun<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 0<br>2012/13: 46<br>2013/14: 30<br>2014/15: 38<br>2015/16: 65<br>2016/17: 92<br>2017/18: 72<br>2018/19: 50<br>2019/20: 66<br>2020/21: 50<br>2021/22: 40<br>2022/23: 40<br>2023/24: 35 | Roedd cyflwyno dyraniadau H1 yn ardal twf strategol Pontardawe wedi syrthio tu ôl i’r targedau dair blynedd yn olynol hyd at 2018-19. Yn y cyfnod monitro diwethaf (2019-20), fodd bynnag, rhagorodd ar y targed (gweler adran 5.2 uchod). Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, ni chyrhaeddwyd y targedau cyffredinol, a bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ddadansoddi hynny. Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig yn y tai newydd a gyflwynir gael effeithiau negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol. | |
| 33 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf | Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 er mwyn darparu 264 o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 5<br>2012/13: 0<br>2013/14: 9 | Methodd nifer y tai a gwblhawyd â chyrraedd y targedau am y tro cyntaf yn 2019-20, ond nid yw hynny’n creu pwynt sbarduno ar gyfer adolygu’r polisi, a bydd y sefyllfa’n parhau i gael ei monitro. Gallai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig yn y tai newydd a gyflwynir gael effeithiau negyddol ar gynhwysiad cymdeithasol. | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15: 2<br>2015/16: 0<br>2016/17: 0<br>2017/18: 0<br>2018/19: 0<br>2019/20: 21<br>2020/21: 45<br>2021/22: 37<br>2022/23: 37<br>2023/24: 37<br>2024/25: 36<br>2025/26: 35 | | |
| 34 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Darparu 150 o unedau tai newydd, gyda disgwyl i hynny gychwyn o 2020/21 | Dim datblygu hyd yma, ond mae'r cynnig yn dal i gadw at y targed | **0** |
| 37 | Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd a gwaith a ganiatawyd | Hyd yma nid oes cynigion bywyd a gwaith wedi cael eu derbyn na'u caniatáu | **0** |
| 38 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflwyno erbyn 2021 | Er na chymeradwywyd datblygiad hyd yma, ni chyrhaeddwyd y dyddiad targed ar gyfer cyflwyno eto. O'i gyflwyno, byddai swyddi twristiaeth newydd yn yr ardal yn gadarnhaol o safbwynt buddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | **0** |
| 39 | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl | Bydd cyfanswm darpariaeth o **8,760** o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026.<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12 - 262<br>2012/13 - 287<br>2013/14 - 301<br>2014/15 - 386<br>2015/16 - 486<br>2016/17 - 549<br>2017/18 - 625<br>2018/19 - 686<br>2019/20 - 698<br>2020/21 - 676<br>2021/22 - 647<br>2022/23 - 614<br>2023/24 - 553<br>2024/25 - 542<br>2025/26 - 488 | Roedd nifer y tai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r targed blynyddol, y bedwaredd flwyddyn lle bu diffyg. Bydd y lefel hon o ddarparu tai newydd yn dal i gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi yn lleol ac o ganlyniad ar gynhwysiad cymdeithasol yn gyffredinol, ond mae'n methu â cyrraedd y targedau a'r effeithiau a ragwelwyd. | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 41 | Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl | Cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 7<br>2012/13: 5<br>2013/14: 22<br>2014/15: 37<br>2015/16: 72<br>2016/17: 90<br>2017/18: 115<br>2018/19: 130<br>2019/20: 124<br>2020/21: 120<br>2021/22: 111<br>2022/23: 102<br>2023/24: 90<br>2024/25: 89<br>2025/26: 86 | Mae'r tai fforddiadwy a gyflwynwyd wedi bod yn is na'r targed ers pedair blynedd, gydag 18 o unedau fforddiadwy yn cael eu cyflwyno trwy'r system gynllunio yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf. Mae'r diffyg darpariaeth newydd yn golygu nad yw polisi tai fforddiadwy'r CDLl ar hyn o bryd yn cael yr effeithiau cadarnhaol a ragwelwyd mewn perthynas ag eithrio cymdeithasol. | |
| 46 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai heb roi sylw i anghenion y preswylwyr am fannau agored. | Dylai pob datblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle mae diffyg meintiol yn y ddarpariaeth mannau agored | Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu mannau agored ym mhob achos er bod amgylchiadau lliniaru (gweler Adran 6.4). Mae diffyg darpariaeth mannau agored i ddatblygiadau newydd yn debygol o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol lleol | |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd i ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi. | Cafwyd rhai effeithiau ar fannau agored presennol yng nghyswllt 3 chais (gweler adran 6.4). Fodd bynnag, roedd y colledion yn gyffredinol ar raddfa fach ac yn gyfyngedig, ac mae'r polisi yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol | |
| 52 | Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a'r tir cyflogaeth | <u>Prif Darged:</u><br>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026.<br><u>Targedau Interim:</u><br>2011/14: 7,000msg<br>2014/17: 7,000msg<br>2017/20: 7,000msg<br>2020/23: 7,000msg<br>2023/26: 7,000msg<br><u>Targedau Blynyddol:</u><br>Datblygu 2,250msg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, ar gyfartaledd, gyda tharged cronnol o 4,500 msg i gael ei ddatblygu dros unrhyw | Mae lefel y ddarpariaeth newydd o ran arwynebedd llawr cyflogaeth bellach wedi syrthio o dan y targed dair blynedd yn olynol, gan awgrymu effaith negyddol ar argaeledd safleoedd cyflogaeth. Bydd y mater hwn yn awr yn cael ei ystyriaed fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r CDLl. | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 58 | Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd. | Cafwyd un cais sy'n ffitio'r diffiniad o ddatblygiad manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn gynnydd ers y llynedd, ac yn debygol o gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol. | |
| 88 | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | Cyflwynwyd un cais gyda Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg. Barnwyd bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg wedi derbyn sylw yn yr achos hwn. | |

**Dadansoddiad**

**11.6.1** Mae un dangosydd (sy'n ymwneud ag ailddatblygu safle Lido Afan) wedi newid o effaith gadarnhaol i niwtral ers y llynedd. Gallai hyn awgrymu gostyngiad pellach cyffredinol yn y gweithgarwch economaidd, gan leihau nifer y datblygiadau yr eir ar eu hôl. Mae dangosyddion sydd ag effaith ansicr, gymysg neu negyddol, neu sydd wedi newid mewn perthynas ag Amcan 6A yr AC yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

***Dangosyddion 14, 31, 32, 39 a 41: Datblygiadau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd***

**11.6.2** Mae'r datblygiadau tai a gyflwynwyd ar ddyraniadau H1 yn ardaloedd strategol coridor yr arfordir a'r cymoedd wedi syrthio o dan dargedau'r CDLl. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r anheddiad dan sylw, gallai hyn gael effeithiau niweidiol ar yr economi lleol, lefelau o dai fforddiadwy ac o ganlyniad ar gynaliadwyedd cyffredinol ac yn arbennig (yn achos yr amcan hwn o'r AC) ar gydlyniant cymunedol. Yn ôl pa gymuned sydd dan sylw, gallai'r tueddiadau hyn olygu bod y gymuned yn aros yn ei hunfan neu'n dirywio, er na fydd hynny o reidrwydd yn wir am bob cymuned.

**11.6.3** Nodwyd y mater hwn yn y gwaith monitro ar y CDLl, a bydd y polisïau perthnasol yn awr yn cael eu hadolygu, gan asesu'r rhesymau am y diffyg a goblygiadau hynny, a rhoi ystyriaeth i newidiadau yn y dull polisi. Bydd y mater hwn yn parhau i gael ei fonitro.

***Dangosydd 29: Cyflwyno datblygiad twristiaeth/hamdden yn Lido Afan***

**11.6.4** Nid yw'r datblygiad arfaethedig ar safle Lido Afan wedi gwneud cynnydd eto, ac mae yn awr wedi methu â chyrraedd targed monitro'r CDLl. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r CDLl eto'n cael yr effaith gadarnhaol a ragwelwyd ar yr amcan hwn o'r AC.

***Dangosydd 46: Darparu mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd***

**11.6.5** At ei gilydd, er bod Polisi OS1, sy'n gofyn bod mannau agored newydd yn cael eu darparu ar gyfer datblygiadau newydd, yn cael ei weithredu'n gyffredinol, mewn rhai achosion ni cheir darpariaeth (yn aml am resymau dichonoldeb). Mae argaeledd mannau agored yn lleol yn rhan bwysig o feithrin cynhwysiad cymdeithasol trwy ddarparu lle o fewn y gymuned ar gyfer hamdden a rhyngweithio. Mae diffyg yn y

ddarpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd, felly, yn debygol o fod â goblygiadau negyddol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol yn lleol. Mae’r dangosydd hwn wedi cael ei nodi fel testun pryder yn y gorffennol, a’r bwriad nawr yw asesu’r rhesymau am y diffyg darpariaeth a goblygiadau hynny, gan ystyried y newidiadau posibl i ddull gweithredu’r polisi. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

***Dangosydd 52: Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a’r tir cyflogaeth***

11.6.6 Mae lefel y ddarpariaeth newydd o ran arwynebedd llawr cyflogaeth bellach wedi syrthio o dan y targed ers tair blynedd, gan awgrymu effaith negyddol ar argaeledd safleoedd cyflogaeth ac, o ganlyniad, ar gydlyniant cymdeithasol. Bydd y mater hwn yn awr yn cael ei ystyried fel rhan o’r adolygiad ehangach o’r CDLl.

## Amcan 6B yr AC: Diogelu a gwella diwylliant a chymeriad cymunedau, gan gynnwys adnoddau diwylliannol a’r iaith Gymraeg

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 85 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Cymeradwywyd chwe chynnig oedd yn effeithio ar BLIs yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt yn unol â’r fframwaith polisi | |
| 87 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd dynodedig eraill | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Cafodd saith cynnig arwyddocaol eu caniatáu mewn Ardaloedd Cadwraeth, pob un ohonynt yn unol â’r fframwaith polisi | |
| 88 | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Iaith. | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb roi sylw i faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg. | Cyflwynwyd un cais gyda Chynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg. | |

### Dadansoddiad

11.6.7 Ar hyn o bryd mae’r targedau a nodwyd ar gyfer dangosyddion 85, 87 ac 88 i gyd yn cael eu cyflawni, sy’n awgrymu effaith gadarnhaol mewn perthynas â’r effeithiau ar ddiwylliant a chymeriad cymunedau.

## 11.7 Pwnc 7 yr AC: Iechyd a Llesiant

### Amcan 7A yr AC: Gwella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol i bawb

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chafwyd colledion arwyddocaol o ran cyfleusterau cymunedol na mannau agored o ganlyniad i ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro | |
| 46 | Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau tai a ganiatawyd heb roi sylw i anghenion mannau agored y preswylwyr | Dylai pob datblygiad tai newydd sydd â 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer mannau agored lle mae diffyg meintiol | Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu mannau agored ym mhob achos, er bod amgylchiadau esgusodol (gweler Adran 6.4). Mae diffyg darpariaeth mannau agored i ddatblygiadau newydd yn debygol o gael effeithiau negyddol ar gynhwysiant cymdeithasol yn lleol | |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd wrth ddatblygu yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi | Cafwyd rhai effeithiau ar fannau agored presennol yng nghyswllt 3 chais (gweler adran 6.4). Fodd bynnag, roedd y colledion ar raddfa fach at ei gilydd, ac mae'r polisi'n cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol | |
| 49 | *Dangosydd Lleol*: Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>*Dangosyddion Cyd-destunol*: Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;<br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Prif Darged:<br>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: - 1,458<br>2014/17: +1,326<br>2017/20: +1,326<br>2020/23: +1,326<br>2023/26: +1,326<br>Targed Blynyddol: Ennill 442 o swyddi y flwyddyn ar gyfartaledd o 2014 yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884 o swyddi yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae'r targed a bennwyd yn y CDLl wedi dyddio oherwydd bod ystadegau diweddarach wedi cael eu rhyddhau. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi yn CNPT ers y cyfnod monitro diwethaf (gweler Adran 7.1). Dylai cynyddu lefelau cyflogaeth gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar iechyd a llesiant. | |
| 53 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd yn CNPT | Codi cyfradd y gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026 | Mae cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler adran 7.1). Yn y cyfnod monitro diweddaraf mae wedi parhau i godi (2.9%), sy'n | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | *Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | | golygu bod cyfradd CNPT bellach fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Byddai disgwyl i gyfraddau gweithgarwch economaidd uwch gael effaith gyffredinol bositif ar iechyd a llesiant. | |
| 54 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd diweithdra yn CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd diweithdra yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | Gostwng cyfradd diweithdra i 6.9% erbyn 2026 | Mae'r ystadegau'n dangos bod cyfradd diweithdra CNPT wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (yn dilyn gostyngiad y flwyddyn flaenorol) a'i bod bellach yn 4.8%, er nad yw'r ffigur hwn yn ddibynadwy o reidrwydd (gweler Adran 7.1). Mae cynnydd yn lefel diweithdra yn debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar iechyd a llesiant. | |
| 61 | Datblygu ysgol o lwybrau cerdded a beicio gwell | Cwblhau Llwybr Arfordir Cymru erbyn 2012<br><br>Cwblhau Llwybrau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013<br><br>Cwblhau Llwybr y 'Great Dragon Ride' erbyn 2012 | Mae'r llwybrau a restrwyd yn y CDLl wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd | |
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i'r fframwaith polisi | Ni ddylai cynigion datblygu greu cynnydd sylweddol mewn lefelau llygredd nac arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd | Cafodd dau gais perthnasol eu cymeradwyo yn yr ARhAA, y ddau ohonynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi | **0** |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu (CMP) | Ni ddylai amodau ansawdd aer gael eu torri yn ystod y cyfnod adeiladu yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladu (CMP) a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Roedd angen CMP ar gyfer 1 cais a ganiatawyd yn yr ARhAA; cafodd hynny sylw ar ffurf amod | **0** |
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | **0** |
| 82 | Cwblhau llwybrau beicio a restrwyd | Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014<br><br>Mae Llwybr Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013 | Mae Llwybr Cwm Afan yn gyflawn, ac mae rhan o Lwybr Beicio Dyffryn Aman wedi'i gwblhau. | |

**Dadansoddiad**

11.7.1 Yn gyffredinol, asesir y cynllun fel un sy'n cael effaith gadarnhaol neu niwtral mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r dangosyddion. Serch hynny, mae rhai dangosyddion wedi dangos canlyniad negyddol neu gymysg naill ai yn y cyfnod monitro hwn neu mewn blynyddoedd blaenorol, a thrafodir y rhain isod.

***Dangosydd 46: Darparu mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd***

11.7.2 At ei gilydd, nid yw'r targed ar gyfer darparu mannau agored yng nghyswllt datblygiadau newydd wedi cael ei gyrraedd yn llawn. Mae sicrhau bod lefel briodol o fannau agored i ddiwallu anghenion y gymuned yn debygol o fod yn fuddiol o ran iechyd corfforol a meddyliol, trwy alluogi pobl i fod yn fwy corfforol actif a chael lle yn eu hardal leol i ddianc rhag pwysau bywyd pob dydd. Lle nad yw datblygiad newydd yn creu darpariaeth briodol, gall hynny effeithio ar y gymuned a rhoi pwysau ar y cyfleusterau presennol. Mae diffyg darpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd, felly, yn debygol o fod â goblygiadau negyddol o safbwynt iechyd corfforol a meddyliol.

11.7.3 Mae'r diffyg parhaus yn y ddarpariaeth yn codi pryder mewn perthynas ag Amcan 7A yr AC. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rheswm pam nad oedd modd cynnig y ddarpariaeth hon, ond nodwyd y dangosydd hwn fel pryder wrth fonitro'r CDLl (gweler Adran 6.4), ac mae bwriad i ailasesu'r polisi fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

***Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng nghyd-destun lefelau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig***

11.7.4 Mae'r ffigurau cyflogaeth diweddaraf (gweler adran 7.1) yn dangos cynnydd o 3000 o swyddi yn CNPT yn ystod y cyfnod diweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer (2018), sy'n gwneud i fyny am lawer o'r gostyngiad yr adroddwyd amdano yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ar yr wyneb, mae cynyddu lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Fodd bynnag, gan fod hyn yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd o ostyngiad, mae'n creu 'pwynt sbarduno' wrth fonitro'r CDLl, ac o ganlyniad bydd y polisi'n rhan o broses adolygu.

11.7.5 O ran Amcan 7A yr AC, mae'r ffigurau'n dangos effaith gadarnhaol debygol ar ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol, ond mae'n rhaid gwrthbwyso hynny ag effeithiau negyddol colledion blaenorol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro, a bydd y mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o broses adolygu'r CDLl.

***Dangosydd 54: Cyfradd diweithdra yn CNPT***

11.7.6 Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae cyfradd diweithdra wedi amrywio ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, a dylid bod yn wyliadwrus wrth drafod ffigurau AMB 2019, gan fod y 'Swyddfa Ystadegau Gwladol' wedi rhoi'r data yn y categori 'ansawdd isel' oherwydd ei fod wedi'i seilio ar 10-25 o ymatebion i arolwg (gweler Adran 7.1 uchod).

11.7.7 Fodd bynnag, mae'r gyfradd bresennol o 4.8% yn gynnydd ers y llynedd, sy'n debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol. At ei gilydd, bernir ar hyn o bryd bod effaith y CDLl ar y dangosydd hwn yn gymysg.

**Amcan 7B yr AC: Lleihau/lleiafu nifer yr achosion o afiechyd a’u heffeithiau trwy ymdrin ag achosion a chanlyniadau afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a llesiant gwael**

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 7 | Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chafwyd colledion arwyddocaol o ran cyfleusterau cymunedol na mannau agoredo ganlyniad i ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro | |
| 46 | Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau tai a ganiatawyd heb roi sylw i anghenion mannau agored y preswylwyr | Dylai pob datblygiad tai newydd sydd â 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer mannau agored lle mae diffyg meintiol | Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu mannau agored ym mhob achos, er bod amgylchiadau esgusodol (gweler Adran 6.4). Mae diffyg darpariaeth mannau agored i ddatblygiadau newydd yn debygol o gael effeithiau negyddol ar gynhwysiant cymdeithasol yn lleol | |
| 47 | Nifer y mannau agored presennol a gollwyd wrth ddatblygu yn groes i’r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored yn groes i’r fframwaith polisi | Cafwyd rhai effeithiau ar fannau agored presennol yng nghyswllt 3 chais (gweler adran 6.4). Fodd bynnag, roedd y colledion ar raddfa fach at ei gilydd, ac mae’r polisi’n cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol | |
| 49 | *Dangosydd Lleol*: Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>*Dangosyddion Cyd-destunol*: Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;<br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Prif Darged:<br>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: - 1,458<br>2014/17: +1,326<br>2017/20: +1,326<br>2020/23: +1,326<br>2023/26: +1,326<br>Targed Blynyddol: Ennill 442 o swyddi y flwyddyn ar gyfartaledd o 2014 yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884 o swyddi yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae’r targed a bennwyd yn y CDLl wedi dyddio oherwydd bod ystadegau diweddarach wedi cael eu rhyddhau. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi yn CNPT ers y cyfnod monitro diwethaf (gweler Adran 7.1). Dylai cynyddu lefelau cyflogaeth gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar iechyd a llesiant. | |
| 53 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd yn CNPT | Codi cyfradd y gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026 | Mae cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler adran 7.1). Yn y cyfnod monitro diweddaraf mae wedi parhau i godi (2.9%), sy’n | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | *Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | | golygu bod cyfradd CNPT bellach fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Byddai disgwyl i gyfraddau gweithgarwch economaidd uwch gael effaith gyffredinol bositif ar iechyd a llesiant. | |
| 54 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd diweithdra yn CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd diweithdra yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Gostwng cyfradd diweithdra i 6.9% erbyn 2026 | Mae’r ystadegau’n dangos bod cyfradd diweithdra CNPT wedi codi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (yn dilyn gostyngiad y flwyddyn flaenorol) a’i bod bellach yn 4.8%, er nad yw’r ffigur hwn yn ddibynadwy o reidrwydd (gweler Adran 7.1). Mae cynnydd yn lefel diweithdra yn debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar iechyd a llesiant. | |
| 61 | Datblygu ystod o lwybrau cerdded a beicio gwell | Cwblhau Llwybr Arfordir Cymru erbyn 2012<br><br>Cwblhau Llwybrau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013<br><br>Cwblhau Llwybr y ‘Great Dragon Ride’ erbyn 2012 | Mae’r llwybrau a restrwyd yn y CDLl wedi cael eu creu, gydag effeithiau cadarnhaol tebygol ar iechyd | |
| 66 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn yr ARhAA yn groes i’r fframwaith polisi | Ni ddylai cynigion datblygu greu cynnydd sylweddol mewn lefelau llygredd nac arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy’n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd | Cafodd dau gais perthnasol eu cymeradwyo yn yr ARhAA, y ddau ohonynt yn cydymffurfio â’r fframwaith polisi | **0** |
| 67 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladu (CMP) | Ni ddylai amodau ansawdd aer gael eu torri yn ystod y cyfnod adeiladu yn groes i’r Cynllun Rheoli Adeiladu (CMP) a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Roedd angen CMP ar gyfer 1 cais a ganiatawyd yn yr ARhAA; cafodd hynny sylw ar ffurf amod | **0** |
| 69 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chaniatawyd ceisiadau mewn Ardaloedd Tawel dynodedig | **0** |
| 82 | Cwblhau llwybrau beicio a restrwyd | Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014<br><br>Mae Llwybr Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013 | Mae Llwybr Cwm Afan yn gyflawn, ac mae rhan o Lwybr Beicio Dyffryn Aman wedi’i gwblhau. | |

**Dadansoddiad**

11.7.8 Yn gyffredinol, asesir bod y cynllun yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral yng nghyswllt y rhan fwyaf o'r dangosyddion. Fodd bynnag, mae rhai dangosyddion wedi dangos canlyniad negyddol neu gymysg naill ai yn ystod y cyfnod monitro hwn neu mewn blynyddoedd yn y gorffennol, a thrafodir hynny isod.

***Dangosydd 46: Cyflwyno mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd***

11.7.9 At ei gilydd, ni chyrhaeddwyd y targed yn llawn ar gyfer darparu mannau agored yng nghyswllt datblygu newydd. Mae sicrhau bod lefel briodol o fannau agored i ddiwallu anghenion y gymuned yn debygol o fod yn fuddiol o ran iechyd corfforol a meddyliol, trwy alluogi pobl i fod yn fwy actif yn gorfforol ac i gael lle yn eu hardal leol i ddianc rhag pwysau pob dydd. Lle nad yw datblygiad newydd yn darparu'n briodol, gall hynny effeithio ar y gymuned a rhoi pwysau ar y cyfleusterau presennol. Mae diffyg darpariaeth mannau agored ar gyfer datblygiadau newydd, felly, yn debygol o fod â goblygiadau negyddol o safbwynt afiechyd, anghydraddoldeb iechyd a llesiant gwael.

11.7.10 Mae'r diffyg parhaus yn y ddarpariaeth yn codi pryderon ynghylch Amcan 7B yr AC. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd rheswm pam na ellid creu darpariaeth, ond mae'r dangosydd hwn wedi cael ei nodi'n destun pryder wrth fonitro'r CDLl (gweler Adran 6.4), ac mae bwriad i ailasesu'r polisi fel rhan o adolygiad y CDLl. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

***Dangosydd 49: Lefel cyflogaeth yn y gweithle yng nghyd-destun lefelau cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig***

11.7.11 Mae'r ffigurau cyflogaeth diweddaraf (gweler adran 7.1) yn dangos cynnydd o 3000 o swyddi yn CNPT yn ystod y cyfnod diweddaraf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer (2018), sy'n gwneud i fyny am ran fawr o'r gostyngiad yr adroddwyd amdano yn y flwyddyn flaenorol. Ar yr wyneb, mae lefelau cyflogaeth cynyddol yn debygol o gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Fodd bynnag, gan fod hyn yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd o ddirywiad, mae'n creu 'pwynt sbarduno' wrth fonitro'r CDLl, ac o ganlyniad bydd y polisi yn rhan o broses adolygu.

11.7.12 O ran Amcan 7B yr AC, mae'r ffigurau yn dangos effaith gadarnhaol debygol ar afiechyd, anghydraddoldeb iechyd a llesiant gwael, ond mae'n rhaid cydbwyso hynny ag effeithiau negyddol colledion blaenorol. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro, a bydd y mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLl.

***Dangosydd 54: Cyfradd diweithdra CNPT***

11.7.13 Mae cyfradd diweithdra wedi amrywio yn CNPT ers dyddiad gwaelodlin y CDLl, a dylid trin y ffigurau a ddefnyddir yn AMB 2019 yn wyliadwrus, gan fod y 'Swyddfa Ystadegau Gwladol' wedi eu categoreiddio fel data 'ansawdd isel' oherwydd eu bod wedi'u seilio ar 10-25 o ymatebion arolwg (gweler Adran 7.1 uchod).

11.7.14 Fodd bynnag, mae'r gyfradd bresennol o 4.8% wedi codi ers y llynedd, ac mae'n debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar afiechyd, anghydraddoldebau iechyd a llesiant gwael. At ei gilydd, bernir ar hyn o bryd bod effaith y CDLl ar y dangosydd hwn yn gymysg.

## Amcan 7C yr AC: Lleihau/lleiafu nifer yr achosion o dlodi ac effeithiau tlodi trwy ymdrin ag achosion a chanlyniadau tlodi

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 49 | *Dangosydd Lleol*: Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>*Dangosyddion Cyd-destunol:* Y newid o ran Cyflogaeth yn y Gweithle yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT;<br><br>Lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Prif Darged:<br><br>Enillion net o 3,850 o swyddi hyd at 2026<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: - 1,458<br>2014/17: +1,326<br>2017/20: +1,326<br>2020/23: +1,326<br>2023/26: +1,326<br><br>Targed Blynyddol:<br>Ar gyfartaledd, ennill 442 o swyddi bob blwyddyn o 2014 ar hyd gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 884 dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae’r targed a bennwyd yn y CDLl wedi dyddio yn sgîl ystadegau mwy diweddar a ryddhawyd. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi yn CNPT ers y cyfnod monitro diwethaf (gweler Adran 7.1). Dylai lefelau cynyddol cyflogaeth gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar dlodi. | |
| 53 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Codi cyfradd gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026 | Mae cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler adran 7.1). Yn y cyfnod monitro diweddaraf mae wedi parhau i gynyddu (2.9%), sy’n golygu bod cyfradd CNPT bellach fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru. Dylai cyfraddau gweithgarwch economaidd uwch gael effaith gadarnhaol ar lefelau tlodi. | |
| 54 | *Dangosydd Lleol*: Cyfradd diweithdra yn CNPT<br><br>*Dangosydd Cyd-destunol*: Cyfradd diweithdra yng Nghymru a’r Deyrnas Unedig | Gostwng cyfradd diweithdra i 6.9% erbyn 2026 | Mae’r ystadegau’n dangos bod cyfradd diweithdra CNPT wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (yn dilyn gostyngiad y flwyddyn flaenorol), ac mae bellach yn 4.8%, er nad yw’r ffigur hwnnw o reidrwydd yn ddibynadwy (gweler Adran 7.1). Mae cynnydd mewn diweithdra yn debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar lefelau tlodi. | |

**Dadansoddiad**

**11.7.15** Mae’r CDLl yn defnyddio model twf seiliedig ar gyflogaeth sy’n defnyddio’r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chyfraddau gweithgarwch economaidd i ganfod maint y boblogaeth oedran gwaith sy’n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd sy’n angenrheidiol yn y Fwrdeistref Sirol. Y prif fodd sydd gan y CDLl o gyfrannu at unrhyw ostyngiad mewn tlodi yw trwy ei strategaeth a’i bolisïau cyflogaeth, a’r ddarpariaeth a wneir ar gyfer datblygiadau newydd sy’n creu cyflogaeth.

**11.7.16** Darlun cymysg a gyfleir yn gyffredinol gan y dangosyddion sy’n ymwneud â gweithgarwch economaidd, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud ag effeithiau ar dlodi. Mae’r ffigurau cyflogaeth diweddaraf (gweler adran 7.1) yn dangos cynnydd o 3000 o swyddi yn CNPT yn y cyfnod mwyaf diweddar y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer (2018), sy’n gwneud i fyny am ran helaeth o’r gostyngiad yr adroddwyd amdano yn y flwyddyn flaenorol. Ar yr wyneb, mae lefelau cyflogaeth yn debygol o gael effaith gyffredinol gadarnhaol ar lefelau tlodi. Fodd bynnag, gan fod hyn yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd o ostyngiad, mae’n creu ‘pwynt sbarduno’ wrth fonitro’r CDLl, ac o ganlyniad bydd y polisi’n rhan o broses adolygu.

**11.7.17** Mae’r darlun cyffredinol yn gymysg gyda gostyngiad yn lefelau cyflogaeth a chyfraddau gweithgarwch economaidd yn debygol o gael effaith gyffredinol negyddol ar lefelau tlodi. Bydd y dangosyddion yn parhau i gael eu monitro, a bydd dangosydd cyflogaeth yn y gweithle yn cael ei ystyried fel rhan o broses adolygu’r CDLl.

## 11.8 Pwnc 8 yr AC: Yr Economi

### Amcan 8A yr AC: Datblygu a chynnal seilwaith economaidd lleol sy’n ddeniadol i fusnes ac yn diwallu anghenion newidiol y gymuned leol a chenedlaethol

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd datblygu newydd yn rhoi sylw i’r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny’n briodol | Ceir manylion llawn y dangosydd hwn yn adran 4.4. O ran seilwaith economaidd, mae effaith datblygu newydd wedi derbyn sylw yn ystod y broses o benderfynu ar y cais cynllunio ym mhob achos yn ystod y cyfnod adrodd. Lle barnwyd bod gweithredu felly’n briodol, rhoddwyd cytundebau A106 yn eu lle i roi sylw i effeithiau penodol cysylltiedig â’r datblygiadau arfaethedig a hefyd i sicrhau bod anghenion defnyddwyr terfynol yn y dyfodol yn cael eu diwallu | |
| 14 | *Dangosydd Lleol:* nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 5,690 o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth | Mae cyflwyno dyraniadau H1 ar hyd coridor yr arfordir wedi syrthio’n sylweddol o dan y targedau (gweler adran 5.1). O ganlyniad, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu fel | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | Coridor yr Arfordir | Coridor yr Arfordir yn ystod cyfnod y Cynllun<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 152<br>2012/13: 134<br>2014/15: 268<br>2015/16: 318<br>2016/17: 379<br>2017/18: 495<br>2018/19: 553<br>2019/20: 518<br>2020/21: 513<br>2021/22: 502<br>2022/23: 468<br>2023/24: 412<br>2024/25: 387<br>2025/26: 375 | rhan o'r adolygiad o'r CDLl. Ni fyddai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig o ran cyflwyno tai newydd yn cynnal y seilwaith economaidd lleol mewn modd cadarnhaol a gallai gael effeithiau negyddol o ran Amcan 8A yr AC | |
| 22 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr [Ffordd yr Harbwr (FfDdY)] | Cyflwyno Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Mae Ffordd yr Harbwr wedi cael ei gwblhau, gan ddarparu seilwaith newydd sylweddol i gynnal datblygiad canol Port Talbot yn y dyfodol | |
| 31 | Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | Dyrannwyd safleoedd ym Mholisi H1 ar gyfer darparu 1,435 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod y Cynllun<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 61<br>2012/13: 108<br>2013/14: 44<br>2014/15: 60<br>2015/16: 90<br>2016/17: 112<br>2018/19: 75<br>2019/20: 122<br>2020/21: 125<br>2021/22: 117<br>2022/23: 117<br>2023/24: 112<br>2024/25: 126<br>2025/26: 74 | Mae cyflwyno dyraniadau H1 yn ardal strategaeth y cymoedd yn awr wedi gostwng o dan y targedau bedair blynedd yn olynol (gweler adran 5.2). Bydd gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach yn digwydd i ddadansoddi hyn. Bydd datblygu safleoedd preswyl newydd yn gyffredinol yn cynnal yr economi leol a'r seilwaith economaidd lleol, a gallai unrhyw ostyngiad sylweddol estynedig yn y tai newydd a gyflwynir gael effeithiau niweidiol | |
| 37 | Nifer y cynigion gwaith a bywyd a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer yr unedau gwaith a bywyd a ganiateir | Hyd yma nid oes dim cynigion gwaith a bywyd wedi cael eu derbyn na'u caniatáu | **0** |

| Cyf y Dangos ydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 39 | Nifer yr anheddau ychwanegol net fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl | Darperir cyfanswm o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 262<br>2012/13: 287<br>2013/14: 301<br>2014/15: 386<br>2015/16: 486<br>2016/17: 549<br>2017/18: 625<br>2018/19: 686<br>2019/20: 698<br>2020/21: 676<br>2021/22: 647<br>2022/23: 614<br>2023/24: 553<br>2024/25: 542<br>2025/26: 488 | Roedd nifer y tai a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro yn sylweddol is na'r targed blynyddol, a dyma'r bedwaredd flwyddyn o ddiffyg. Bydd cyflwyno tai newydd ar y lefel hon yn dal i greu rhai effeithiau cadarnhaol ar yr economi leol, ond mae'n methu â chyrraedd y targedau a'r effeithiau a ragwelwyd | |
| 41 | Nifer yr anheddau ychwanegol net fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl | Cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 7<br>2012/13: 5<br>2013/14: 22<br>2014/15: 37<br>2015/16: 72<br>2016/17: 90<br>2017/18: 115<br>2018/19: 130<br>2019/20: 124<br>2020/21: 120<br>2021/22: 111<br>2022/23: 102<br>2023/24: 90<br>2024/25: 89<br>2025/26: 86 | Mae'r tai fforddiadwy a gyflwynwyd wedi bod yn is na'r targed ers pedair blynedd bellach, gydag 18 o unedau fforddiadwy'n cael eu cyflwyno trwy'r system gynllunio yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf. Mae'r diffyg darpariaeth newydd yn golygu nad yw polisi tai fforddiadwy'r CDLl ar hyn o bryd yn cael yr effeithiau cadarnhaol a ragwelwyd mewn perthynas â'r economi leol. | |
| 52 | Y newid net yn swm y tir a'r arwynebedd llawr cyflogaeth | Prif Darged:<br><br>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026<br><br>Targedau Interim:<br><br>2011/14: 7,000 msg<br>2014/17: 7,000 msg<br>2017/20: 7,000 msg<br>2020/23: 7,000 msg<br>2023/26: 7,000 msg<br><br>Targed Blynyddol: | Mae lefel y ddarpariaeth arwynebedd llawr newydd ar gyfer cyflogaeth wedi bod yn is na'r targed dair blynedd yn olynol, sy'n awgrymu effaith negyddol ar argaeledd safleoedd cyflogaeth. Bydd y mater hwn yn awr yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r CDLl. | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu 2,250 msg o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda tharged cronnol o 4,500msg i gael ei ddatblygu yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | | |
| 56 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Yn ystod y cyfnod monitro, ni chafwyd ceisiadau mewn unrhyw ardal gyflogaeth a ddiogelwyd yn groes i'r fframwaith polisi | |
| 57 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygu manwerthu yn groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd dau gais manwerthu perthnasol, y ddau ohonynt yn unol â'r hierarchaeth fanwerthu a'r fframwaith polisi | |
| 58 | Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | Cafwyd un cais sy'n ffitio'r diffiniad o ddatblygiad manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hwn yn gynnydd ers y llynedd ac yn debygol o gael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol | |
| 59 | Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim cynigion twristiaeth i gael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd dau gais, oedd fel ei gilydd yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi, ac a fydd yn helpu i gynnal seilwaith economaidd lleol | |
| 60 | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi | |

### Dadansoddiad

**11.8.1** Mae'r CDLl yn defnyddio model twf seiliedig ar gyflogaeth sy'n defnyddio'r cynnydd a rhagwelir mewn swyddi a gweithgarwch economaidd i nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd sy'n angenrheidiol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae i ba raddau mae polisïau'r CDLl yn cyfrannu at ddatblygu a chynnal seilwaith economaidd lleol i gyflawni hyn yn derbyn sylw yn yr amcan hwn o'r AC.

**11.8.2** Mae'r Cynllun yn dyrannu ac yn ceisio diogelu amrywiaeth o safleoedd at ddibenion cyflogaeth. Er bod rhai datblygiadau'n symud ymlaen yn arafach na'r disgwyl gwreiddiol, maent serch hynny yn helpu i gynnal y seilwaith economaidd lleol trwy ddarparu cyflogaeth adeg y gwaith adeiladu ac yn y tymor hwy, gan ddarparu cartrefi newydd a hefyd y ffyrdd a'r seilwaith lleol i wasanaethu'r datblygiad newydd. Mae rhai

o'r datblygiadau yn ymrwymiadau tymor hir, y bydd angen nifer o flynyddoedd i'w datblygu a'u cwblhau.

**11.8.3** Mae nifer o ddangosyddion yr amcan hwn yn dal â chanlyniadau cymysg, a rhoddir sylw mwy manwl i'r rhain isod.

***Dangosyddion 14, 31, 39 a 41: Cyflwyno Tai a Thai Fforddiadwy***

**11.8.4** Bydd cyflwyno tai newydd yn gyffredinol yn cynnal ac yn helpu datblygiad economïau lleol. Teimlir yr effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu trwy greu swyddi, trwy gefnogaeth ychwanegol ar gyfer seilwaith newydd lleol a'i ddarparu (gan gynnwys gwella ffyrdd ac amwynderau a chyfleusterau cyhoeddus) a thrwy wneud cymunedau yn gyffredinol yn fwy cynaliadwy a dichonadwy. Bydd datblygu tai yn gyffredinol yn helpu i gynnal darpariaeth ychwanegol o ran tai fforddiadwy, gan roi mwy o gefnogaeth i gymunedau lleol a'r economi leol, ac yn sgîl hynny gefnogi ac annog busnesau lleol hen a newydd a'r economi ehangach.

**11.8.5** Mae'r arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r diffyg ymddangosiadol sy'n parhau o ran cyflawni targedau'r CDLl, felly, yn awgrymu gostyngiad yn y manteision economaidd sydd ar gael trwy adeiladu tai, gydag effaith lai cadarnhaol a mwy cymysg ar yr amcan hwn.

***Dangosydd 52: Y newid net yn swm yr arwynebedd llawr a'r tir cyflogaeth***

**11.8.6** Mae lefel y ddarpariaeth o ran arwynebedd llawr newydd ar gyfer cyflogaeth bellach wedi syrthio o dan y targed dair blynedd yn olynol, sy'n awgrymu bod effaith negyddol ar seilwaith economaidd yr ardal leol. Bydd polisïau'r CDLl yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r CDLl er mwyn asesu pa fesurau gellid eu rhoi ar waith i ymdrin â'r mater hwn.

## Amcan 8B yr AC: Datblygu a chynnal economi sy'n diogelu ochr yn ochr â chydweddu, hyrwyddo a gwella buddsoddi mewn adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol a defnydd ohonynt

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 15 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (preswyl) | Darparu 2,400 o unedau tai newydd erbyn 2026<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 0<br>2012/13: 3<br>2013/14: 72<br>2014/15: 100<br>2015/16: 125<br>2016/17: 140<br>2017/18: 170<br>2018/19: 190 | Ni chyflwynwyd unedau tai yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro ac mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd yn dal yn sylweddol is na'r targed cronnol. Mae'r prosiect yn dal i gael effeithiau economaidd cadarnhaol o ran adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg datblygiad yn ddiweddar yn golygu bod ei effeithiau cyffredinol yn dal yn gymysg | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20: 215<br>2020/21: 215<br>2021/22: 215<br>2022/23: 225<br>2023/24: 235<br>2024/25: 245<br>2025/26: 250 | | |
| 16 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (cyflogaeth) | Bydd isafswm o 4 Ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun at ddibenion cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33 Ha y flwyddyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 0.66 Ha i gael ei ddatblygu mewn unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Eto ni fu datblygiadau cyflogaeth newydd yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r diffyg cynnydd hwn yn golygu bod effeithiau'r polisi yn dal yn gymysg | |
| 19 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (preswyl) | Darparu 385 o unedau tai newydd erbyn 2026<br><br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 0<br>2012/13: 0<br>2013/14: 0<br>2014/15: 0<br>2015/16: 35<br>2016/17: 0<br>2017/18: 10<br>2018/19: 30<br>2019/20: 30<br>2020/21: 50<br>2021/22: 50<br>2022/23: 50<br>2023/24: 50<br>2024/25: 50<br>2025/26: 30 | Ni fu datblygiadau tai newydd yng Nglannau'r Harbwr ers 2 flynedd yn olynol. Mae potensial o hyd i'r datblygiad gael effeithiau economaidd cadarnhaol o ran adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg cynnydd diweddar yn golygu bod yr effeithiau cyffredinol yn dal yn gymysg | |
| 20 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (cyflogaeth) | Bydd isafswm o 7 Ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun at ddibenion cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46 Ha y flwyddyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill o'r Cynllun, gyda tharged cronnol o 0.92 Ha i'w ddatblygu mewn unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Bellach ni ddatblygwyd unrhyw dir at ddefnyddiau cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr am 4 blynedd yn olynol. Fel yn achos y datblygiad tai (Dangosydd 19), bernir bod potensial o hyd i'r datblygiad gael effeithiau economaidd cadarnhaol o ran adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg cynnydd diweddar yn golygu bod yr effeithiau cyffredinol yn dal yn gymysg | |
| 21 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn | Cyflwyno'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r | Ni chymeradwywyd datblygiadau manwerthu newydd yng Nglannau'r Harbwr yn ystod y 4 blynedd diwethaf, sy'n adlewyrchu'r un amgylchiadau | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (manwerthu) | Harbwr a Chanol Tref Port Talbot | economaidd a nodwyd yn nangosyddion 19 a 20 uchod. Er bod elfen fanwerthu'r dyraniad yn cynrychioli cyfle economaidd sylweddol, mae effeithiau hynny wedi bod yn gymysg | |
| 24 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (preswyl) | Cyflwyno 50 o unedau tai newydd, gyda disgwyl i hynny gychwyn o 2016/17 | Er na chwblhawyd datblygiad tai newydd ar safle cynllun adfywio canol tref Castell-nedd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, mae'r safle ar waith ar hyn o bryd, a dylai'r datblygiad yn gyffredinol gyfrannu at y buddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | |
| 25 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (manwerthu) | Cyflwyno elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd:<br>Cyfnod 1 - erbyn 2016 (Yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd)<br>Cyfnod 2 - erbyn 2020 | Mae Cyfnod 1 wedi cael ei gwblhau ac mae Cyfnod 2 ar waith. Dylai'r datblygiad yn gyffredinol barhau i gyfrannu at y buddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | |
| 26 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (preswyl) | Cyflwyno 50 o unedau tai newydd, gyda disgwyl i hynny gychwyn o 2017/18 | Mae gwaith ar elfen breswyl y cynllun bellach wedi'i gwblhau, a chyflwynwyd cyfanswm ychydig yn is, sef 47 uned. Dylai'r datblygiad yn gyffredinol gael effaith gadarnhaol ar fuddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | |
| 27 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (manwerthu) | Cyflwyno elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan,<br>Port Talbot erbyn 2020 | Mae elfen fanwerthu y datblygiad hwn hefyd wedi'i chwblhau nawr a dylai'r datblygiad yn gyffredinol gael effaith gadarnhaol ar fuddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | |
| 28 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (preswyl) | Cyflwyno 150 o unedau tai newydd, gyda disgwyl i hynny gychwyn o 2016/17 | Bu oedi gyda'r cynllun hwn (gweler 5.1), a hyd yma nid oes datblygu wedi digwydd. Petai'n cael ei gyflwyno, byddai'r datblygiad yn gadarnhaol o safbwynt buddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | **0** |
| 29 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (twristiaeth/hamdden) | Cyflwyno datblygiad twristiaeth/hamdden yn Lido Afan erbyn 2020 | Nid yw elfennau twristiaeth / hamdden arfaethedig y datblygiad yn Lido Afan (sydd i'w adeiladu ochr yn ochr â'r datblygiad preswyl uchod) wedi cael eu cyflwyno eto chwaith. | **0** |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 30 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflwyno erbyn 2015:<br>Gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013<br>Adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau ym mis Mai 2014<br>Yr holl adeiladau amhreswyl wedi'u cwblhau ym mis Mai 2015<br>Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015 | Mae Campws y Bae wedi agor ac yn cael ei ddefnyddio, gan wneud cyfraniad sylweddol at fuddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | |
| 38 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021 | Er na chymeradwywyd datblygiad hyd yma, ni chyrhaeddwyd y dyddiad cyflwyno targed. Os caiff ei gyflawni, byddai swyddi twristiaeth newydd yn yr ardal yn gadarnhaol ar gyfer buddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | **0** |
| 58 | Nifer y ceisiadau am ddatblygu manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiateir | Cafwyd un cais sy'n ffitio'r diffiniad o ddatblygu manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hwn yn gynnydd ers y llynedd, ac yn debygol o gael rhywfaint o effaith gadarnhaol o ran buddsoddi mewn adnoddau lleol a'u defnyddio | |
| 59 | Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim cynigion twristiaeth i gael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd dau gais, oedd fel ei gilydd yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi, ac a fydd yn helpu i gynnal y seilwaith economaidd lleol | |
| 60 | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi | |
| 70 | *Dangosydd Craidd*: Swm yr agregau sylfaenol a enillwyd o'r tir a ganiatwyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi ar ffurf canran o gyfanswm y capasiti gofynnol a nodwyd yn | Mae cronfa dir 10 mlynedd o gerrig mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y Cynllun | Mae gan Gastell-nedd Port Talbot ffigur cronfa dir sy'n fwy na 50 mlynedd ar sail cyfartaledd gwerthiant 3-blynedd (2016-2018) a 41 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10-mlynedd (2009-2018) (gweler Adran 8.4). Dylai hyn helpu i sicrhau bod modd echdynnu'r adnoddau lleol hyn mewn modd cynaliadwy yn ôl y galw | |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| | Technegol Rhanbarthol (MTAN)<br><br>*Dangosydd Lleol*: Cyflenwad tir agregau | | | |
| 71 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar weithio unrhyw adnodd mwynau yn y dyfodol | |
| 72 | Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu agregau mwynau nad ydynt yn unol â Pholisi M2 | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chafwyd ceisiadau ar gyfer echdynnu agregau mwynau yn ystod y cyfnod monitro | |
| 73 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Parthau Clustogi Mwynau | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd ceisiadau yn groes i Bolisi M3 | |

**Dadansoddiad**

**11.8.7** Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r CDLl yn defnyddio model twf a seiliwyd ar gyflogaeth sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chyfraddau gweithgarwch economaidd i nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol i gynnal y nifer o swyddi a ragwelir. Defnyddir hynny yn ei dro i ragfynegi nifer y cartrefi newydd sy'n angenrheidiol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae i ba raddau mae adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol yn elwa o gael eu defnyddio i gyflawni hyn yn derbyn sylw yn yr amcan hwn yn yr AC.

**11.8.8** Oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot, mae bwriad i ddatblygu'n sylweddol ar nifer o safleoedd tir llwyd mawr yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Mae'r rhain yn cynnwys datblygiadau defnydd cymysg yng Nghoed Darcy, Glannau'r Harbwr, Canol Tref Castell-nedd, Ysgol Glanafan a Lido Afan. Mae safle tir llwyd mawr ym Mae Baglan hefyd wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth.

**11.8.9** Ni fu fawr ddim datblygu yng Nghoed Darcy, Glannau'r Harbwr nac ar safle Lido Afan yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy'n golygu bod y cynlluniau hynny wedi cael effaith gymysg neu ddim manteision o safbwynt adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol eleni. Bydd y mater hwn yn cael ei asesu ac yn derbyn sylw yn ôl y galw yn yr adolygiad o'r CDLl sydd ar droed. Bernir bod y safleoedd tir llwyd eraill sy'n cael eu monitro yn gwneud cynnydd boddhaol.

## Amcan 8C yr AC: Datblygu a chynnal economi sy'n cydweddu â sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol, gan eu defnyddio a'u gwella

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 16 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy (cyflogaeth) | Bydd isafswm o 4 Ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun at ddefnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.33 hectar yn cael ei ddatblygu fesul blwyddyn yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 0.66 Ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Ni fu datblygiadau cyflogaeth newydd yng Nghoed Darcy yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r diffyg cynnydd hwn yn golygu bod effeithiau'r polisi yn gymysg | |
| 20 | Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr (cyflogaeth) | Bydd isafswm o 7 Ha o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun at ddefnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o 0.46 Ha yn cael ei ddatblygu fesul blwyddyn yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o 0.92 Ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Bellach ni ddatblygwyd tir at ddefnyddiau cyflogaeth yng Nglannau'r Harbwr 4 blynedd yn olynol. Fel yn achos datblygu tai (Dangosydd 19), bernir y gallai fod potensial o hyd i'r datblygiad gael effeithiau economaidd cadarnhaol ar adnoddau ac asedau lleol, ond mae'r diffyg cynnydd diweddar yn golygu bod yr effeithiau cyffredinol yn dal yn gymysg | |
| 29 | Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan | Cyflwyno datblygiad twristiaeth / hamdden yn Lido Afan erbyn 2020 | Nid oes fawr ddim cynnydd at gyflanwi i'w weld yn elfennau twristiaeth/hamdden arfaethedig y datblygiad yn Lido Afan. | **0** |
| 30 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflwyno erbyn 2015:<br>Gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013<br>Cwblhau'r adeiladau cyntaf ym mis Mai 2014<br>Yr holl adeiladau amhreswyl yn cael eu cwblhau ym mis Mai 2015<br>Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015 | Mae Campws y Bae wedi agor ac yn cael ei ddefnyddio, gan wneud cyfraniad sylweddol i'r amcan hwn | |
| 37 | Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd a gwaith a ganiatawyd | Hyd yma nid oes cynigion bywyd a gwaith wedi cael eu derbyn na'u caniatáu | **0** |

| Cyf y Dangosydd | Dangosydd Monitro | Targed | Sylwadau | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 38 | Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflwyno erbyn 2021 | Er na chymeradwywyd datblygiad hyd yma, ni chyrhaeddwyd y dyddiad targed ar gyfer cyflwyno eto. O’i gyflwyno, byddai swyddi twristiaeth newydd yn yr ardal yn gadarnhaol o safbwynt buddsoddi mewn adnoddau lleol a’u defnyddio | 0 |
| 58 | Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygu manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu graddfa fach a ganiatawyd | Cafwyd un cais sy’n ffitio i’r diffiniad o ddatblygiad manwerthu graddfa fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae hwn yn gynnydd ers y llynedd ac yn debygol o gael rhywfaint o effaith bositif ar y buddsoddi mewn adnoddau lleol a’r defnydd ohonynt | |
| 59 | Nifer y ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yn groes i’r fframwaith polisi | Dim cynigion twristiaeth i gael eu caniatáu yn groes i’r fframwaith polisi | Caniatawyd dau gais, oedd fel ei gilydd yn cydymffurfio â’r fframwaith polisi ac a fydd yn helpu i gefnogi seilwaith economaidd leol | |
| 60 | Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i’r fframwaith polisi | Dim colli cyfleusterau twristiaeth yn groes i’r fframwaith polisi | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i’r fframwaith polisi | |

### Dadansoddiad

**11.8.10** Mae model twf seiliedig ar gyflogaeth y CDLl yn defnyddio’r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi maint y boblogaeth oedran gwaith sy’n ofynnol i gynnal y nifer a ragwelir o swyddi. Mae hyn yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i ragfynegi nifer y cartrefi newydd sy’n ofynnol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae i ba raddau mae sgiliau a gwybodaeth y gymuned leol yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn yn derbyn sylw yn yr amcan hwn o’r AC.

**11.8.11** Ni fu fawr ddim datblygu yng Nghoed Darcy, Glannau’r Harbwr na safle Lido Afan yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sy’n golygu bod y cynlluniau hynny wedi cael effaith gymysg neu ddim manteision o ran adnoddau lleol ac asedau amgylcheddol eleni. Bydd y mater hwn yn cael ei asesu ac yn derbyn sylw yn ôl y galw yn yr adolygiad o’r CDLl sydd ar droed. Bernir bod y safleoedd tir llwyd eraill sy’n cael eu monitro yn gwneud cynnydd boddhaol.

# RHAN 4 – Diweddglo ac Argymhellion

# 12 Diweddglo ac Argymhellion

12.0.1 Hwn yw'r pedwerydd AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu, ac mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLl ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol.

12.0.2 Ceir trosolwg o ganlyniadau'r monitro yn y tabl canlynol:

**Tabl 12.0.1 Fframwaith Monitro'r CDLl**

| Asesiad | Gweithredu | Nifer y dangosyddion yn y categori |
|---|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus | Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau | 59 |
| Nid yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd | Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau | 0 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol | 1 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol | Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau | 1 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu | 27 |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu | Yn dilyn cadarnhad, bydd y CDLl yn destun broses adolygu | 0 |

12.0.3 Mae mwyafrif y dangosyddion yn parhau i ddangos polisïau'n cael eu gweithredu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae sawl targed polisi allweddol i ddangosyddion a chanlyniadau monitro, yn ymwneud yn bennaf â darparu tai a datblygu cysylltiedig â chyflogaeth, sy'n dal heb gael eu cyflawni. Mae hyn yn arwydd nad yw'r polisïau hynny'n gweithredu'n unol â'r bwriad, ac yn yr achosion hyn mae'r monitro wedi cadarnhau y bydd angen i'r materion polisi hyn dderbyn sylw fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

12.0.4 Lle mae dogfennau CCA yn dal heb eu cynhyrchu, bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u paratoi cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

### Diweddglo

12.0.5 Mae'r cyfnod monitro hwn wedi dangos bod amcanion y CDLl, yn gyffredinol, yn parhau i gael eu cyflawni i raddau helaeth. Mae mwyafrif y dangosyddion yn parhau i ddangos gweithredu cadarnhaol o ran polisi, ac felly'n arwydd bod y CDLl yn darparu llawer o fanteision pwysig i gymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot.

**12.0.6** Ymhellach, mae'r cyfraddau gweithgarwch economaidd a diweithdra wedi gwella ers dyddiad gwaelodlin y Cynllun, ac er bod y ffigurau hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae hyn yn arwydd o broffil economaidd llawer mwy cadarnhaol i'r ardal, a bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y strategaeth sydd â ffocws economaidd.

**12.0.7** Serch hynny, mae sawl targed dangosydd polisi allweddol a chanlyniad monitro sy'n ymwneud yn bennaf â darparu tai a datblygu cysylltiedig â chyflogaeth sy'n parhau heb eu cyflawni. Mae hyn yn arwydd nad yw'r polisïau hyn yn gweithredu'n unol â'r bwriad, ac o ganlyniad, mae hynny'n tanseilio gallu'r CDLl i gyflawni'r strategaeth uchelgeisiol yn llawn.

**Argymhelliad**

**12.0.8** Er mwyn sicrhau bod y CDLl yn cael ei ddiweddaru'n gyson, mae rhwymedigaeth statudol ar y Cyngor i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun a fabwysiadwyd bod pedair blynedd o leiaf wedi'r mabwysiadu cychwynnol.

**12.0.9** Yn achos Castell-nedd Port Talbot felly, mae'r CDLl yn awr yn destun cylch adolygu statudol llawn o bedair blynedd, ac felly bydd angen asesu pob agwedd ar y Cynllun i farnu a ydynt yn dal yn gadarn ac yn addas at y diben. Bydd hyn yn cynnwys y materion allweddol, y weledigaeth a'r amcanion, y strategaeth (h.y. lefel a dosbarthiad twf), polisïau, dyraniadau defnyddir tir a dynodiadau.

**12.0.10** Cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Adolygu'r CDLl ym mis Gorffennaf 2020, a bydd gwaith yn cychwyn ar y CDLl Amnewid yn y cyfnod monitro nesaf.

# Atodiad A

**A.1** Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, nifer o ddiwygiadau i Bolisi Cenedlaethol, yn arbennig cyflwyno a monitro tai.

***A.1*** Roedd y diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn canolbwyntio ar gyflwyno llwybrau tai i'w defnyddio'n sail ar gyfer monitro cyflwyno tai yn erbyn targed tai Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae'r diwygiadau i baragraff 4.2.11 o PCC yn datgan, *'Rhaid i awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r llwybr tai yn y cynllun datblygu a fabwysiadwyd ganddynt yn sail ar gyfer monitro cyflwyno eu gofynion tai. Mae angen gwybodaeth fanwl gywir ynghylch cyflwyno tai, wedi'i hasesu yn erbyn y llwybr, er mwyn ffurfio rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol y cynllun Datblygu (AMBau) ac adolygu'r cynllun wedi hynny. Gall tangyflawni yn erbyn y llwybr alw am adolygiad cynnar penodol o'r cynllun datblygu. Rhaid i'r monitro ar gyflwyno tai ar gyfer AMBau gael ei wneud gan awdurdodau cynllunio yn unol â'r canllawiau a nodwyd yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.'*

**A.2** Cyflwynodd y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), a gyhoeddwyd ar yr un pryd, ofyniad bod AMBau yn cynhyrchu Llwybr Tai wedi'i ddiweddaru ac yn cymharu'r union dai a gyflwynwyd â thargedau'r Cynllun Datblygu Lleol. Disodlodd y gofyniad i fonitro ac adrodd am gyflwyno tai trwy'r AMB yr Astudiaeth ar y Cyd ynghylch Argaeledd Tir ar gyfer Tai, pan ddiddymwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 ym mis Mawrth 2020. Mae'r Llwybr wedi'i gynnwys fel rhan o ddangosydd 39 yn yr adroddiad hwn.

**A.3** Wrth gynhyrchu llwybr, mae angen cwblhau Tablau 19 a 20 o'r Llawlyfr a'u cynnwys yn yr AMB. Manylir ar y rhain isod ac maent yn dangos y cyfraddau cyflwyno a ragwelir yn y dyfodol ar safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLl.

## Ffigur 1 Amseriad a Chyfnodau Safleoedd sydd heb Ganiatâd Cynllunio

| LDP Ref. | Allocated Site Name | Total Site Capacity | Time lag to construction start in months | | | Phasing of Development (remaining years of plan) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Time period for pre-application discussion/PAC consultation | Time between submission of planning application & determination | Time taken from planning consent to discharge relevant conditions to enable site construction | Completions | U/C | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | Units beyond the plan period |
| H1/1 | Gorffwysfa Care Home, Bryncoch | 15 | 6 months | 3 months | 6-9 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 4 | 5 | 0 | 0 |
| H1/2 | Leiros Park Extension, Neath | 200 | Extensive pre-app undertaken | 3 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 50 | 50 | 50 | 20 |
| H1/5 | Dwr Y Felin | 20 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 0 |
| H1/9 | Crymlyn Grove (Ph3) | 150 | 6 months | 6 months | 6 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 40 | 40 | 40 | 0 |
| H1/12 | Blaenbaglan School (land to the rear of), Baglan | 141 | 6 months | 6 months | 6-12 months | 0 | 0 | 0 | 10 | 30 | 40 | 40 | 21 | 0 |
| H1/13 | Hawthorn Close, Cwmafan | 100 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 30 | 30 | 30 | 0 |
| H1/14 | Western Logs, Cwmafan | 130 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 35 | 35 | 40 | 0 |
| H1/15 | Neath Port Talbot College (Margam Campus) | 80 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 30 | 30 | 0 | 0 |
| H1/17 | Habourside, Port Talbot | 385 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 34 | 0 | 0 | 0 | 40 | 40 | 40 | 40 | 187 |
| H1/18 | Afan Lido and land to the rear of Tywyn School | 150 | Extensive pre-app undertaken | 6 months | 6 months | 0 | 0 | 0 | 10 | 45 | 45 | 50 | 0 | 0 |
| H1/20 | Purcell Avenue, Port Talbot | 115 | n/a | Current application undetermined | 6-9 months | 0 | 0 | 0 | 10 | 35 | 35 | 35 | 0 | 0 |
| H1/22 | Tir Morfa Road, Port Talbot | 75 | 6 months | 6 months | 6-9 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 | 40 | 0 |
| H1/23 | Park Avenue, Glynneath | 150 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30 | 35 | 35 | 50 |
| H1/25 | Ynysymond Road | 50 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 | 25 | 0 | 0 | 0 |
| H1/29 | Parc Ynysyderw | 50 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 25 | 25 | 0 | 0 | 0 |
| H1/30 | Compair / GMF | 70 | n/a | Current application undetermined | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 30 | 30 | 0 | 0 |
| H1/31 | Tirbach Washery | 160 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 40 | 40 | 40 | 30 |
| H1/LB/3 | Elba Crescent | 50 | Consent recently lapsed | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 25 | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| H1/LB/6 | Eaglesbush, Melyncryddan | 50 | Consent recently lapsed | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 5 | 20 | 25 | 0 | 0 | 0 |
| H1/LB/13 | Blaenbaglan Farm, Baglan | 160 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 35 | 40 | 70 |
| H1/LB/17 | Farteg Fawr, Bryn | 25 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 4 | 4 | 0 | 0 |
| H1/LB/19 | Forest Lodge Lane, Cwmafan | 15 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 2 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| H1/LB/26 | Heol Y Waun, Seven Sisters | 68 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 |
| H1/LB/27 | Heol Y Glyn, Glynneath | 81 | 6 months | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 81 |
| H1/LB/32 | Holly St, Pontardawe | 45 | Previous consent lapsed | 6 months | 12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 25 | 0 | 0 | 0 |
| H1/LB/33 | Waun Penlan, Rhydyfro | 19 | 6 months | 6 months | 9-12 months | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 19 | 0 | 0 | 0 |

## Ffigur 2 Amseru a Chyfnodau Safleoedd sydd â Chaniatâd Cynllunio

The timing and phasing of sites with planning permissions

| LDP Ref. | Site Name | Total Site Capacity | Completions | U/C | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | Units beyond plan period |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H1/LB/4 | Area 1, Coed Darcy Urban Village | 195 | 65 | 0 | 10 | 40 | 40 | 20 | 0 | 0 | |
| H1/LB/5 | Coed Darcy Urban Village | 4,000 | 291 | 0 | 20 | 130 | 150 | 150 | 200 | 200 | 2,859 |
| H1/LB/25 | Glyn Dulais Care Home, Crynant | 22 | 0 | 0 | 5 | 5 | 6 | 6 | 0 | 0 | |
| H1/LB/28 | Welfare Hall, Glynneath | 10 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| H1/7* | Neath Town Centre | 50 | 0 | 0 | 12 | 0 | 0 | 14 | 24 | 0 | 0 |
| H1/11* | Neath Rd / Fairyland Rd | 300 | 113 | 25 | 25 | 25 | 5 | 40 | 45 | 45 | 27 |
| H1/27* | Waun Sterw/ Waun Penlan, Rhydyfro | 115 | 0 | 0 | 0 | 35 | 10 | 35 | 35 | 0 | 0 |
| H1/28* | Bryn Brych Farm | 150 | 54 | 24 | 24 | 0 | 36 | 36 | 0 | 0 | 0 |

* Part of site has planning consent

**A.4** Mae'r Llawlyfr yn datgan, cyn cyhoeddi'r AMB, y dylid ymgynghori â Grŵp Rhanddeiliaid Tai ynghylch y llwybr diwygiedig a gwybodaeth am gyflwyno yn y dyfodol. Ymgynghorwyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai rhwng 11 Awst a 1 Medi 2020.

**A.5** Yn ystod yr ymgynghoriad, cyflwynwyd sylwadau gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) a wnaeth y cynrychiolaethau canlynol:

- Dim cyfiawnhad dros leihau gofynion tai'r cynllun ac yna defnyddio'r ffigur is hwn yn sylfaen ar gyfer y llwybr.
- Ansicr o fudd y tabl 'Amseriad a chyfnodau dyraniadau', gan fod yr un ffigurau safonol yn cael eu defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd. Mewn gwirionedd mae'r union amser a gymerir ar safleoedd yn amrywio'n fawr o safle i safle, ac mae llawer o safleoedd yn cymryd llawer hwy na'r cyfnodau o amser a awgrymwyd.
- Mae llwybr y Cyngor yn dal i ddibynnu'n drwm ar safle Coed Darcy, er bod y safle hwnnw wedi methu â darparu cartrefi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**A.6** Cydnabyddir y sylwadau a wnaed gan HBF, ond oherwydd y nifer sylweddol is o dai a gyflwynwyd ers mabwysiadu'r CDLl, nid oes gan y CDLl gyflenwad digonol i fedru cyflawni'r gofyniad ti llawn yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r cynllun. O ganlyniad, seiliwyd y llwybr i'r dyfodol ar nifer yr unedau tai y gellid eu cyflawni yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill, sef gostyngiad i 6,176 o unedau, o gymharu â'r ddarpariaeth tai wreiddiol o 8,760, gydag amserau cyflwyno wedi'u seilio ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd. O ran dibyniaeth y CDLl ar safle Coed Darcy, nododd Adroddiad Adolygu'r CDLl, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, fod y safle hwnnw wedi cyflawni'n sylweddol is na'r llwybr gwreiddiol a ragwelwyd, ac felly y bydd angen ailasesu Coed Darcy, ynghyd â'r holl ddyraniadau eraill presennol, fel rhan o'r broses adolygu.

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol

www.npt.gov.uk/ldp